Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

2016/17

Yn eich cefnogi chi a'ch penderfyniadau

www.gov.uk/opg

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

2016/17

Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 60 Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Cyfrifon a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Arglwyddi ar Orchymyn ei Mawrhydi

Gorchymynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 19 Gorffennaf 2017

HC 180

**© Hawlfraint y Goron 2017**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni bai ble nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch at Y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.**

Ble rydym wedi nodi gwybodaeth hawlfraint unrhyw drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd oddi wrth y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar **www.gov.uk/government/publications**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom yn **customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk**

Print ISBN 9781474144070

Web ISBN 9781474144087

ID 21041708 07/17

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys isafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan The Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi

# Cynnwys


## Adroddiad perfformiad 1

**Trosolwg** 2

Datganiad y Prif Weithredwr 3

Ynglŷn â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus 5

**Dadansoddiad perfformiad** 8

Blaenoriaethau ac amcanion busnes 2016/17 8

Amddiffyn y sawl sy'n agored i niwed 13

Cwynion 19

Cyfreithiol 21

Ymrwymiad staff 22

Perfformiad ariannol 23

Adroddiad cynaliadwyedd 25

## Adroddiad atebolrwydd 30

**Adroddiad llywodraethu corfforaethol** 31

Adroddiad y cyfarwyddwr 31

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 34

Datganiad llywodraethu 35

**Adroddiad thâl a staff** 52

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ar Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd 64

## Datganiadau ariannol 66

**Nodiadau ar y cyfrifon** 71

**Atodiadau** 88

Cofnod ariannol pum mlynedd 88

# Adroddiad perfformiad

# Trosolwg

Diben y trosolwg yw rhoi crynodeb o Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG), ein nod, y prif risgiau i gyflawni ein nodau a sut rydym wedi perfformio yn ystod y flwyddyn.

Mae'r trosolwg yn cynnwys:

- datganiad y Prif Weithredwr, gan roi ei safbwynt ar ein perfformiad yn 2016/17
- disgrifiad o ddiben yr OPG, beth rydym yn ei wneud, ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid, ein perthynas gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ), a'r prif risgiau a phroblemau rydym wedi'u rheoli yn ystod y flwyddyn
- crynodeb perfformiad yn amlinellu sut berfformion ni yn erbyn ein amcanion cyflwyno gwasanaeth.

Ceir esboniad manylach o'n perfformiad ac atebolrwydd yn nhudalennau dilynol yr adroddiad.

# Datganiad y Prif Weithredwr

Wrth i'r flwyddyn ariannol ddod i ben, mae'n gyfle i edrych ymlaen at y nesaf, sef yr amser perffaith i adlewyrchu ar beth mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) wedi'i gyflawni yn 2016/17.

Mae galw am ein gwasanaethau wedi parhau i gynyddu, ond rydym dal wedi cyrraedd neu gynyddu mwyafrif ein targedau perfformiad, tra'n cynnig lefel uchel o wasanaeth i'n cwsmeriaid sy'n bobl a allai fod â diffyg galluedd meddyliol ac mewn peryg o gamdriniaeth neu esgeulustod, yn ogystal â'u hasiantau a chefnogwyr – cyrhaeddiad sylweddol.

Ymhlith ein llwyddiannau allweddol eraill mae:

- cyflwyno gwasanaeth adrodd digidol newydd ar gyfer dirprwyon lleyg sydd bellach yn gallu cyflwyno eu hadroddiadau blynyddol ar eiddo a chyllid ar-lein. Bydd pob dirprwy lleyg newydd yn defnyddio'r gwasanaeth fel y modd diofyn o adrodd, gyda chefnogaeth yn ôl yr angen.
- datblygu peilot o'r gwasanaeth adrodd digidol ar gyfer dirprwyon awdurdodau cyhoeddus a fydd yn gwella'r cyfathrebu rhyngom, ac yn buddio'r person â diffyg galluedd meddyliol
- cychwyn disodliad ein system rheoli achosion, goruchwylio ac ymchwiliadau, a fydd yn ein caniatáu i bontio'n gyfan gwbl i'n system TG newydd, gan wella cynhyrchedd ac effeithiolrwydd a'r gyfradd o amddiffyniad y gallwn ei darparu
- symud ein systemau Adnoddau Dynol a chyllid i un platfform, llywodraeth-gyfan, gan greu arbedion effeithiolrwydd pwysig, arbedion a gwelliannau ansawdd
- ymgymryd â darn sylweddol o waith i ddeall mwy am gwsmeriaid atwrneiaeth arhosol (LPA) cyfredol a posib er mwyn iddynt allu darogan llwythi gwaith y dyfodol a barnu ble fyddai ymyrryd mewn rhannau o gymdeithas wedi'u tan-gynrychioli fwyaf defnyddio er mwyn i ni allu parhau i gynnig y lefel uchaf o wasanaeth.

Fe gofrestrom 648,318 LPA ac atwrneiaeth barhaus (EPA) – cynnydd o 18% ers y flwyddyn flaenorol. Y llwyth achosion goruchwylio ar ddiwedd y flwyddyn oedd 57,702, a oedd hefyd yn gynnydd o 1% ers y llynedd. Mae hyn yn dangos cynnydd parhaus yn y defnydd o'n gwasanaethau ac mae OPG wedi gorfod addasu ei brosesau, dulliau gwaith a gweithlu er mwyn sicrhau ein bod yn dal i gyflwyno'r lefel o wasanaeth mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.

Mae nifer yr ymchwiliadau wedi cynyddu ond mae hynny i'w ddisgwyl gyda llwyth gwaith cynyddol wrth gofrestru achosion atwrneiaeth (PoAs) a dirprwyaeth/

Ar yr un pryd rydym wedi parhau i ailadrodd ein hoffer digidol cyfredol ac ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cwblhawyd dros 27% o'r holl LPAs a dderbyniwyd i'w cofrestru gan ddefnyddio ein offer digidol ar-lein.

Ond mae wastad mwy i'w wneud.

## Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Yn y flwyddyn a ddaw, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ein trawsnewidiad digidol, gwella ein hoffer digidol a sicrhau bod y cwsmer yn ganolog i bopeth a wnawn. Byddwn yn edrych i ddefnyddio adborth cwsmeriaid i yrru gwelliannau yn ein gwasanaethau.


Byddwn yn sicrhau bod gennym y staff gyda'r sgiliau cywir i gefnogi ein cwsmeriaid a bod ein prosesau yn gwneud hynny mor syml â phosib i bawb. Byddwn yn gweithio gyda'n sefydliadau partner i ddatblygu rhwydwaith diogelu sy'n cynnwys ac yn ymgorffori pob corff perthnasol ar yr adeg cywir.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau bod dirprwyon ac atwrneiod yn gallu defnyddio ei pwerau i wneud penderfyniadau gyda, neu ar ran, person agored i niwed mor effeithiol a hawdd â phosib.

Rydym eisiau sicrhau bod gan bob rhan o gymdeithas fynediad at yr wybodaeth gywir, er mwyn iddynt feddu ar yr holl wybodaeth ac â'r grym i benderfynu a yw LPA yn addas iddynt.

O'n dadansoddiad, fe welwn bod yna rannau o gymdeithas wedi'u tan-gynrychioli pan ddaw at roi LPA yn ei le. Yn aml mae'r tan-gynrychiolaeth hon mewn ardaloedd ble mae angen sylweddol. Byddwn yn treialu ffyrdd o ymrwymo gyda'r grwpiau anodd eu cyrraedd hyn ac yn dysgu o beth sy'n gweithio er mwyn darparu'r gwybodaeth gywir a gwneud LPAs yn hygyrch i bobl sydd eu hangen fwyaf.

Unwaith eto, hoffwn gymryd y cyfle hwn i fynegi fy niolch i staff yr OPG am eu gwaith caled, bwrdd yr OPG am eu cefnogaeth barhaus a chymorth ein holl sefydliadau partner, y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth, i sicrhau ein bod, gyda'n gilydd, yn amddiffyn yr oedolion hynny sy'n fregus yn sgil colli galluedd meddyliol.



**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2017

# Ynglŷn â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

## Cyflwyniad

Caiff y Gwarcheidwad Cyhoeddus ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor dan Adran 57 Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA). Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG), mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn bersonol gyfrifol i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder am reolaeth effeithiol yr asiantaeth, gan gynnwys sut mae'r asiantaeth yn gwario arian cyhoeddus ac yn rheoli ei asedau.

Caiff y Gwarcheidwad Cyhoeddus ei gefnogi gan yr OPG yn y gwaith o gyflawni ei swyddogaethau statudol dan yr MCA.

Mae cyfrifoldebau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ymestyn ledled Cymru a Lloegr. Mae trefniadau ar wahân yn bodoli ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Beth mae'r OPG yn ei wneud?

Sefydlwyd yr OPG ym mis Hydref 2007 ac mae'n asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ). Rydym yn cefnogi ac yn galluogi pobl i gynllunio ar gyfer eu hiechyd a chyllid er mwyn cael eu gofalu amdanynt pe byddant yn colli galluedd yn y dyfodol. Rydym hefyd yn diogelu buddiannau pobl sydd heb y galluedd i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain

Rydym yn gyfrifol am:

- gofrestru atwrneiaethau arhosol (LPA) ac atwrneiaethau parhaus (EPA)
- oruchwylio a chefnogi dirprwyon sydd wedi eu penodi gan y Llys Gwarchod (CoP)
- gynnal y cofrestri cyhoeddus o ddirprwyon, LPAs ac EPAs ac ymateb i geisiadau i chwilio'r cofrestri
- archwilio cwynion neu gyhuddiadau o gamdriniaeth a wneir yn erbyn dirprwyon neu dwrneiod sy'n gweithredu o dan bwerau cofrestredig

## Ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid

Rydym yn gwasanaethau sawl gwahanol fath o gwsmeriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys:

- rhoddwyr – pobl sydd wedi gwneud LPA neu EPA i amddiffyn eu llesiant neu gyllid pe byddant yn colli galluedd yn y dyfodol
- twrneiod – pobl sydd wedi cael eu penodi gan roddwyr i reoli eu llesiant neu gyllid pe byddant yn colli eu galluedd yn y dyfodol
- cleientiaid (cyfeirir atynt fel 'P') – pobl sydd wedi colli eu galluedd ac sydd â materion llesiant neu gyllid sy'n destun gweithrediadau cyfreithiol gerbron y CoP
- dirprwyon – unigolion lleyg neu broffesiynol neu awdurdodau (megis cyfreithwyr neu awdurdodau lleol) sydd wedi cael eu penodi gan y llys i reoli llesiant neu gyllid cleient
- rhanddeiliaid eraill – perthynas i gleient neu roddwr, awdurdod lleol, meddygon teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill, elusennau, a'r sector cyfreithiol.

## Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ)

Mae'r OPG yn asiantaeth weithredol i'r MoJ

Gweinidogion y llywodraeth sy'n gyfrifol am yr OPG yn ystod y cyfnod adrodd hwn yw:

- Y Gwir Anrhydeddus Elizabeth Truss AS, Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
- Dr Phillip Lee AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddioddefwyr, Ieuenctid a Chyfiawnder Teuluol.

Fel asiantaeth weithredol i'r MoJ, ynghyd â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (HMCTS), Gwasanaeth Carchardai a Phrofiannaeth Ei Mawrhydi (y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) yn flaenorol) a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), mae ein hamcanion yn cyd-fynd â chynllun un adran yr MoJ. Rydym yn gweithredu i sicrhau'r gwasanaeth gorau posib i ddinasyddion trwy weithio i wneud ein gwasanaethau'n fwy agored, trwy bolisïau wedi'u gyrru gan dystiolaeth.

## Materion, risgiau ac ansicrwydd allweddol

Y risgiau allweddol a nodwyd ac a reolwyr yn ystod y flwyddyn oedd presenoldeb staff, twf y gweithlu a dargadw staff, cyflawni buddion a thrawsnewidiad digidol a strwythur ffioedd y dyfodol.

Roedd y risgiau a nodwyd sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â dibynadwyedd rhagweld galw, creu incwm yn y dyfodol, rheoleiddio diogelu data a meddu ar eglurder o ran llywodraethu yn dilyn cyflwyno model arweinyddiaeth swyddogaethol.

Ymhlith y materion a daethpwyd ar eu traws y cyfnod hwn roedd symud ein systemau cyllid ac AD i unig blatfform gweithredu'r MoJ (SOP), mudo hen ddata, cyflawni targedau cyflwyno LPA, methu â chyflawni lefelau staffio wedi'u proffilio a mynd dros ein hamcan adennill costau.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar dudalennau 45-47 yn y datganiad llywodraethu.

Ar 31 Mawrth 2017, roeddem yn goruchwylio **57,702 gorchymyn dirprwyaeth**, sef **cynnydd o 1.02%** ers diwedd 2015/16.

Nifer y ceisiadau i gofrestru LPA ac EPA a dderbyniwyd yn **2016/17** oedd

**648,318**

Mae hyn yn gynnydd o **19%** ers y flwyddyn flaenorol.

Fe orffennom y flwyddyn gyda

**2,478,758**

cyfryngau cyfredol ar y gofrestr

## Yn erbyn y cefndir hwn, fe gyflawnom y perfformiad canlynol (fel y manylir yn y dadansoddiad o berfformiad):

y nod yw 40 diwrnod
Yr amser ar gyfartaledd i glirio pwerau atwrneiaeth
**38 diwrnod**

y nod yw 5 diwrnod
Yr amser ar gyfartaledd i chwilio cofrestr
**3.5 diwrnod**

y nod yw 85%
Cyswllt cyntaf â'r dirprwy
**88%**

y nod yw 40 diwrnod
Yr amser ar gyfartaledd i gael adroddiad blynyddol
**38 diwrnod**

y nod yw 15 diwrnod
Yr amser ar gyfartaledd i adolygu adroddiad blynyddo
**12 diwrnod**

y nod yw 95%
Canran yr asesiadau risg mewn 2 ddiwrnod
**95%**

y nod yw 852 achos
Adolygiadau o awdurdodau proffesiynol a chyhoeddus
**888 achos**

y nod yw 70 diwrnod
Yr amser ar gyfartaledd i gwblhau ymchwiliadau
**68 diwrnod**

# Dadansoddiad perfformiad

## Blaenoriaethau ac amcanion busnes 2016/17

### Ffurflenni a cheisiadau pŵer atwrnai

Yn 2016/17, roedd cynnydd o 19% yng ngheisiadau LPA, gyda 648,318 o bwerau atwrnai (PoA) newydd yn cael eu prosesu. Am y tro cyntaf, rydym wedi defnyddio model rhagweld galw newydd, a ddatblygwyd ar y cyd â dadansoddwyr yr MoJ, sydd wedi bod o gymorth mawr wrth ragweld y cynnydd tebygol mewn llwyth gwaith ac mae wedi ein galluogi i gynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar dystiolaeth.

| Ceisiadau pŵer atwrnai | 2016/17 | 2015/16 | Cynnydd (gostyngiad) |
|---|---|---|---|
| EPAs | 12,778 | 13,792 | (1,014) |
| LPAs | 635,540 | 533,229 | 102,311 |
| **Cyfanswm y PoA** | **648,318** | **547,021** | **101,297** |

Am yr ail flwyddyn yn olynol rydym wedi bodloni ein targed gwasanaeth cwsmeriaid o ddechrau'r broses i'w diwedd o amser clirio gwirioneddol ar gyfartaledd (AACT) o lai nau 40 diwrnod. Roedd AACT terfynol y flwyddyn gyfan o fewn y targed o 38 diwrnod. Mae'r cyrhaeddiad hwn yn arbennig o glodwiw gan i ni gychwyn y flwyddyn yn dal i wynebu'r heriau o'r flwyddyn busnes flaenorol, sef heriau yr oeddem wedi'u datrys erbyn canol y flwyddyn. Fe roddom gynllun adferiad manwl ar waith a buddsoddi'n helaeth mewn goramser i gyflawni carreg filltir a osodwyd a sicrhau bod ein cwsmeriaid yn derbyn eu hofferynnau cofrestredig yn brydlon.

Rydym wedi ymgymryd â gwaith gwella parhaus ar draws ein proses cofrestru a rhagor o ddatblygiad digidol o'n system rheoli achosion, a fydd yn cynorthwyo gyda rheoli'r cynnydd pellach yn y llwyth gwaith a ragwelir yn 2017/18.

Ar hyn o bryd, mae mwyafrif ein ffioedd ar gyfer PoAs yn cael eu talu ar ffurf siec, sy'n gofyn am adnoddau staff sylweddol. Mae'r sefyllfa hwn wedi gwella'n fawr gan y defnydd cynyddol o'n hofferyn LPA ddigidol (cynnydd o 27% eleni), sy'n caniatáu i gwsmeriaid gwblhau eu ffurflen gais am LPA ar-lein a thalu amdano hefyd.

Yn 2017/18, byddwn yn edrych ar ddulliau talu eraill er mwyn gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid ac effeithiolrwydd o ran cost yn yr ardal hon.

| Dangosydd effaith: pwerau atwrnai | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaid cofrestru EPA pan mae'r rhoddwr yn colli galluedd. Mae LPA, er ei fod yn debyg mewn egwyddor, yn gofyn bod gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus rôl fwy gweithredol yn y broses hysbysu. Mae cyfnod aros statudol o 20 diwrnod wrth gofrestru LPA, unwaith i OPG anfon hysbysiad i'r parti neu bartïon nad oedd wedi gwneud y cais. | | | |
| **Diben** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell y data** | **Cyflawnwyd hyd at 31 Mawrth 2017** |
| Mae'r dangosydd hwn yn cyfrifo nifer y diwrnodau gwaith a gymerir ar gyfartaledd i gofrestru ac anfon pob PoA mewn cyfnod adrodd penodol.<br><br>Dyma'r amser a gymerir rhwng dyddiad y cais a'r dyddiad anfon. | O'r holl PoAs, gyda dyddiad anfon o fewn cyfnod adrodd, mae nifer y diwrnodau gwaith (ag eithrio gwyliau banc a phenwythnosau) rhwng y 'dyddiad anfon' a'r 'dyddiad anfon' yn cael eu symio ac yna'n cael eu rhannu rhwng nifer y ceisiadau er mwyn cael y cyfartaledd.<br><br>Y 'dyddiad derbyn' yw'r dyddiad y derbynnir y cais ynghyd â'r talied gan OPG neu, fel arall, dyddiad penderfyniad o ddilead llwyddiannus neu gais am eithriad. Dyma pryd mae OPG yn cychwyn prosesu'r cais.<br><br>Y 'dyddiad anfon' yw'r dyddiad pan anfonir y PoA cofrestredig fel rhan olaf y broses ymgeisio, sydd yna'n dangos y cais fel un sydd wedi'i gofrestru ar ein systemau rheoli achosion mewnol. | Systemau rheoli achosion mewnol OPG. | AACT o 38 diwrnod gwaith yn erbyn targed o 40 diwrnod gwaith. |

## Y gofrestr

Eleni, fe dderbyniom 42,730 cais i chwilio ein cofrestr o PoAs a dirprwyon, sef cynnydd o 41% o'r flwyddyn flaenorol.

| Dangosydd effaith: chwiliadau yn y gofrestr | | | |
|---|---|---|---|
| Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i glirio chwiliadau haen 1 yn y gofrestr yw o fewn 5 diwrnod gwaith | | | |
| **Diben** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell y data** | **Cyflawnwyd hyd at 31 Mawrth 2017** |
| Mae dyletswydd statudol ar OPG i gadw cofrestr o bob PoA a dirprwyaeth.<br><br>Mae'r dangosydd hwn yn mesur amcan gwasanaeth yr OPG i ddarparu ymateb cywir i chwiliadau o fewn targed o 5 diwrnod. | Nifer y diwrnodau gwaith a gymerir i gynnal ceisiadau chwilio a gwblhawyd o fewn y mis wedi'i rannu gan nifer y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y mis. | Tîm cefnogi gwaith achos | Amser clirio o 3.5 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. |

## Canolfan cyswllt cwsmeriaid

Derbyniodd ein canolfan cyswllt cwsmeriaid 336,902 o alwadau yn 2016/17, cynnydd o 7% ers y flwyddyn flaenorol. Ar ddechrau'r flwyddyn busnes, roedd y ganolfan gyswllt yn derbyn nifer uchel o alwadau ac roedd cynlluniau i recriwtio mwy o staff wedi cael eu hoedi oherwydd cyfyngiadau lle. Trwy symud i leoliad newydd ym mis Rhagfyr 2015, roeddem yn gallu mynd i'r afael â niferoedd staffio yn y ganolfan gyswllt o haf 2016. Fe wellodd hyn ein amserau ymateb misol, sydd wedi bod ymhell o fewn y targed o 60 eiliad ers mis Hydref 2016.

Rydym hefyd wedi cynnal adolygiad o'r ganolfan cyswllt cwsmeriaid (cyfeiriwyd at hyn yn adroddiad blynyddol y llynedd) ac wedi rhoi rhai newidiadau ar waith. Cafwyd wared â 10% o nifer ein galwadau trwy gyflwyno llwybr gwahanol i brosesu ceisiadau a becynnau cais.

Rydym hefyd wedi cynyddu ein cefnogaeth i gwsmeriaid sydd eisiau gwasanaethau digidol â chymorth i gwblhau LPA ar-lein.

| **Dangosydd gwasanaeth cwsmeriaid: canolfan cyswllt cwsmeriaid** | | | |
|---|---|---|---|
| Y targed o ran amser aros ar gyfartaledd i'r sawl sy'n ffonio canolfan cyswllt cwsmeriaid yr OPG yw 60 eiliad. | | | |
| **Diben** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell y data** | **Cyflawnwyd hyd at 31 Mawrth 2017** |
| Mae'r dangosydd hwn yn mesur cefnogaeth ac arweiniad prydlon a chywir ar gyfer pob un o wasanaethau'r OPG, a chyfeirio at wasanaethau CoP ble fo'n briodol. | Cyfanswm yr amser aros ar alwadau* wedi'i rannu gan nifer y galwadau a gyflwynwyd.<br>Mae galwadau sy'n cael eu hail-gyfeirio, oherwydd nad ydynt yn berthnasol i'n gwasanaethau, yn cael eu tynnu o'n cyfanswm er mwyn osgoi cyfri ddwywaith.<br>* nid yw amser aros yn cynnwys yr amser mae'r galwr yn gwrando ar y neges gyflwyniadol a recordiwyd ymlaen llaw. | System rheoli data teleffoni'r OPG | Yr amser aros ar gyfartaledd ar ddiwedd y flwyddyn oedd 100 eiliad. |

## Digidol

Rydym wedi parhau ar ein taith i ddod yn asiantaeth gwbl ddigidol eleni.

Yn 2016/17, fe ddechreuom raglen waith 3 blynedd i ddarparu mwy o'n gwasanaethau ar-lein. Fe ganolbwyntiom ar recriwtio timau aml-sgil yn ein swyddfeydd rhanbarthol yn Nottingham a Birmingham.

Mae'n gwasanaeth LPA ar-lein – cyflwynwyd ym mis Mai 2014 ac enghraifft lywodraethol gyntaf i basio safon gwasanaeth Digidol yn Bennaf – wedi parhau i gael ei datblygu ac wedi gwella o ganlyniad uniongyrchol i adborth defnyddwyr. Rydym wedi gwneud gwelliannau i ddyluniad a llif y gwasanaeth sydd wedi helpu gostwng gan lai na 50% nifer y LPAs digidol anghyflawn a dderbyniwyd. Mae nifer sylweddol lai o geisiadau anghyflawn yn cael eu derbyn ar ffurf digidol o'i gymharu â sianeli papur traddodiadol.

Fe newidiom ein system talu ar-lein o Worldpay i GOV.UK Pay. Rydym nawr yn prosesu pob taliad ar-lein trwy'r gwasanaeth hwn gan sicrhau bod y defnyddiwr yn cael profiad syml o'r broses gyfan. O'r sawl a ymgeisiodd i gofrestru LPA eleni, defnyddiodd dros 27% y gwasanaeth LPA ar-lein i gwblhau'u cais. Mae'r gwasanaeth wedi cynnal sgôr bodlonrwydd cyson ymhlith defnyddwyr gyda 94% o'r sawl a arolygwyd yn dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gwasanaeth.

Ym mis Mai 2015, fe gyflwynom ein system rheoli achosion LPA pwrpasol, o'r enw Sirius. Ers hynny, rydym wedi prosesu dros 860,000 o achosion newydd gyda dros 1,000 o staff yn defnyddio'r system. Eleni, rydym wedi parhau i wella'r rhaglen ar gyfer defnyddiau gweithredol, gan sicrhau ei bod yn addas i'r diben ac yn effeithiol, gan eu darparu â'r offer i gyflwyno gwasanaeth da ar gyfer ein cwsmeriaid.

Mae ein prosesau rheoli achos LPA hefyd yn dibynnu ar ein gallu i sganio ffurflenni cais a gyflwynir, wedi'u teipio a'u cwblhau â llawysgrifen, ac yn defnyddio, ble fo'n bosib, meddalwedd adnabod i drosglwyddo gwybodaeth o'r ffurflenni i Sirius. Eleni rydym wedi parhau i wella ein system sganio ac wedi cynyddu cywirdeb tra'n gostwng nifer y staff sy'n ofynnol i gadw i fyny gyda'r galw.

Yng nghwarter olaf y flwyddyn ariannol, fe gyflwynom gyfnod newydd o ddatblygiad nodweddion Sirius ar gyfer rheoli achosion dirprwyo ac i integreiddio'r system gyda chynnyrch i ddefnyddwyr. Mae Sirius yn parhau i fod system rheoli achosion cyntaf y llywodraeth a ddatblygwyd gan ddefnyddio egwyddorion Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth. Mae'n god agored gyda chod agored safonol, wedi'i letya ar y cwmwl ac yn cael ei chynnal gan dimau digidol MoJ o fewn OPG. Yn sgil penderfyniad mwy o adrannau'r llywodraeth i symud tuag at ddatrysiadau 'adeiladu nid prynu', mae OPG yn parhau i fod yn fodel ar gyfer y math hwn o waith y tu ôl i'r llenni ac mae'n hwyluso'r ail-ddefnydd ar y cyd o god ac arfer gorau ar draws y llywodraeth.

Mae mwy ar gyflawniadau digidol o dan 'Amddiffyn y sawl agored i niwed' ar dudalen 15.

**Dangosydd effaith: Arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid digidol yr OPG**

Y targed o ran canran y cwsmeriaid sy'n 'fodlon iawn' neu'n 'weddol fodlon' gyda gwasanaethau digidol yr OPG yw 80%.

| Diben | Dull cyfrifo | Ffynhonnell y data | Cyflawnwyd hyd at 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| Mae'r dangosydd effaith hwn yn helpu sicrhau ein bod yn datblygu ein gwasanaethau digidol i fodloni anghenion ein cwsmeriaid. | Nifer y cwsmeriaid sy'n 'fodlon iawn' neu'n 'weddol fodlon' gyda gwasanaethau digidol wedi'i rannu gan nifer yr ymatebion i'r arolwg a dderbyniwyd gydag ateb i'r cwestiwn hwn. | Arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid ag offeryn digidol LPA. | Sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid yn yr arolwg ar ddiwedd y flwyddyn oedd 94%. |

## Rheoli newid

Trwy ganolbwyntio ar ein defnyddwyr, rydym wedi adnabod a gwneud gwelliannau i brosesau a phrofiad cwsmeriaid trwy ymagwedd o wellhad parhaus. Yn ystod y flwyddyn, bu i ni gwblhau adolygiad helaeth o'n adran gweithrediadau.

Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar effaith newid digidol ac yn edrych ar 75 proses, dysgu a datblygu, pobl ac ymrwymiad a pherfformiad a gwybodaeth reoli. Fe gynhaliodd y tîm rheoli newid weithrediadau i gyflawni argymhellion o'r adolygiad, er mwyn cyflawni mwy o effeithiolrwydd yn erbyn yr her o lwyth gwaith cynyddol.

Rydym wedi cryfhau'r rhwydweithiau sydd gennym ledled y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan gwblhau cyfres o ymweliadau er mwyn gweld arfer gorau yn ymarferol, gan sicrhau bod gan bob tîm o'r OPG y cyfle i fynychu. Mae hyn wedi cynnwys ymweld â sefydliadau sy'n arwain y farchnad ar gyfer rheoli newid, ymrwymo staff, arbenigedd gweithredol a thrawsnewidiad busnes digidol. Rydym yn defnyddio hyn i adnabod cyfleoedd i wella gwasanaethau a rheolaeth ar draws OPG.

Rydym wedi moderneiddio ein hymagwedd at gyflwyno prosiectau, gan weithio'n benodol ar ddefnyddio dulliau prosiect ystwyth i gyflwyno newidiadau digidol a rhai nad sy'n ymwneud â meddalwedd ar draws ein portffolio. Mae hyn wedi ein helpu i gyfuno arddulliau cyflwyno ar draws ein prosiectau gan ddefnyddio technegau ystwyth a thraddodiadol i gael y canlyniad gorau. Mae'r ymagwedd hon wedi galluogi arweinwyr prosiect i gyflwyno gwerth yn gynt, a rhoi adborth cwsmeriaid wrth wraidd pob gweithgaredd o newid.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y tîm rheoli perthynas â chwsmeriaid i helpu ffocysu gweithgareddau newid yn seiliedig ar fewnwelediad cwsmeriaid ac ymchwil. Byddwn felly mewn sefyllfa i ddefnyddio mewnwelediad i flaenoriaethu newidiadau i gyflwyno mwy o werth i gwsmeriaid.

Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi datblygu ein fframwaith rheoli portffolio. Bellach mae gennym olygwedd sefydliadol o weithgareddau newid, gan sicrhau cyfraniad gwerthfawr at strategaeth ehangach yr OPG a chyflwyno buddion pellach ar gyfer defnyddwyr ein gwasanaethau.

## Rheoli perthynas â chwsmeriaid

Ym mis Rhagfyr 2016, fe gynhaliom cynhadledd 'Cynllunio at y dyfodol – bodloni anghenion ein poblogaeth sy'n heneiddio'. Yn ystod y digwyddiad fe gipiwyd barn rhanddeiliaid newydd a chyfredol ar sut gall OPG wella ei wasanaethau a chodi ymwybyddiaeth o LPAs i ddemograffig fwy a mwy amrywiol. Roedd y safbwyntiau hyn yn ategu digwyddiad ymrwymo a gynhaliwyd trwy gydol y flwyddyn a byddant yn hysbysu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn y dyfodol yn 2017/18.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Farwnes Finlay yn ei rôl fel cadeirydd y Fforwm Cenedlaethol ar Alluedd Meddyliol er mwyn gwella gweithrediad yr MCA. Rydym yn falch o fod wedi cael cefnogaeth y Farwnes Finlay gydag amrediad o ddigwyddiadau ymrwymo, yn benodol y bwrdd crwn ar amddiffyn yng Nghymru. Fe arweiniodd y digwyddiad hwn at nifer o gyfarfodydd dwyochrog i godi proffil LPAs a darpariaeth amddiffyn arall yr OPG.

Mae amrediad eang o ymchwil a dadansoddiad data wedi cael ei gynnal dros y flwyddyn i gael gwell dealltwriaeth o fodlonrwydd ac anghenion cwsmeriaid. Er enghraifft, fe gynhaliom ymchwil am y tro cyntaf gyda defnyddwyr o amddiffyn ac ymchwiliadau ac mae'r adborth a dderbyniwyd wedi hysbysu a gwella profiadau cleientiaid, y sawl sy'n mynegi pryderon, twrneiod a dirprwyon. Mae ein harolygon bodlonrwydd cwsmeriaid bellach yn cael eu cwblhau gyfan gwbl ar-lein, gan ei wneud yn haws ac yn gynt i gwsmeriaid ddarparu ymateb tra'n lleihau costau a gorbenion i OPG.

Rydym yn parhau i weld llwyddiant o ymrwymo gyda'r sector cyllid ac rydym hefyd wedi dechrau dyblygu'r ymagwedd hon gyda mudiadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae perthnasau strategol wedi cael eu hadeiladu i archwilio ymwybyddiaeth o'r MCA a LPAs ymhlith staff rheng flaen yn y sectorau hyn, gyda'r nod o gyflwyno gwasanaeth diogel ac o ansawdd i bob un o'n cwsmeriaid wrth wneud penderfyniadau iechyd a llesiant.

Rydym wedi parhau i wella ansawdd yr hyfforddiant ac arweiniad a ddarperir gan randdeiliaid, er mwyn sicrhau bod gan eu gweithwyr proffesiynol rheng flaen a'n cwsmeriaid yr wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a ddarparwn. Ymhlith y llwyddiannau mae datblygu arweiniad yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn partneriaeth â DOSH (sefydliad eiriolaeth ariannol yn cefnogi pobl gydag anabledd) i egluro'r gwahaniaethau rhwng gorchmynion dirprwyaeth a phenodeiaeth, a fideo hyfforddiant a gynhyrchwyd gan y Coleg Heddlua i addysgu recriwtiaid heddlu ar rôl amddiffyn y Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Mae'r tîm rheoli perthynas â chwsmeriaid yn rhoi mewnwelediad cwsmeriaid wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud, gan sicrhau bod OPG yn dod yn adran sy'n cael ei yrru fwy gan ddata er mwyn rhagwela galw yn y dyfodol, gan ddefnyddio ein model rhagweld galw newydd, yn ogystal ag ennill gwell dealltwriaeth o anghenion ein rhanddeiliaid.

| Dangosydd gwasanaeth cwsmeriaid: Arolwg bodlonrwydd cwsmer OPG | | | |
|---|---|---|---|
| Y targed o ran canran y cwsmeriaid sy'n 'fodlon iawn' neu'n 'weddol fodlon' gyda gwasanaethau'r OPG yw 80% | | | |
| **Diben** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell y data** | **Cyflawnwyd hyd at 31 Mawrth 2017** |
| Mae'r dangosydd hwn yn ein helpu i ddeall anghenion ein cwsmeriaid. Mae hefyd yn ein helpu i adnabod tueddiadau er mwyn i allu gwella ein gwasanaethau'n barhaus. | Y nifer sy'n ymateb 'bodlon iawn' neu 'gweddol bodlon' wedi'i rannu gan nifer yr ymatebion i'r arolwg. | Arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid LPA a dirprwyaeth. | Ar ddiwedd y flwyddyn, y sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid oedd 80%.<br>Mewn i ymateb i'r brif ardal o bryder, mae OPG yn rhoi cynllun ar waith i ddyrannu rheolwr achos dynodedig i bob dirprwy lleyg er mwyn darparu cymorth o ddechrau'r broses i'w diwedd. |

# Amddiffyn y sawl sy'n agored i niwed

## Goruchwylio dirprwyon

Pan mae rhywun yn colli galluedd meddyliol a'u bod heb benodi atwrnai, bydd y CoP yn penodi dirprwy i wneud penderfyniadau ar eu rhan. Caiff y dirprwyon hyn eu goruchwylio gan OPG.

Mae nifer y gorchmynion dirprwyedig rydym yn eu goruchwylio wedi cynyddu 1% o 57,122 ym mis Mawrth 2016 i 57,702 ym mis Mawrth 2017. Mae'r cynnydd yn is nag yr oeddem wedi'i ragweld ac mewn cyferbyniad â chynnydd o 8% yn 2015/16.

## Ein perfformiad

Roeddem yn bwriadu gorffen ein proses cyswllt cyntaf, sy'n cynnwys galwad cychwynnol ac ymsefydlu gyda dirprwyon lleyg a phroffesiynol newydd o fewn 35 diwrnod. Mae'r broses hon yn sicrhau bod dirprwyon newydd yn cael eu cefnogi ar gyfnod cynnar yn eu penodiad. Ym mis Mawrth 2017, fe ragorom ar ein targed cyswllt cyntaf o 85%, gan gyflawni 88%, a byddwn yn rheoli'r perfformiad hwnnw er mwyn ei gynnal. Rydym yn rhoi cynnig ar ddull digidol newydd i gasglu data am asedau'r person y mae'r dirprwy yn ei gefnogi, a gallai hyn gynnig agwedd 'ddigidol â chymorth', er mwyn helpu cwsmeriaid i ecsbloetio'r manteision o ddefnyddio sianeli ar-lein.

Ers mis Mawrth 2016, mae'r gwasanaeth 'cwblhau adroddiad y dirprwy' wedi bod ar gael ar GOV.UK Mae dirprwyon lleyg gyda gorchmynion dirprwyo eiddo a chyllid wedi bod yn gallu defnyddio'r gwasanaeth ar-lein yma i gyflwyno eu hadroddiad blynyddol i OPG. Mae dros 3,800 o ddirprwyon bellach wedi cofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn ac mae dros 1,700 o adroddiadau wedi cael eu cyflwyno ar-lein. Rydym wedi gwneud gwelliannau i ddyluniad y gwasanaeth a gafodd ei ddefnyddio i ddatblygu adroddiad y dirprwyon. Rydym yn treialu'r ddwy system ar hyn o bryd gyda nifer fechan o ddirprwyon newydd eu penodi. Rydym hefyd yn defnyddio gwelliannau dylunio i ddatblygu adroddiad y dirprwyon iechyd a llesiant.

Ym mis Mai 2016, fe ddechreuom ymchwilio i'r gofynion ac anghenion ar gyfer gwasanaeth digidol er mwyn i ddirprwyon awdurdod cyhoeddus gyflwyno eu hadroddiadau i ddirprwyon, gan gynnwys llwytho dogfennau. Defnyddiwyd y canfyddiadau hyn i hysbysu dyluniad a datblygiad y gwasanaeth digidol. Mae disgwyl cwblhau'r fersiwn cyntaf erbyn mis Mehefin 2017. Mae nifer o awdurdodau cyhoeddus wedi mynegi diddordeb mewn dod yn fabwysiadwyr cynnar o'r gwasanaeth a byddwn yn gweithio gyda nhw i'w cael ar-lein mor gyflym â phosib.

Rydym wedi parhau i wella sut rydym yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth gymesur i ddirprwyon, gan adeiladu ar y gofyniad bod achosion gyda lefel isel o oruchwyliaeth yn cwblhau adroddiad dirprwy bob blwyddyn.

O ganlyniad i ddirprwyon gyda goruchwyliaeth isel yn adrodd am y tro cyntaf, rydym wedi derbyn 12,725 adroddiad ychwanegol y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 62% ers y llynedd.

Ein nod yw derbyn adroddiadau blynyddol o bob un o'n dirprwyon o fewn 40 o ben-blwydd eu gorchymyn llys, gan adolygu'r adroddiadau o fewn 15 diwrnod gwaith.

Er gwaethaf y cynnydd mewn llwyth gwaith, fe ragorom ar ein dangosydd perfformiad o ran derbyn ac adolygu adroddiadau dirprwyon. Ar gyfartaledd, fe gymerom 38 diwrnod i dderbyn adroddiadau dirprwyon a 12 diwrnod i'w hadolygu. Trwy gyflawni ein targed, roedd gwelliant mewn gwasanaeth i gwsmeriaid ac, yn ei dro, yn yr amddiffyniad i'r person â'r diffyg galluedd.

Rydym wedi gwneud cynnydd yn erbyn ein targed i ymweld â 35% o'r holl ddirprwyon proffesiynol ac awdurdodau lleol ac rydym bellach yn y flwyddyn derfynol o gylch 3 blynedd. Rydym hefyd wedi uchafu ar ein rhaglen i adolygu 852 o achosion erbyn mis Mawrth 2017 – fe adolygom 888 achos gan sicrhau ymlyniad â safonau proffesiynol, yn ychwanegol at ofynion yr MCA. Ym mis Rhagfyr 2016, fe adolygom sut rydym yn monitro dirprwyon proffesiynol ac o ganlyniad rydym yn parhau i fod yn hyderus bod y mecanweithiau sydd gennym yn eu lle yn rhoi sicrwydd rhesymol i ni bod y dirprwyon hyn yn amddiffyn eu cleientiaid agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys y dirprwyon proffesiynol hynny sydd ag un cleient – rydym yn teilwra ein craffu i ymdrin â'r risgiau gwahanol yn yr achosion hynny.

## Rheoli achosion o ddechrau’r broses i’w diwedd

Yn ystod 2016/17 rydym wedi parhau i weithio tuag at roi ymagwedd 'o ddechrau’r broses i’w diwedd' ar waith wrth reoli achosion. Y nod yw sicrhau bod staff yn rheoli'r holl achosion yn yr achosion a dyrennir iddynt. Maen nhw'n arbenigo mewn math penodol o ddirprwy (er enghraifft, lleyg, proffesiynol, iechyd a llesiant, panel) er mwyn iddynt allu deall y gwahanol heriau mae pob grŵp yn eu hwynebu. Maen nhw'n adeiladu perthynas gyda'r dirprwy a ddyrenir iddynt, yn asesu risg wrth i amgylchiadau newid, yn penderfynu ar y camau gweithredu angenrheidiol er mwyn cynnal amddiffyniad y person â'r diffyg galluedd meddylion, ac yn 'berchen ar' yr achos, wedi'u cefnogi gan yr amrediad o adnoddau sydd ar gael i OPG.

Mae hyn yn her sylweddol. Tra bod mwyafrif yr achosion wedi buddio o'r ymagwedd o ddechrau’r broses i’w diwedd hon, mae wedi bod yn anodd cyflawni 100% ar draws y llwyth achos cyfan. Mae gan 100% o ddirprwyon awdurdodau cyhoeddus reolwyr achos dynodedig, yn yr un modd â dirprwyon proffesiynol; roedd y ffigwr ar gyfer dirprwyon lleyg erbyn diwedd 2016/17 tua 80%.

Ym mis Mehefin 2016, fe ailstrwythurom y timau sy'n rheoli goruchwyliaeth llwyth achosion lleyg er mwyn cefnogi'r ymagwedd deilwredig gan y rheolwyr achos sy'n darparu'r cefnogaeth gorau posib i gwsmeriaid ac, yn ei dro, i'r sawl maen nhw'n eu cefnogi. Fe welsom gynnydd cyson yn nifer yr achosion dirprwyon lleyg a oedd yn cael eu cyflawni gan ddefnyddio ymagwedd o ddechrau’r broses i’w diwedd ac ar ddiwedd y flwyddyn, y lefel oedd 80%.

Ymhlith y gwelliannau eraill roedd offerynnau awtomatig i gynorthwyo gydag adnabod a blaenoriaethu llwythi gwaith, gan sicrhau bod staff yn mynd i'r afael â risgiau i gwsmeriad yn y drefn gywir.

Mae'r ymagwedd o ddechrau’r broses i’w diwedd yn parhau fel ymrwymiad, gan fod y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn glir bod yr ymagwedd, ynghyd â'r diwylliant a'r ffordd o feddwl y mae'n cyfrannu at, yn hanfodol i amddiffyn y person â diffyg galluedd meddyliol.

Cafodd pob dirprwy panel gyswllt â'u rheolwr achos dynodedig yn ystod y flwyddyn.

## Adrodd digidol

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi bod yn annog dirprwyon lleyg i ddefnyddio ein gwasanaeth adrodd digidol oherwydd mae'n cynnig buddion iddynt o ran pan mor hawdd ydyw i gysylltu â ni, a pha mor gyflym y gallwn ymateb i hwy, gyda'r ddau beth yma'n darparu mwy o amddiffyniad i'r person â diffyg galluedd meddyliol.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd 25% o ddirprwyon newydd o 17% o ddirprwyon cyfredol wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn. Gyda 103 o gofrestriadau ar gyfartaledd bob wythnos erbyn diwedd mis Mawrth 2017, rhagwelwn y bydd y canrannau hyn yn cynyddu'n sylweddol yn y tymor byr oherwydd bydd nifer o ddirprwyon yn adrodd am y tro cyntaf ers i'r gwasanaeth digidol fod ar gael yn eang. Mae dirprwyon cyfredol yn cynrychioli dros tri chwarter o'r holl gofrestriadau.

I wella cofrestriadau gan ddirprwyon newydd, rydym wedi teilwra'r galwadau 'ymsefydlu' i'w hannog i gofrestru'n gynnar ac ymgyfarwyddo â'r gwasanaeth digidol. Rhoddwyd yr ymagwedd hon ar waith ym mis Ionawr 2017, ac ers hynny mae nifer y dirprwyon sy'n cofrestru ar gyfartaledd wedi cynyddu o 15% i 25%.

## Bodlonrwydd cwsmeriaid

Rydym wedi bod yn gweithio ar sut rydym yn cipio adborth cwsmeriaid gan ddefnyddio ein harolygon dirprwyo. Ymdrechwn i wella lefelau gwasanaeth i gwsmeriaid a sicrhau bod unrhyw newid a wneir yn ychwanegu gwerth i'n dirprwyon.

Rydym wedi gweithio gyda'r tîm rheoli perthynas â chwsmeriaid i adolygu'r cwestiynau rydym yn eu gofyn i ddirprwyon a'u hamrediad o ymatebion, er mwyn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r hyn mae ein dirprwyon ei eisiau.

Ein nod yw cyflawni lefel bodlonrwydd cwsmeriaid cyffredinol o 80% ac roedd ein canlyniadau ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn fel a ganlyn:

- dirprwyon lleyg – 74%
- dirprwyon proffesiynol – 78.5%
- dirprwyon awdurdodau lleol – 87.5%

Yn ystod y flwyddyn busnes nesaf, ein nod yw cael gwell dealltwriaeth pam fod rhaid dirprwyon yn anfodlon gyda'n gwasanaeth a hefyd pam fod nifer o ddirprwyon ddim yn fodlon nac yn anfodlon. Byddwn yn defnyddio ein harolygon i adnabod a dadansoddi adborth o amrywiaeth o ffynonellau i wella bodlonrwydd cwsmeriaid.

## Bondiau

Pan mae'r Llys Gwarchod (CoP) yn penodi dirprwy i reoli materion ariannol rhywun sydd â galluedd meddylio annigonol i wneud hynny eu hunain, rhaid i'r dirprwy roi bond diogelwch yn ei le ar gyfer yr asedau sy'n cael eu rheoli. Mae hyn yn ychwanegu at amddiffyniad y person â diffyg galluedd.

Ym mis Hydref 2016, fe ddyfarnodd y CoP a'r Gwarcheidwad Cyhoeddus y contract ar gyfer y cynllun bond diogelwch i ddarparwr newydd a ffefrir, Howden Group UK Limited. Defnyddiwyd wersi a ddysgwyd o rowndiau blaenorol yn y broses gaffael gystadleuol, a gafodd ei enwebu am wobr y Gwasanaeth Sifil. Dyfarnwyd y contract i'r darparwr a oedd yn cynnig y gwerth gorau am arian i'n cwsmeriaid – amcangyfrifir bod hyn yn rhoi arbediad o 60% i'n cwsmeriaid. Mae OPG wedi gweithio'n agos gyda Howden, yn ogystal â'r darparwyr eraill, i uchafu'r gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid.

Yn ystod 2016/17, fe gynhaliodd OPG adolygiad i sicrhau bod gwerth y bond a oedd yn weithredol yn unol â gorchymyn y llys. Fe weithiodd tîm yn agos gyda chwmnïau'r bond a'r CoP, a gyda dirprwyon yn ôl yr angen. Canfuwyd 1,447 achos a oedd angen sylw, gyda 1,227 ohonynt yn derbyn y sylw hwnnw yn ystod y flwyddyn. Mae'r data mewn 6,000 achos pellach wedi cael ei diweddaru.

Rydym yn rhoi mesurau ataliol yn eu lle i leihau camgymeriadau rhag ail-ddigwydd a byddwn yn darparu hyfforddiant ychwanegol i staff i sicrhau eu bod yn gallu adnabod camgymeriad a'i gywiro yn brydlon.

**Dangosydd effaith: goruchwylio dirprwyon**

a) Yr amser targed i gwblhau cefnogaeth cyswllt cyntaf o fewn 35 diwrnod yw 85%

b) Yr amser targed i gael gafael ar adroddiadau blynyddol yw o fewn 40 diwrnod gwaith

c) Yr amser targed i adolygu adroddiadau blynyddol yw o fewn 15 diwrnod gwaith

d) Y targed yw adolygu 35% (852) o ddirprwyon proffesiynol ac awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r safonau

| Diben | Dull cyfrifo | Ffynhonnell y data | Cyflawnwyd hyd at 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| Mae'r dangosyddion hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth gymesur a phriodol i bob dirprwy. | a) Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd rhwng y dyddiad yr hysbysir y dirprwy yn ysgrifenedig o'u lefel goruchwylio a'r dyddiad y daw'r cyswllt personol i ben. Rydym yn cofnodi:<br>• y dyddiad y cwblheir y galwadau cychwynnol ac ymsefydlu<br>• y dyddiad y derbynnir yr holiadur wedi'i gwblhau<br>• dyddiad ymweliad llwyddiannus<br>• y dyddiad rydym yn penderfynu ailgyfeirio achos ar gyfer camau gweithredu y gallai gynnwys rhyddhau dirprwy am beidio â chydymffurfio.<br>b) Y nifer cyfartalog o ddiwrnodau gwaith rhwng 'dyddiad dyledus' yr adroddiad (40 diwrnod ar ôl pen-blwydd y gorchymyn llys) a'r dyddiad y dderbyniwyd yr adroddiad yn OPG.<br>c) Y nifer cyfartalog o ddiwrnodau gwaith rhwng y dyddiad y derbynnir yr adroddiad blynyddol a'r dyddiad o'i adolygu.<br>d) Caiff hwn ei fesur trwy gofnodi nifer yr ymweliadau sicrwydd neu adolygiad desg a allai gynnwys adolygiad ffôn, adolygiad llawn o'r adroddiadau ariannol neu adolygiad o'r achos. | Systemau rheoli achosion mewnol OPG. | a) Cysylltwyd ag 88% o ddirprwyon o fewn 35 diwrnod gwaith.<br>b) Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gael gafael ar adroddiadau blynyddol oedd 38 diwrnod.<br>c) Adolygwyd pob adroddiad blynyddol o fewn 12 diwrnod.<br>d) Adolygwyd 888 dirprwyaeth, sef 4% yn fwy na'r 852 a gynllunniwyd. |

## Ymchwiliadau ac amddiffyn

Daeth atgyfeiriadau amddiffyn o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- perthnasau
- awdurdodau lleol
- cartrefi gofal
- sefydliadau ariannol
- gweithwyr cyfreithiol proffesiynol
- aelodau o'r cyhoedd
- timau goruchwylio gwaith achos ar gyfer ymchwiliadau i ddirprwyon.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'n partneriaid allanol – gan gynnwys y CoP, awdurdodau lleol, yr Adran Gwaith a Phensiynau, darparwyd bondiau diogelwch a'r heddlu.

Fe dderbyniom 5,327 atgyfeiriad amddiffyn yn ystod 2016/17, gostyngiad o 15% o'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn rhannol oherwydd newid yn y dull o gyfri. Pryderon sydd wedi cael eu pasio at ein tîm ymchwiliadau, neu'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio, yw'r unig rai sy'n cael eu cyfrif bellach. Eleni fe archwiliom 1,266 achos, cynnydd o 45% ers y flwyddyn flaenorol, gyda 272 ohonynt yn arwain at gais i'r CoP. Fe gwblhawyd pob un o'n hymchwiliadau o fewn 68 diwrnod ar gyfartaledd, gan guro'r targed o 70 diwrnod. Ble nad oedd yn addas i ni ymchwiliad achosion, roeddem yn gallu cynnig cyngor neu cyfeirio atgyfeiriadau at yr asiantaeth gywir, megis yr awdurdod lleol neu'r heddlu.

Yng nghwarter olaf y flwyddyn ariannol, dechreuom weithio ar ein hastudiaeth amddiffyn i uchafu'r amddiffyniad rydym yn ei darparu i bobl agored i niwed, yn enwedig y sawl â diffyg galluedd meddyliol. Mae'r astudiaeth yn cynnwys edrych ar ein diwylliant mewnol a'r drefn a gweithdrefnau o ran amddiffyn.

Rydym hefyd yn adolygu sut rydym yn ymrwymo'n effeithiol gyda'n partneriaid allanol, megis gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, sefydliadau ariannol, a darparwyd iechyd a gofal, pan daw pryderon amddiffyn i'r amlwg. Y nod yw creu model amddiffyn cynaliadwy ar gyfer amddiffyn, gan roi lle amlwg i OPG yn y dirwedd.

Ym mis Mai 2016, fe archwiliwyd prosesu'r tîm archwilio gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIIA). Roedd canlyniad yr archwiliad yn hynod bositif, a chawsom ein canmol ar ein gweithdrefnau archwilio a rheoli cofnodion cadarn. Fe nodwyd hefyd ein bod yn cynnal yr holl brotocolau sicrhau risg a rheoli risg priodol.

Yn 2016/17, fe drosglwyddom y gwaith ar ymchwilio i ddirprwyon o swyddfa Birmingham i swyddfa Nottingham er mwyn canolbwyntio staff dirprwyo mewn un lle a defnyddio'r gallu hwnnw i wella gwasanaeth i gwsmeriaid. Roedd hyn yn ein caniatáu i wella perthnasau a phrosesau gyda thimau eraill megis cyfreithiol, er mwyn i'r achos symud yn gyflym ac yn effeithiol er amddiffyniad y person â diffyg galluedd.

Mae'r adroddiad mae ein harchwilwyr yn ei darparu i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi cael ei ail-ddylunio i ganolbwyntio sylw pawb ar y pryderon a godwyd ac er mwyn sicrhau bod dymuniadau ac anghenion y person yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Ar ben hynny, mae arbedion amser ymchwilio a sut mae'r canfyddiadau'n cael eu cyflwyno i'r llys, ble mae dyna'r canlyniad, yn cyfrannu at amddiffyniad amserol a chymesur y person sydd wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu sydd mewn peryg o hynny. Mae fframwaith ansawdd yr OPG yn adrodd ansawdd gyson uchel, gyda staff yn cael eu hysbysu o arferion da.

### Dangosydd effaith: Ymchwiliadau

a) Y targed yw asesu risg 95% o bryderon a godir o fewn 2 ddiwrnod gwaith

b) Y targed yw cwblhau pob ymchwiliad o fewn 70 diwrnod gwaith

ci) Y targed yw'r amser a gymerir ar gyfartaledd i roi camau gweithredu'r OPG ar waith o fewn argymhellion y Gwarcheidwad Cyhoeddus (PG), ble mae gweithrediadau llys wedi cael eu barnu i fod yn angenrheidiol o fewn 35 diwrnod gwaith.

cii) Y targed yw'r amser a gymerir ar gyfartaledd i roi camau gweithredu'r OPG ar waith o fewn argymhellion y Gwarcheidwad Cyhoeddus (PG), ble nad yw gweithrediadau llys wedi cael eu barnu i fod yn angenrheidiol o fewn 25 diwrnod gwaith.

| Diben | Dull cyfrifo | Ffynhonnell y data | Cyflawnwyd hyd at 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| Mae'r dangosyddion hyn yn canolbwyntio ar gyfrifoldeb yr OPG i amddiffyn oedolion agored i niwed.<br>a) Bydd yr OPG yn cynnal proses asesu risg i bennu:<br>• a oes gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus awdurdodaeth i archwilio pryderon ac, os na, cyfeirio'r pryder at yr asiantaeth berthnasol<br>• a yw'r person agored i niwed mewn peryg uniongyrchol o ran eu lles personol neu gyllid/eiddo a pha gamau gweithredu sydd eu hangen ar unwaith<br>• a ellir ymchwilio i'r bryder dros gyfnod hirach.<br>b) Caiff ymchwiliad ei gofnodi fel un sydd wedi dod i ben os:<br>• oes adroddiad ysgrifenedig ffurfiol wedi'i gymeradwyo gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus<br>• oes cytundeb i gymeradwyo cais llys (ble mae hyn yn dod cyn adroddiad Gwarcheidwad Cyhoeddus)<br>• yw rheolwr cydymffurfio yn cytuno i gwblhau ymchwiliad gan fod adroddiad i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cael ei farnu'n ddi-angen<br>• yw'r cleient yn marw (ble mae'r rheolwr cydymffurfio yn barnu bod gwaith digonol wedi cael ei wneud ar yr achos i haeddu'r dosbarthiad).<br>c) Caiff argymhelliad ei gofnodi fel un sydd wedi dod i ben os:<br>i) oes cais yn cael ei wneud i'r CoP, ble roedd hyn o ganlyniad o argymhelliad a gymeradwywyd gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus<br>ii) caiff achos ei gofnodi fel un sydd wedi dod i ben os:<br>• nad yw gweithrediadau llys yn cael eu barnu'n angenrheidiol<br>• yw'r ymchwilydd yn rhannu canlyniad yr ymchwiliad ac unrhyw ofynion pellach i'r twrnai/dirprwy. Ni fydd yn cynnwys unrhyw fonitro dilynol o'r achos.<br>• yw'r dirprwy yn gwneud cais i'r CoP. | a) Mae'r ddau ddiwrnod gwaith yn cychwyn o'r dyddiad y derbynnir y pryder gan OPG. Diwrnod 1 yw'r diwrnod gwaith nesaf ar ôl derbyn y pryder.<br>b) Mae'r cyfnod o 70 diwrnod gwaith yn cychwyn y diwrnod y derbynnir y pryder yn arwain at ymchwiliad gan OPG. Diwrnod 1 yw'r diwrnod nesaf ar ôl derbyn y pryder.<br>ci) Mae'r cyfnod o 35 diwrnod gwaith yn cychwyn y dyddiad y cymeradwyir yr adroddiad gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Diwrnod 1 yw'r diwrnod nesaf ar ôl cymeradwyo'r adroddiad.<br>cii) Mae'r cyfnod o 25 diwrnod gwaith yn cychwyn y dyddiad y cymeradwyir yr adroddiad gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Diwrnod 1 yw'r diwrnod nesaf ar ôl cymeradwyo'r adroddiad. | Mae pob cwyn a phryder yn cael eu hasesu ac mae awdurdodaeth y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cael ei hytyried.<br>Mae atgyfeiriadau'n cael eu cofnodi ac yn cynnwys:<br>• y dyddiad y derbynnir y pryder gan OPG.<br>• y dyddiad y derbynnir y pryder gan y tîm ymchwiliadau<br>• y dyddiad asesu risg<br>• y cyfnod o weithio ar asesu risg (diwrnodau gwaith)<br>• y dyddiad cwblhau'r ymchwiliad<br>• canlyniad y cais i'r CoP<br>• cyfnod yr ymchwiliad (cyn yr adroddiad)<br>• cyfnod yr ymchwiliad (ar ôl yr adroddiad)<br>• y dyddiad cau i gymeradwyo argymhellion. | a) Aseswyd 95% o bryderon am risgiau o fewn 2 ddiwrnod gwaith.<br>b) Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau ymchwiliadau oedd 68 diwrnod gwaith.<br>ci) Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau pob argymhelliad ble roedd gweithrediadau llys wedi cael eu barnu'n angenrheidiol oedd 41 diwrnod gwaith.<br>cii) Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau pob argymhelliad ble nad oedd gweithrediadau llys wedi cael eu barnu'n angenrheidiol oedd 22 diwrnod gwaith. |

### Ymwelwyr a dirprwyon panel

Fe gomisiynwyd 11,307 ymweliad gan y tîm ymweliadau yn 2016/17 ac fe dderbynion nhw 10,088 ymweliad – bydd y gweddill yn cael eu derbyn yn unol â'n targedau perfformiad.

Roedd hefyd gynnydd sylweddol yn nifer y comisiynau a dderbyniwyd ar gyfer ymweliadau ymchwilio. Yn 2016/17 derbyniom 1,362 comisiwn am ymweliadau ymchwilio, o'i gymharu â chyfanswm o 1,030 yn 2015/16.

Roedd nifer y comisiynau am ymwelydd meddygol arbenigol hefyd yn uwch na'r disgwyl. Derbyniodd y tîm 444 comisiwn am ymwelydd arbenigol, o'i gymharu â 307 ar gyfer 2015/16.

I fynd i'r afael â cynnydd hwn yn y galw, bu'r OPG recriwtio 32 ymwelydd, gyda 3 ohonynt yn ymwelwyr arbenigol. Erbyn haf 2017, rydym yn gobeithio y byddwn wedi cwblhau recriwtio 27 ymwelydd arbenigol i gwrdd â'r galw am ymweliadau arbenigol.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd panel ymwelwyr OPG yn cynnwys 11 ymwelydd parhaol, 85 ymwelydd ar gontract ac 13 ymwelydd arbenigol. Fe weithiom i gynnal gwybodaeth broffesiynol a datblygiad y fframwaith o ymwelwyr trwy gynnal cynadleddau achlysurol trwy gydol y flwyddyn yn ogystal â gweithgareddau ar achosion penodol a 'gwersi a ddysgwyd'. Mae datblygu'r ymwelwyr yn cyfrannu at yr amddiffyniad a ddarperir i bobl â allai fod â diffyg galluedd meddyliol.

Hefyd, fe wellwyd sut mae ymwelwyr yn cael eu gwerthuso. Mae hyn yn bwysig ar gyfer ansawdd y gwasanaeth maen nhw'n gallu ei gynnig. Mae'n cyfrannu at amddiffyniad y bobl hynny mae'n OPG yn bodoli i'w hamddiffyn, yn ogystal ag i'r diwedd amddiffyn yn gyffredinol, wrth i ymwelwyr ar gontract fynd wrth eu gwaith ar gyfer awdurdodau lleol neu gyfreithwyr. Mae pob contractwr nawr yn derbyn dau ddarn o adborth ar eu hadroddiadau ymweliadau, ymweliad cysgodi gydag ymwelydd parhaol, a dau gerdyn sgôr cytbwys yn rhoi manylion ar berfformiad yr ymwelydd ar draws y flwyddyn. Cwblhawyd 53 arfarniad ymwelwyr yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn gweinyddu panel o ddirprwyon, y mae'r CoP yn tynnu arnynt mewn achosion ble nad oes unrhyw arall yn gallu neu'n fodlon gweithredu fel dirprwy. Yn 2016/17, fe wnaethpwyd 650 apwyntiad. Mae hyn yn cymharu â 390 yn 2015/16. Gyda llwyth gwaith cynyddol ar draws LPAs a dirprwyaethau, rhagwelwn y bydd y rhif hwn yn cynyddu yn y flwyddyn busnes nesaf.

Ym mis Gorffennaf 2016, fe gynhaliom y drydedd gynhadledd flynyddol i ddirprwyon panel, gyda'r nod o gynnal ansawdd a rhannu arferion da. Roedd adborth o'r digwyddiad hwn yn bositif yn gyffredinol.

## Cwynion

Rydym yn rheoli cwynion cwsmeriaid yn unol â'n polisi cwynion cyhoeddedig. Mae hon yn broses cwynion â haenau – mae cwynion haen gyntaf yn cael eu hystyried gan yr ardal busnes â chyfrifoldeb. Os yw cwsmer yn anhapus gyda'r ymateb, gellir symud y gwyn i fyny i'r ail haen. Yna, mae'r gwyn, a sut aethpwyd i'r afael â hi, mae'n cael ei hadolygu gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Os yw cwsmer yn parhau i fod yn anfodlon, gallant ofyn i'w AS gyfeirio eu cwyn at yr Ombwdsmon y Senedd a'r Gwasanaeth Iechyd (PHSO) am adolygiad annibynnol.

Eleni mae nifer y cwynion wedi cynyddu ychydig, er mae gostyngiad wedi bod wrth eu hystyried mewn perthynas â'n llwyth gwaith. Derbyniom 6,988 cwyn yn 2016/17 o'i gymharu â 6,945 cwyn yn 2015/16 a 6,376 cwyn yn 2014/15.

Roedd gostyngiad yn nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â chofrestriadau pŵer atwrnai i 5,725 yn 2016/17 o 6,002 yn 2015/16. Mae canran y cwynion am lwyth gwaith wedi gostwng i 0.9% (o 648,318 cais) o 1.1% (o 547,201 cais).

Roedd mwyafrif y cwynion am sut brosesir ceisiadau LPA ac EPA. Yn gyffredinol, roeddent yn ymdrin â'r canlynol:

- gwallau wrth brosesau ceisiadau ac da-daliadau
- ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid
- penderfyniadau yn ymwneud â dilysrwydd LPAs ac EPAs.

Mae ychydig o gynnydd wedi bod yn nifer y cwynion am ein goruchwyliaeth o ddirprwyon, 411 cwyn yn 2016/17 o'i gymharu â 381 yn 2015/16. Nid oes newid wedi bod i ganran y cwynion am lwyth gwaith, sef 0.7% (yn erbyn llwyth gwaith o 57,702 ar ddiwedd 2016/17 o'i gymharu â llwyth gwaith o 57,131 ar ddiwedd 2015/16).

Ein nod yw ymateb i 90% o gwynion o fewn 10 diwrnod gwaith. Yn 2016/17, ymatebom i 77.0% o fewn yr amserlen hon, o'i gymharu â 68.2% yn 2015/16. Er bod y canran a gwblhawyd o fewn 10 diwrnod gwaith lawer is nag ein targed, roedd yn welliant ar y flwyddyn flaenorol. Ar ben hynny, nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i ymateb i gwynion dros y flwyddyn oedd 9.5 diwrnod gwaith, o fewn ein targed o 10 diwrnod gwaith.

Roedd cynnydd yng nghanran y cwynion a dderbyniom symudodd i fyny i haen 2 am ymateb gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus i 6.3% o 5.9% yn 2015/16. Derbyniwyd 7 achos newydd gan y PHSO am ymchwiliad llawn eleni ac fe gwblhawyd 5 ymchwiliad yn ystod y flwyddyn. O'r rhain, cafodd 1 ei hategu'n rhannol ond ni chafodd 4 eu hategu. Rydym yn defnyddio adborth o PHSO i adnabod gwelliannau ac rydym wedi cydymffurfio â holl argymhellion PHSO, gan gynnwys argymhelliad i gynnal ymchwiliad newydd.

Bydd ein ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod yn parhau i fod i ddysgu gwersi o'r cwynion a dderbyniwn. Mae staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion yn adnabod themâu sy'n dod i'r amlwg ac yn eu hadrodd yn ôl i reolwyr busnes er mwyn ystyried newidiadau a gwelliannau. Mae'r fforwm cwynion hon wedi cael ei defnyddio i wella dyluniad ein fforymau, ein harweiniad a'n prosesau. Mae offer a hyfforddiant gwelliant parhaus yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r themâu sy'n gyffredin mewn cwynion. Er enghraifft, mae hyfforddiant ar ysgrifennu llythyrau arbenigol wedi cael ei datblygu i wella ansawdd gohebiaeth allanol. Ar ben hynny, byddwn yn sicrhau bod data ar gwynion yn cael ei gyfuno gyda ffynonellau eraill o wybodaeth er mwyn llunio llais casgliadol ar ran y cwsmeriaid y gellir ei defnyddio i yrru dyluniad a gweithrediad polisi, cynnyrch a gwasanaethau'r OPG.

| Dangosydd gwasanaeth cwsmeriaid: cwynion | | | |
|---|---|---|---|
| Y targed yw ymateb i 90% o gwynion cwsmeriaid o fewn 10 diwrnod gwaith o'u derbyn | | | |
| **Diben** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell y data** | **Cyflawnwyd hyd at 31 Mawrth 2017** |
| Mae'r dangosydd hwn yn chwarae rhan bwysig wrth helpu OPG ddeall i ba raddau rydym yn cyflawni disgwyliadau ein cwsmeriaid. | Mesurir y perfformiad trwy adio i fyny cyfanswm yr amser i ateb yr holl gwynion a atebir mewn mis wedi'i rannu gan nifer y cwynion.<br>Caiff y dangosydd hwn ei fesur yn fisol. | Gwybodaeth rheoli o bob ardal busnes unigol. | Ymatebwyd i 77% o gwynion o fewn 10 diwrnod gwaith o'u derbyn. |

## Gohebiaeth

Eleni fe dderbyniom 77,141 (2015/16: 85,109) darn o ohebiaeth ar draws pob ardal o'r busnes. Daeth y mwyafrif o hyn o gwsmeriaid am geisiadau PoA ac o ddirprwyon yn ymwneud â'u pwerau a chyfrifoldebau.

| Dangosydd gwasanaeth cwsmeriaid: gohebiaeth | | | |
|---|---|---|---|
| Y targed yw ymateb i 90% o ohebiaeth o fewn 10 diwrnod gwaith. | | | |
| **Diben** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell y data** | **Cyflawnwyd hyd at 31 Mawrth 2017** |
| Mae'r dangosydd hwn yn helpu i sicrhau ein bod yn ymateb i'n cwsmeriaid yn brydlon. Mae hefyd yn hysbysu gwelliant parhaus o ran sut rydym yn gweithio a sut rydym yn cyflwyno ein gwasanaethau. | Nifer yr eitemau o ohebiaeth gan gwsmeriaid a ymatebwyd iddynt o fewn 10 diwrnod gwaith wedi'i rannu gan nifer yr eitemau o ohebiaeth gan gwsmeriaid a ymatebwyd iddynt mewn mis. | Systemau rheoli achosion mewnol OPG a data post | Fe dderbyniodd 90% o ohebiaeth ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith. |

# Cyfreithiol

Rydym yn drafftio ac yn cyflwyno ceisiadau ac yn cynrychioli'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yng ngwrandawiadau'r CoP. Rydym yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'r CoP, yn benodol ar ranbarthu eisteddiadau llys sydd wedi cael effaith sylweddol ar y busnes.

Eleni, rydym wedi ffocysu ar effeithiolrwydd a chyflymder – ein nod oedd gostwng yr amser a gymerir i amddiffyn pobl agored i niwed gan sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu yn y llys yn cael eu cymryd yn sydyn. Yn benodol, fe edrychom i roi cefnogaeth gyfreithiol yn gynt o fewn ymchwiliadau ac rydym wedi gwella templedi ceisiadau i'r llys.

Mae drafftio a chyflwyno ceisiadau a chynrychioli'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cynnwys cydweithio agos rhwng timau ceisiadau i'r llys, ymchwiliadau, amddiffyn a goruchwylio. Mae hefyd yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau partner gan gynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, cartrefi gofal, sefydliadau ariannol a chyfreithwyr yn ogystal â thwrneiod a dirprwyon.

Rydym wedi bod ynghlwm mewn dros 272 o achosion heb eu hadrodd yn cynnwys gweithredu yn erbyn twrneiod a dirprwyon a ganfuwyd eu bod yn gweithredu'n amhriodol. Fe gynrychiolom y Gwarcheidwad Cyhoeddus mewn 135 gwrandawiad llys. Rydym hefyd wedi cynorthwyo barnwyd dan Adran 49 yr MCA mewn 47 achos, gan roi ymchwiliadau ac arolygon newydd ar waith pan fo angen/

Fe gynrychiolom y Gwarcheidwad Cyhoeddus mewn barn bwysig, y Gwarcheidwad Cyhoeddus a PM a SH [2016] EWCOP 25, sydd wedi'i gyhoeddi ar www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/. Daeth yr achos i'r amlwg oherwydd dadl rhwng 2 dwrnai.

Rydym yn parhau i symleiddio'r ymagwedd at wallau mewn LPAs fel bod y nod cyffredinol o ganiatáu i bobl wneud dewisiadau gyda LPA dilys yn cael ei anrhydeddu, ble fo'n bosib. Mae cwsmeriaid yn parhau i weld toriadau'n cael eu cwblhau cyn diwedd y cyfnod aros statudol.

O ran amddiffyn, rydym wedi llwyddo ymchwilio i achosion ble mae pryderon wedi cael eu codi am alluedd person i wneud LPA neu ble mae pwysau wedi cael ei roi ar gwsmer i wneud un. Mae gennym gydsyniad y llys i'n hymagwedd ragweithiol i geisio tystiolaeth ar y pryderon hyn a sicrhau bod ein penderfyniadau cofrestru'n amddiffyn yr ymgeisydd.

Rydym yn cynnig cyfarwyddyd i gwsmeriaid mewnol ac allanol ac rydym wedi gweithredu dros 3,900 o geisiadau am gyngor.

## Ymrwymiad staff

Gan adeiladu ar yr ymatebion i'r arolwg staff fe gynhaliom fforymau ymrwymiad staff ym mis Ionawr 2017 gyda phobl ar draws y busnes i adolygu'r canlyniadau a gweithio gyda nhw i ddatblygu cynllun gweithredu ymrwymiad corfforaethol yr OPG ar gyfer 2016/17. Roedd hyn yn canolbwyntio ar fwlio, aflonyddwch a gwahaniaethu (BHD), arweinyddiaeth a rheoli newyd a dysgu a datblygu.

### Bwlio, aflonyddwch a gwahaniaethu

Fe gyflwynom sesiynau ymwybyddiaeth BHD mewnol i 90% o staff yr OPG a dynnodd sylw at effaith BHD yn y gweithle a hyrwyddo disgwyliadau ymddygiad o ran BHD.

Mae cynghorwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi cael eu penodi mewn dau o gyfarwyddiaethau mwyaf OPG, gweithrediadau ac ymarfer a chydymffurfio, i greu 'mannau diogel' i staff godi pryderon BHD a derbyn cefnogaeth ac arweiniad i'w datrys. Bydd canlyniadau'r peilot hwn yn cael ei dadansoddi a bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud o ran a ddylid ei rolio allan i'r OPG yn ehangach.

### Arweinyddiaeth a rheoli newid

Fe gynhaliom sesiynau galw heibio gyda staff ym mis Chwefror 2017 a roddodd gyfle i staff siarad yn agored gyda Phrif Swyddog Gweithredol OPG. Mae uwch staff o fewn OPG hefyd wedi cael y cyfle i fynychu rhaglen arwain Band A yr MoJ, ac mae nifer wedi manteisio ar y cyfle gyda mwy yn bwriadu gwneud yn y flwyddyn a ddaw.

### Dysgu a datblygu

Mae OPG wedi cefnogi cychwyniad 26 prentisiaeth yn 2016/17 – gyda 3 prentis yn cael ei recriwtio yn allanol o dan Gynllun Prentisiaeth Llwybr Carlam y Gwasanaeth Sifil a 23 aelod o staff cyfredol yn gwneud prentisiaeth mewn cyrsiau cyflwyno gweithredol.

# Perfformiad ariannol

## Dadansoddiad o dueddiadau gwariant hir dymor

| | 2012/13 £'000 | 2013/14 £'000 | 2014/15 £'000 | 2015/16 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff | 17,510 | 19,930 | 25,776 | 32,499 | 35,172 |
| Gwariant arall | 10,408 | 11,965 | 14,517 | 20,822 | 22,543 |
| **Cyfanswm** | **27,918** | **31,895** | **40,293** | **53,321** | **57,715** |
| | | | | | |
| Y Nifer a Gyflogir sy'n Cyfateb ag Amser Llawn ar Gyfartaledd | 615 | 682 | 865 | 1,071 | 1,206 |
| | | | | | |
| Llwyth Gwaith Goruchwylio (ar ddiwedd y flwyddyn) | 45,000 | 49,000 | 53,000 | 57,000 | 58,000 |
| Ceisiadau PoA | 259,182 | 310,980 | 410,346 | 547,021 | 648,318 |

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae cyfanswm y costau wedi cynyddu 106%. Dros yr yn cyfnod, mae llwyth gwaith goruchwylio wedi cynyddu 29% tra bod nifer yr achosion PoA wedi cynyddu 150%.

Mae cynnydd o 101% wedi bod yng nghostau staff o'i gymharu â chynnydd o 96% yn y nifer a gyflogir sy'n cyfateb ag amser llawn ar gyfartaledd. Mae hyn yn dangos effeithiolrwydd ein prosesau gynyddol effeithiol i reoli'r llwythi gwaith uwch o fewn safonau gwasanaeth a gytunwyd.

Rydym yn ymrwymedig i gyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel mewn modd mwy cost effeithiol trwy gael prosesau mwy awtomatig a gwella technegau yn gyson.

## Rhagweld galw

Mae'r OPG wedi cynyddu ei alluoedd i ragweld galw yn sylweddol eleni, a gellir profi hyn trwy edrych ar yr amrywiant o 3% yn erbyn y galw a ragwelwyd ar gyfer LPAs. Mae hwn yn llwyddiant nodedig yn dilyn y sefyllfa yn 2015/16 (1%), gan hyrwyddo partneriaeth gadarn a chynaliadwy gyda chydweithwyr yng nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Dadansoddol yr MoJ gan ddefnyddio model rhagweld galw dilys o ran ystadegau sydd wedi cael ei asesu i fod yn addas i'r diben trwy adolygiad gan gyfoedion. Mae ei defnydd gan yr OPG wedi cael ei dilysu'n annibynnol gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth gydag opsiwn archwilio sylweddol.

Rydym yn parhau i fireinio rhagolygon galw fel rhan o'r trefniadau misol ar gyfer rheoli cyllid a pherfformiad, gan ddefnyddio'r mewnwelediad a enillwyd i fodelu'r effaith tebygol o sylw yn y wasg a mwy o ymwybyddiaeth o LPAs.

Mae OPG bellach mewn sefyllfa dda i reoli galw am ei wasanaethau LPA mewn modd gadarnhaol ac, yn sgil hyn, i gefnogi gwaith a arweinir gan bolisi i osod ffioedd priodol ar gyfer gwasanaethau LPA.

Mae ein gwaith hefyd wedi cyffwrdd ar fodelu galw ar gyfer ein gwasanaethau dirprwyo. Yn y flwyddyn a ddaw, bydd dadansoddwyr yn gweithio gyda OPG a'r Llys Gwarchod i ddatblygu ein gallu i ragweld galw yn y maes hwn ymhellach.

## Rheoli cyllid

Mae eleni wedi gweld heriau 2015/16 yn parhau ac rydym wedi cefnogi twf a newid sylweddol yn y busnes, gan gynnwys symud i fodel arwain swyddogaethol y MoJ ar gyfer datblygu gwasanaethau proffesiynol.

Adeiladodd ein tîm cyllid ar y profiad a enillwyd yn rheoli'r gwaith i fudo o system cyllid unigol i blatfform cyllid craidd yr MoJ ym mis Ionawr 2016 ac roeddent yn gallu bod yn fedrus wrth baratoi a rheoli diddordebau penodol yr OPG a'r mudo dilynol o systemau cyllid ac Adnoddau Dynol craidd yr MoJ i un platfform gweithredu (SOP) pan gafodd ei roi ar waith ym mis Ionawr 2016.

Yn yr un modd â mudo unrhyw system, mae nifer o ddiffygion gydag adrodd a rheoli sy'n cael eu datrys ar frys gyda'r MoJ a'r darparwr gwasanaeth ar y cyd. Tra bod dim o'r problemau hyn yn cael eu barnu i fod yn rhai mawr, mae nifer o faterion, pan cânt eu cyfuno, sydd wedi rhwystro ein gallu i adrodd yn gywir ac yn brydlon ar draws weithgareddau Adnoddau Dynol a chyllid. Mae prosesau sicrwydd ychwanegol a rhagor o waith rheoli asesiadau wedi cael eu cyflawni fel rhan o gynhyrchiant y datganiadau ariannol, dyma fydd y ffocws ar gyfer optimeiddio rheoliadau a systemau yn y flwyddyn ariannol a ddaw.

Yn ystod y flwyddyn mae'r tîm cyllid wedi ailstrwythuro, gan ail-drefnu'r holl brosesau i fodloni gofynion gweithredu'r dyfodol, cwmpasu rhaglen o hyfforddiant, mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio megis rheoli'r gyflogres a chefnogi canoli gweithgareddau megis cyfrifeg cyfalaf, gan lunio perthnasau cryf gyda chydweithwyr ar y ffordd. Mewn archwiliadau a gynhaliwyd gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth ar y gweithgareddau hyn, fe dderbyniwyd graddau 'sylweddol',

Rydym wedi goresgyn yr heriau a ddaeth i'r amlwg ac wedi parhau i gyflwyno rheolaeth ariannol gadarn ar gyfer yr asiantaeth, gan gefnogi prosesau effeithiol o wneud penderfyniadau gan uwch reolwyr cyllideb, y tîm rheoli gweithredol a Bwrdd OPG.

Rydym wedi darparu mewnbwn technegol er mwyn sicrhau bod y ffioedd a osodir yn bodloni'r holl ofynion angenrheidiol, gyda adolygiad helaeth gan gyfoedion a chymeradwyo yn cael eu cyflawni trwy'r broses sydd, yn ei dro, wedi darparu sicrwydd i Swyddog Cyfrifyddu'r asiantaeth. Rydym wedi mireinio ein costau fesul uned ymhellach er mwyn sicrhau tryloywder, cynorthwyo gyda chynllunio a darparu tystiolaeth gadarn er mwyn cefnogi'r broses o osod ffioedd yn y dyfodol.

Mae problem parhaus o uchafu ar ein hamcan i adennill costau wedi cael ei ymdrin mewn partneriaeth â'r MoJ ac roedd gostyngiad i'r ffi i gofrestru atwrneiaeth arhosol ac atwrneiaeth barhaus ar 1 Ebrill 2017.

Rydym wedi llwyddo rheoli cynllunio ariannol a gosod y gyllideb trwy gydol y flwyddyn, fel mae'r manylion yn y datganiadau ariannol yn dangos.

Yn olaf, mae'r tîm wedi cynnal ymrwymiad staff da a chawsant eu hadnabod gan broffesiwn ariannol y llywodraeth gyda dau aelod o staff yn cyrraedd rowndiau terfynol y gwobrau Proffesiynau Ariannol y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2016, gan ennill yn y categori Talent Ddatblygol.

Wrth i ni gychwyn ar flwyddyn ariannol newydd, rydym yn cydnabod bod yr heriau'n parhau yn ddi-baid, fodd bynnag, rydym mewn sefyllfa gref i symud ymlaen ohoni. Gyda'r ffioedd i gofrestru atwrneiaeth arhosol ac atwrneiaeth barhaus ar eu hisaf ers ffurfio'r asiantaeth yn 2007, a gyda'r MoJ yn arwain ar adolygiad pellach o'r holl ffioedd yn 2017/18 a systemau cynllunio a rheoli ariannol cryf yn eu lle, mae'r OPG mewn sefylfa ariannol gref i barhau i gyflwyno gwasanaethau i bob un o'n cwsmeriaid.

Monitrwyd rhagolygon incwm trwy gydol y flwyddyn gyda'r incwm cyflawni cyllideb yn sefyll ar £75m ar ddiwedd y flwyddyn.

Cafodd cyfanswm y gwariant ar gyfer y flwyddyn ei effeithio gan oedi wrth ymsefydlu staff yn dilyn eu recriwtio, dibynadwyaeth barhaus ar staff asiantaeth, a llithriant yn y rhaglen trawsnewid TG wedi'i achosi gan oedi wrth sicrhau'r contractwyr angenrheidiol. Arweiniodd hyn at danwariant o 5% yn erbyn y gyllideb arian (£52m) ar ddiwedd y flwyddyn.

Golygodd oedi wrth anfonebu ar gyfer ein tanysgrifiad blynyddol bod yn rhaid i ni gronni o'r incwm ar ddiwedd y flwyddyn ac addasu ein rhagolwg llif arian yn unol â hyn. Gellir gweld hyn yn nodyn 9 i'r cyfrifon.

### Adennill costau

Problem fawr a wynebwyd yn ystod y flwyddyn oedd ffioedd yn cael eu codi yn uwch na'r gost weithredol o gyflwyno'r gwasanaeth i gofrestru PoAs. Roedd hyn oherwydd niferoedd uwch ynghyd â chynnydd yn effeithiolrwydd ein ffordd o weithio. O 1 Ebrill 2017, roedd gostyngiad yn y ffi i ymgeisio i gofrestru LPA ac EPA o £110 i £82. Mae hon yn 'ffi manylach' sy'n golygu y gellir defnyddio cyfran o'r incwm yma o ffioedd i ariannu swyddogaethau ehangach yr OPG. Ochr yn ochr â gostyngiad hwn mewn ffioedd, bydd MoJ hefyd yn cyflwyno cynllun i ad-dalu cyfran o'r ffi i gwsmeriaid a dalodd mwy nag y dylent fod wedi. Bydd manylion llawn y cynllun yn cael eu cyhoeddi maes o law ond rydym yn ymrwymedig i gymryd camau o'r fath yn ôl yr angen er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn ymwybodol o'r ad-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, a'u bod yn eu derbyn.

### Cynllun ymadael yn gynnar yn wirfoddol

Ym mis Mawrth 2016, fe gyhoeddodd yr MoJ lansiad cynllun ymadael yn gynnar yn wirfoddol. Dan delerau'r cynllun, roedd holl staff yr OPG yn Llundain yn gymwys i ymgeisio. Cafodd staff eu cefnogi i wneud eu penderfyniad gan 2 reolwr gweithredol a benodwyd, a dywedodd staff a effeithiwyd arnynt bod y cynllun wedi cael ei reoli'n foddhaol. Derbyniodd nifer o staff gynigion a gadael yr OPG ym mis Medi 2016. Mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 89.

## Adroddiad cynaliadwyedd

Rydym wedi ymrwymo i leihau ein heffaith ar y byd naturiol ac i gefnogi ein cymunedau. I wneud hyn, rydym yn mesur ac yn lleihau ein defnydd o adnoddau cyfyngedig ac yn annog staff i wirfoddoli – gan ganiatáu 5 diwrnod o absenoldeb gwirfoddoli y flwyddyn i bob aelod o staff.

### Casglu data a chwmpas adrodd

Rydym yn adrodd ar gyfleustodau a ddefnyddiwyd, teithio a gwastraff a gynhyrchwyd. Mae'r rhain yn cael eu mesur yn erbyn blynyddoedd blaenorol ac ar y cyd ag Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth (GGC). Daeth targedau'r GGC i ben yn 2014/15, felly rydym yn adrodd yn erbyn eu targedau yn y flwyddyn olaf.

Mae ein data yn cael ei gymryd yn uniongyrchol o fesuryddion cyfleustodau, cyflenwyr a chontractwyr gwaredu ar wastraff. Ble rydym yn rhannu adeiladau a chyflenwadau cyfleustodau, rydym yn seilio ein ffigurau defnydd ar y lle sydd gennym.

Nid oes gennym gerbydau fflyd ac mae milltiredd cerbydau personol (fflyd lwyd) a ddefnyddir ar gyfer teithio busnes yn cael ei chofnodi yn hawliadau treuliau.

Roedd targedau o leihau'r defnydd o bapur yn ofynnol ar gyfer defnydd y swyddfeydd cefn yn unig. Fodd bynnag, rydym hefyd yn adrodd ar becynnau LPA a anfonir at gwsmeriaid.

Mae ein data yn cael ei grynhoi yn ffigurau diwedd blwyddyn yr MoJ ac yn cael ei adrodd yn adroddiad blynyddol a chyfrifon yr adran.

## Gwybodaeth ein hystadau

Ar ôl sawl blwyddyn o dwf a newid yn ein hystadau, eleni bu i ni ganolbwyntio ar sefydlogi, ag eithrio un cynnydd bach yn y lle sydd gennym yn adeilad Axis, Birmingham. Nawr gallwn osod ffigurau gwaelodlin ar gyfer monitro ac adrodd yn y dyfodol.

Mae gennym bresenoldeb bach yn Petty France, Llundain, ac felly mae ffigurau ar gyfer y safle hon yn cael eu cofnodi gan yr MoJ.


## Ein targedau

Yn 2016/17, bu i ni wella ar ein perfformiad o'r llynedd a chwrdd â bob un o dargedau'r GGC ond un – defnydd o bapur yn y swyddfa gefn.


| Ymrwymiad Gwyrdd y Llywodraeth | | Targed gostwng y Llywodraeth erbyn 31 Mawrth 2015* | Perfformiad hyd at 31 Mawrth 2017 | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| $CO_2$ | **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** | 25% | Gostyngiad 67% | **Cyflawnwyd** |
| | **Gwastraff** | 25% | Gostyngiad 35% | **Cyflawnwyd** |
| | **Dŵr** | $6m^3$ fesul FTE | $4.6m^3$ fesul FTE | **Cyflawnwyd** |
| | **Papur** | 10% | Cynnydd llwyr o 115%<br>Gostyngiad o 66% fesul achos | **Heb ei gyflawni** |
| | **Teithio** | 25% | Gostyngiad 60% | **Cyflawnwyd** |


* Daeth targedau'r GGC i ben yn 2014/15, felly rydym yn adrodd yn erbyn eu targedau yn y flwyddyn olaf.


Defnydd o Drydan






Allyriadau Teithio






## Gwastraff

Mae gennym gontractau gwaredu ar wastraff dim i safleoedd tirlenwi yn ein swyddfeydd ym Mirmingham a Nottingham, felly cafodd ein holl wastraff eleni ei ailgylchu neu ei drosi i danwydd olew. Cafodd 100% o wastraff papur a chardfwrdd ei ailgylchu mewn dolen gaeedig. Mae ffigurau gwastraff yn gyffredinol wedi gostwng 35% er bod nifer y staff wedi treblu ers 2009.

## Dŵr

Yn ein hadeiladu mae gennym toiledau gyda dwrlif isel a thapiau ewynnog. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad cyson yn y defnydd o ddŵr fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (FTE). Y llynedd, fe dderbyniom ffigurau anghywir ar ein defnydd o ddŵr o'r cwmni sy'n rheoli ein hadeilad ac nid oes gennym gofnod o'r ffigurau cywir. O ganlyniad, mae'r data ar ffeil yn dangos bod cynnydd wedi bod o 1.3m$^3$ yn 2015/16 i 4.6m$^3$ fesul FTE yn 2016/17. Nid dyma'r achos ac mae'r defnydd cyfredol lawer is na'r targed a osodwyd. Fodd bynnag, nid yw eto wedi cyrraedd ein ffigwr arfer gorau o 4m$^3$ fesul FTE.

## Defnydd o bapur

Mae ein defnydd o bapur wedi cynyddu 115% ers 2009. Mae hyn oherwydd cynnydd cyson blwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer yr LPAs a brosesir a'r dirprwyon a reolir. Mae ein llwyth gwaith wedi cynyddu tua chwe gwaith a nifer y staff deirgwaith yn y cyfnod hwnnw, tra bod ein defnydd o bapur fesul achos wedi lleihau gan ddau draean. Mae offer digidol newydd i reoli dirprwyon yn cael ei gyflwyno i'n cwsmeriaid ac rydym yn disgwyl gweld gwelliannau pellach i'r ffigwr hwn yn y dyfodol.

Mae nifer y ceisiadau LPA a dderbyniwyd wedi cynyddu o 84,600 yn 2009 i 636,000 yn 2016/17. Fodd bynnag, mae nifer y pecynnau wedi aros yn weddol gyson, sef tua 60,000 y flwyddyn, sy'n cyfateb i 13,000 rîm o bapur. Mae cwsmeriaid yn gwneud defnydd o'n sianeli digidol i gwblhau ffurflenni cais LPA a gallai hyn esbonio'n rhannol pam nad yw'r ffigurau ar gyfer pecynnau LPA wedi cynyddu.

## Teithio

Yn 2016/17, fe gwympodd y teithio yn yr OPG yn fawr wrth i'r prosiect trawsnewid ystadau ddod i ben, ac wrth i gyfyngiadau teithio'r llywodraeth ddod i rym. Roedd gostyngiad yn lefel teithio'r staff o 54% a bu i ni gynhyrchu 55% yn llai o $CO_2$ nag yn 2015/16. Fodd bynnag, wrth i'r lefelau teithio dramor gwypo, bu'r cyfran teithio mewn car preifat gynyddu i 21% eleni. Roedd hyn oherwydd y gwnaethpwyd mwyafrif yr ymweliadau gan ymwelwyr CoP mewn car ac mae nifer yr ymweliadau hyn a wneir bob blwyddyn wedi cynyddu wrth i'r busnes dyfu. Er hyn, mae swm cyffredinol yr allyriadau o geir wedi cwympo gan hanner ers 2009.

Yn dilyn symud i Embankment House, fe weithiom yn agos gyda Chyngor Dinas Nottingham a Nottingham Community Transport i alluogi staff i gymryd mantais o docynnau bws am bris is a'r cyfleusterau parcio a theithio. O ganlyniad, rydym wedi arbed arian ar ffioedd ychwanegol, hawliadau teithio a chynhaliaeth, ac wedi lleihau angen staff i yrru i'r gwaith.

Rydym hefyd yn gwneud defnydd o fideo gynadledda er mwyn lleihau teithio diangen. Bellach mae gennym gyfarpar tele-gynadledda a fideo gynadledda wedi'u gosod yn ein hadeiladau, megis Skype.

## Cyfleustodau

Yn gyffredinol mae ein hallyriadau $CO_2$ o gyfleustodau wedi gostwng 67% ers 2009/10. Mae hyn oherwydd ein bod wedi symud i adeiladau mwy newydd, mwy effeithlon ac wedi gostwng nifer y safleoedd rydym yn eu gweithredu.

Hyd yn oed gyda chynnydd diweddar yn nifer y staff a deiliadaeth ein hadeiladau, ychydig yn unig mae ein defnydd o drydan wedi cynyddu ers 2015/16. Mae'n defnydd o nwy yn parhau i ostwng blwyddyn ar ôl blwyddyn, oherwydd y gaeafau mwynach a'r ffaith mai adeilad Axis yw ein unig safle sy'n cael ei chynhesu gan nwy.

## Cymuned ac elusen

Yn 2016/17, gwirfoddololodd staff i gynnal nifer o fentrau codi arian gan roddi'r holl elw i'r elusennau isod.

| Elusen | Rhodd |
|---|---|
| Sport Relief | £118 |
| Macmillan Cancer Support | £431 |
| Alzheimer’s Society | £273 |
| UNICEF | £216 |
| Achub y Plant | £469 |
| Comic Relief | £1,510 |
| **CYFANSWM:** | **£3,017** |

## Ymgorfforі cynaladwyedd yn ein gwaith


Byddwn yn parhau i wella ein perfformiad yn y blynyddoedd i ddod gyda phwyslais penodol ar leihau ein defnydd o bapur a chynnal yr arbedion ar deithio.

Er mwyn cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, rydym yn cynnal digwyddiadau rheolaidd yn ein swyddfeydd ym Mirmingham a Nottingham yn rhoi gwybodaeth ar deithio ac yn gwerthu tocynnau. Mae gennym gyfleusterau i feicwyr ar y ddwy safle hefyd. Mae mwyafrif ein staff yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae Dr Bike, y gwasanaeth cynnal a chadw beiciau, wedi ymweld â safleoedd yng Nghanolbarth Lloegr ar sawl achlysur i ddarparu gwybodaeth ar seiclo a gwneud atgyweiriadau am ddim i feiciau'r staff.

Rydym yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar gynaladwyedd trwy ein cylchlythyron mewnol ac mae gennym rwydwaith bach o eiriolwyr cynaladwyedd i ymrwymo staff ac annog ymagedd gynaliadwy at ein gwaith. Mae'r eiriolwyr cynaladwyedd yn adolygu syniadau gan staff ar sut i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac yn rhoi awgrymiadau ar waith ble fo'n ymarferol.

Rydym yn gwneud defnydd o dŷ clirio dodrefn y Gwasanaeth Sifil i gael gwared ag unrhyw hen ddodrefn, gan helpu lleihau gwastraff a gwariant.



**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2017

# Adroddiad atebolrwydd

# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

### Cyflwyniad

Diben yr adroddiad llywodraethu corfforaethol yw esbonio strwythur y sefydliad a sut mae'r trefniadau hyn wedi ein cefnogi i gyflawni ein hamcanion yn ystod 2016/17.

Mae ein dogfen fframwaith yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, atebolrwydd, cyllido, staffio a gweithrediadau. Gellir darllen y ddogfen hon yn llawn ar GOV.UK gan ddilyn y ddolen isod.

https://www.justice.gov.uk/downloads/publications/corporate-reports/OPG/opg-framework-january-2014.pdf

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r OPG, rwy'n gyfrifol am ddefnydd yr OPG o adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau fel yr amlinellir yn nogfen y fframwaith. Mae Rheoli Arian Cyhoeddus fel y cyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi hefyd yn amlinelli cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol yn bersonol am: amddiffyn y cronfeydd cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt, gan sicrhau llewyrch a chysondeb wrth ymdrin â chronfeydd cyhoeddus, a gweithrediadau a rheolaeth yr OPG o ddydd i ddydd. Ar ben hynny, rhaid i mi sicrhau bod yr OPG yn gyffredinol yn cael ei redeg yn unol â'r safonau mewn perthynas â llywodraethu, gwneud penderfyniadau a rheoli arian.

Mae fy adroddiad yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle i reoli'r risgiau i gyflawni'r amcanion a'r targedau a gytunwyd gan yr OPG. Mae hefyd yn darparu trosolwg a rheolaeth dros adnoddau ac asedau'r OPG. Mae'n cynnwys:

- adroddiad y cyfarwyddwr
- datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu
- datganiad llywodraethu.

## Adroddiad y cyfarwyddwr

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys strwythur Bwrdd yr OPG, y pwyllgor archwilio a risg (ARC) a'r tîm gweithredol. Maen nhw'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol OPG ac am fonitro perfformiad yn erbyn amcanion a gytunwyd.

### Datganiad o fuddiannau'r cyfarwyddwyr

Mae gofyn i gyfarwyddwyr anweithredol ddatgan unrhyw swyddi cyfarwyddwr a gwrthdaro o fuddiannau ar eu penodiad. Mae hefyd gofyn i bob aelod o'r bwrdd ddatgan unrhyw wrthdaro o fuddiannau cyn cychwyn pob cyfarfod. Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau yn ystod 2016/17.

### Digwyddiadau o ddata personol

Ystyriwyd a oedd unrhyw ddigwyddiad yn cynnwys data personol mor ddifrifol y dylid rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdano. Doedd dim digwyddiadau o'r fath ddifrifoldeb yn ystod y flwyddyn.

Mae'r datganiad llywodraeth (ar dudalen 49-50) yn ystyried ymhellach gwybodaeth ar arferion sicrwydd a diogelwch data yn yr OPG.

## Iechyd a lles

Mae'r OPG yn cydnabod ei chyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant ei weithwyr a'r holl bobl sy'n defnyddio ei swyddfeydd.

Mae'r datganiad llywodraethu (ar dudalen 50-51) yn ystyried ymhellach arferion iechyd a diogelwch yn yr OPG.

## Bwrdd yr OPG

### Ein swyddogion gweithredol



**Alan Eccles CBE**
Gwarcheidwad Cyhoeddus, Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr



**Karen Morley**
Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol



**Iain Dougall**
Pennaeth Gweithredu



**Angela Johnson**
Pennaeth Ymarfer a Chydymffurfio



**Ria Baxendale**
Pennaeth Goruchwylio ac Ymchwiliadau



**Chris Jones**
Pennaeth Strategaeth a Datblygu Busnes

## Ein cyfarwyddwyr anweithredol



**Dean Parker**
Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg yr OPG



**Yr Athro Anthony Schapira**
Cyfarwyddwr Anweithredol



**Janet Grossman**
Cyfarwyddwr Anweithredol

## Ein Cynrychiolydd MoJ



**Dr Elizabeth Gibby**
Dirprwy Gyfarwyddwr yr MoJ, Strategaeth a Pholisi Arbenigol

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan adran (7)2 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo'r asiantaeth i baratoi datganiad o gyfrifon bob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi adlewyrchiad gwir a theg o sefyllfa'r OPG a'i chynnyrch adnoddau net, y defnydd o adnoddau, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Yn benodol:

- arsylwi'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a rhoi polisïau cyfrifo priodol ar waith yn rheolaidd
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- nodi a yw'r safonau cyfrifo perthnasol fel yr amlinellir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r MoJ wedi dynodi Prif Weithredwr yr OPG fel Swyddog Cyfrifyddu'r asiantaeth. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol am, cadw cofnodion cywir ac amddiffyn asedau'r OPG, wedi'u hamlinellu yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddwyr gan Drysorlys EM.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, cadarnhaf:

- cyhyd â fy mod yn gwybod, does dim gwybodaeth berthnasol nad yw archwilwyr yr OPG yn ymwybodol ohoni
- fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn i sicrhau fy mod yn ymwybodol o'r gwybodaeth archwilio berthnasol
- fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn i bennu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o wybodaeth o'r fath
- bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar y cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac fe gymeraf cyfrifoldeb personol dros yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r penderfyniadau sy'n ofynnol er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2017

# Datganiad llywodraethu

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut rydw i, fel Swyddog Cyfrifyddu, wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau'r OPG yn ystod y flwyddyn. Mae'r datganiad hwn yn disgrifio trefniadau llywodraethu'r OPG ac yn darparu asesiad o sut rydw i wedi cydbwyso risg, sicrwydd a rheolaeth trwy gydol 2016/17.

## Cyflwyniad

Ysgrifennydd Parhaol yr MoJ yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r adran. Ceir amlinelliad o gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu ym mhennod 3 o Reoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi fy nynodi fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer gwariant gweinyddol yr OPG, wedi diffinio fy nghyfrifoldebau a'r berthynas rhwng Swyddog Cyfrifyddu'r OPG a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ddeiliad swydd statudol a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder dan Adran 57 Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA). Mae'r rôl statudol wedi'i chyfuno â rôl weinyddol Prif Weithredwr yr OPG a Swyddog Cyfrifyddu'r asiantaeth, fel yr amlinellir yn nogfen fframwaith yr MoJ/OPG.


## Fframwaith llywodraethu

Mae effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r OPG, rheoli risg a'r system rheoli mewnol wedi'u hamlinelli yn y datganiad llywodraethol hwn.

Mae'r datganiad yn cynnwys yr asesiad gofynnol o gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol y Trysorlys. Tra bod ffocws y cod ar adrannau gweinidogol, ble fo'n berthnasol, mae'r OPG yn gweithredu'r egwyddorion y mae'n ystyried sy'n gymesur gyda'i faint, statws a fframwaith cyfreithiol.

## Fframwaith llywodraethu'r OPG

Dangosir strwythur cyfredol y bwrdd a'r pwyllgorau yn y diagram isod.



## Gwaith y bwrdd

Yn 2016/17, roedd y bwrdd yn arwain yr OPG yn strategol ac yn weithredol. Roedd hefyd yn craffu ar ac yn herio materion yn effeithio ar ein perfformiad a pholisïau. Mae gan y bwrdd 8 prif faes o gyfrifoldeb:

- amddiffyn a gwella enw da'r OPG. Mae'n gwneud hynny trwy lywio a goruchwylio cyfeiriad yr OPG wrth gyflawni ei nodau ac amcanion
- gweithredu o fewn dogfen fframwaith yr MoJ/OPG fel y cytunwyd gan y Gweinidog a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol priodol. Mae ei aelodau yn gwneud penderfyniadau ar y cyd ac nid fel cynrychiolwyr yr ardaloedd busnes maen nhw'n arwain ar
- darparu cyfeiriad strategol ar gyfer yr OPG, cytuno ar amcanion busnes, nodau a chynllunio, tra'n gosod targedau ar gyfer y sefydliad a chyflwyno'r weledigaeth
- monitro perfformiad yr OPG, cyfathrebu gyda staff ar werthoedd ac ymddygiad tra'n goruchwylio gweithrediadau a rheoli risg
- cymeradwyo dyraniad y gyllideb flynyddol ac unrhyw newidiadau sylweddol iddi yn ystod y flwyddyn
- cefnogi'r gwaith o gynnal perthynas waith gref rhwng staff yr OPG a'i sefydliadau partner
- cymeradwyo fframwaith a rheoliadau llywodraethu corfforaethol yr OPG, a monitro eu gweithrediad bob chwarter
- sicrhau bod y gwaith o gynllunio, perfformio a rheolaeth ariannol yr OPG yn cael ei wneud yn effeithiol ac yn effeithlon a gyda agoredrwydd a thryloywder. Hefyd, cyfrannu at ddatblygu cynllun busnes blynyddol yr OPG, a'i gymeradwyo.

## Llwyddiannau ac effeithiolrwydd allweddol

Yn ychwanegol at dderbyn papurau cyllid, perfformiad a risg ym mhob cyfarfod, mae;'r bwrdd hefyd:

- wedi cael eu hymgynghori, a chymeradwyo, cynllun busnes 2016/17 a'r strategaeth sefydliadol, gan ddefnyddio'r dogfennau hyn i adolygu a monitro cynnydd ym mhob cyfarfod trwy dderbyn adroddiadau misol ar gyllid a pherfformiad; hefyd gan ymgorffori thema'r cynllun busnes yn yr agenda bob yn ail fis
- wedi cefnogi'r prosiect ystadau i alluogi ailstrwythuro i'r llety yn y ddwy swyddfa ym Mirmingham a Nottingham
- wedi talu sylw penodol i dasgau allweddol a gweithgareddau 'dyfnach' gan gynnwys monitro gweithrediad y rheoliadau gwario; datblygu methodoleg rhagweld galw cadarn, herio effeithiolrwydd prosiectau a rhaglenni i ychwanegu gwerth nawr ac yn y dyfodol, adolygu ein model gweithredu, galluedd a ffyrdd o weithio yn y dyfodol, lefelau absenoldeb a rheoli presenoldeb, a'r arolwg staff a gweithgareddau ymrwymo staff
- wedi cefnogi gweithrediad y model arwain swyddogaethol ym mis Tachwedd 2016 yn dilyn cyhoeddiad gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Richard Heaton, yn ymwneud â newidiadau ar draws yr MoJ. Mae tair ardal busnes yn yr OPG bellach yn adrodd yn uniongyrchol i arweinwyr eu swyddogaeth yn yr MoJ
- wedi cymeradwyo argymhellion i addasu'r ffioedd pŵer atwrnai, gan gyflwyno'r newid ym mis Ebrill 2017
- wedi arnodi neu gymeradwyo'r adroddiad ar Ymrwymiad gyda'r Sector Ariannol, cynllun pobl yr OPG, cyflwyno'r offeryn adrodd i ddirprwyon a chynigion i ganolbwyntio ar 4 segment y farchnad i godi ymwybyddiaeth o LPAs, gan ganolbwyntio ar ddementia a materion iechyd ehangach.

## Ein his-bwyllgorau a'r pwyllgor cynghori annibynnol

Mae gan y bwrdd dau is-bwyllgor: y tîm rheoli gweithredol (EMT) a'r pwyllgor newid (a oedd yn cael ei alw'r Pwyllgor Trawsnewid Rhaglenni yn flaenorol). Mae pwyllgor archwilio a risg yr OPG yn bwyllgor cynghori annibynnol i'r bwrdd. Mae'r bwrdd yn dirprwyo gwaith i'r pwyllgorau/gweithgorau er mwyn i grwpiau llai allu archwilio manylion mewn mwy o fanylder. Yna mae'r pwyllgorau'n adrodd ar eu canfyddiadau i'r bwrdd eu trafod a dod i gasgliadau amdanynt (yn dilyn 'Llywodraethu corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganol: Cod Arfer Da').

| | Y Tîm Rheoli Gweithredol | Y Pwyllgor Newid | Y Pwyllgor Archwilio a Risg |
|---|---|---|---|
| **Rolau a chyfrifoldebau** | Canolbwyntio ar gyflwyniad gweithredol busnes yr OPG o ddydd i ddydd, gan gynnwys: cyllid, perfformiad, risg, newid/cynllunio'r gweithlu, cwynion,<br><br>Adnoddau Dynol (rheoli presenoldeb, recriwtio), cyflwyno busnes, arwain, ymgysylltiad â gweithwyr a dathlu llwyddiant. | Dod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd o ledled yr OPG, y Grŵp Polisi a Chyfiawnder (JPG), TG yr MoJ a'r partneriaid cyflwyno, Gwasanaethau Digidol yr MoJ a Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth er mwyn sicrhau bod y rhaglen trawsnewid yn rhedeg yn effeithio, yn benodol trwy ddarparu'r prif fforwm ar gyfer y berthynas rhwng cydweithwyr yr OPG, MoJ, Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, JPG a chydweithwyr trawsnewid. | Darparu barn annibynnol o briodoledd, digonolrwydd a gwerth am arian ein prosesau llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth a sicrwydd cysylltiedig a chynghori'r Swyddog Cyfrifyddu a Bwrdd yr OPG ar y canlynol:<br>• prosesau ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu a'r datganiad llywodraethu<br>• digonolrwydd gweithdrefnau diogelwch a sicrwydd gwybodaeth gyda rheoliadau yn benodol yn ymwneud â diogelwch gweithdrefnau a chyfrifoldebau gwybodaeth<br>• polisïau cyfrifo a chyfrifon yr OPG<br>• gweithgarwch arfaethedig a chanlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol<br>• digonolrwydd ymatebion rheolwyr i faterion a ddaeth i'r amlwg trwy weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyron rheoli archwiliadau mewnol ac allanol<br>• sicrwydd yn ymwneud â'r MoJ a gofynion llywodraethu corfforaethol<br>• digonolrwydd polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig |
| **Cadeirydd** | Alan Eccles, Gwarcheidwad Cyhoeddus/Prif Swyddog Gweithredol a'r Swyddog Cyfrifyddu | Alan Eccles, Gwarcheidwad Cyhoeddus/Prif Swyddog Gweithredol a'r Swyddog Cyfrifyddu | Dean Parker, Cyfarwyddwr Anweithredol |

| | Y Tîm Rheoli Gweithredol | Y Pwyllgor Newid | Y Pwyllgor Archwilio a Risg |
|---|---|---|---|
| **Llwyddiannau ac effeithiolrwydd allweddol** | Wedi parhau i adeiladu ar berfformiad a'i swyddogaeth fel hwb ariannol fel modd o reoli perfformiad a rhagweld llwythi gwaith yn y dyfodol, gan gyflawni'r llwyddiannau a adroddwyd yn yr adroddiad perfformiad.<br><br>Bu aelodau EMT gynrychioli'r sefydliad mewn digwyddiadau allanol a'r sawl a gynhelir gan yr OPG trwy gydol y flwyddyn.<br><br>Yn derbyn adroddiadau rheolaidd o'r uwch dîm rheoli mewn meysydd megis Gwobrwyo a Chydnabod, Rheoli Presenoldeb, Proffilio'r Gweithlu ac Adolygu Polisi.<br><br>Wedi hwyluso cyfres o ddigwyddiadau arweinyddiaeth i godi safonau a gallu ar draws y fframwaith rheoli gan gynnwys digwyddiadau ar gyfer holl reolwyr canol yr OPG.<br><br>Wedi llwyddo rheoli'r trefniadau ar gyfer staff a oedd yn gadael o dan y cynllun ymadael yn gynnar yn wirfoddol ym mis Medi 2016 gyda sensitifrwydd.<br><br>Wedi cefnogi cyflwyniad yr Hwb Gweithredu ar Lesiant Meddwl.<br><br>Sicrhau bod gan gynrychiolwyr o rwydwaith Project Race and Proud gyfleoedd i ymrwymo gyda'n staff.<br><br>Arwain gweithgareddau ymrwymo ar draws y busnes, gan ymateb i ganlyniadau'r Arolwg Pobl. | Mae'r OPG wedi symud tuag at fframwaith ffurfiol i reoli portffolios er mwyn rheoli prosiectau a rhaglenni o fewn y portffolio penodol a amlinellwyd gan Fwrdd yr OPG ac a reolir gan y pwyllgor newid.<br><br>Mae'r pwyllgor wedi dirprwyo awdurdodaeth i gymeradwyo newidiadau arfaethedig a'u symud trwy gyfnodau pontio yn ystod eu hoes. Caiff newid ei reoli gyda chymorth dangosfwrdd portffolio ac adroddiad i helpu monitro pob newid a datblygu unrhyw eithriadau, materion, ceisiadau i symud ymlaen trwy gyfnod neu ragori ar oddefiannau penodol a amlinellwyd gan y pwyllgor.<br><br>Derbyniodd y pwyllgor gais i adnewyddu ei gylch gorchwyl er mwyn sicrhau ei bod yn darparu'r gwerth gorau fel bwrdd llywodraethu ym mis Ebrill 2016. Roedd hyn yn canolbwyntio ar agenda diwygiedig, gan ymgorffori'r portffolio newydd ac yn cyflwyno arfer gorau yn ehangach ar draws y llywodraeth er mwyn sicrhau bod y trafodaethau cywir yn digwydd ar y lefel cywir o graffu. O ganlyniad, mae aelodau o'r pwyllgor hefyd wedi cael ei adnewyddu i gynorthwyo grŵp hyblyg o bobl sy'n mynychu'r trafodaethau mwyaf priodol pan fo angen.<br><br>Trwy gydol y flwyddyn, mae'r pwyllgor wedi monitro cam 2 o'r rhaglen trawsnewid digidol a chefnogi'r rhaglen yn ystod cyfnod heriol o ran sicrhau adnoddau. Mae'r pwyllgor wedi gweithio gyda'r rhaglen i sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn cael eu blaenoriaethu a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau yn erbyn y dyraniad cyfalaf trwy ddarparu her a datrys rhwystrau sy'n codi. Mae'r pwyllgor hefyd wedi comisiynu sesiwn gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â'r adolygiad ar y porth a gynhaliwyd cyn cychwyn cam dau. Penderfynwyd hefyd i benodi arbenigwr | i gefnogi OPG i fudo'r ddwy system cyllid er mwyn harmoneiddio systemau cyllid ac Adnoddau Dynol yr asiantaeh gyda rhai'r MoJ. Mae hwn wedi bod yn gyfnod hynod heriol sydd wedi peri risgiau sylweddol i gyflwyniad amcanion y busnes ac mae'r pwyllgor wedi bod yn fodlon gyda'r ymatebion i leddfu'r risgiau hyn.<br><br>Cefnogi'r OPG wrth weithio gyda'r MoJ i ddatrys y mater o ffioedd a chostau.<br><br>Gwelliant parhaus o'r broses o gau cyfrifon ar gyfer 2016/17.<br><br>Monitro parhaus i sicrwydd gwybodaeth, yn enwedig y paratoadau sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â Rheoliad Amddiffyn Data Cyffredinol yr UE sydd ar y gweill.<br><br>Cymryd rhan mewn gweithdy risg gyda swyddogion gweithredol a chraffu ar risgiau ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys adrodd ar risgiau sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Annog a chefnogi'r busnes i gymryd barn mwy cymesur ar reoli risg.<br><br>Sicrhau bod sgorau risg yn adlewyrchu'r risg cyffredinol i'r busnes a bod risgiau allanol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg hefyd yn cael eu cipio a'u hystyried gan swyddogion gweithredol.<br><br>Craffu ar risgiau allweddol a dealltwriaeth o ardaloedd busnes penodol trwy gyfres o sesiynau 'ystyriaeth ddofn'.<br><br>Cefnogi'r OPG yn y defnydd o fodel rhagweld galw newydd y gellir ei defnyddio i ragweld llif gwaith, incwm ac adnoddau.<br><br>Cefnogi'r OPG i gyflawni gwelliannau sylweddol yn ansawdd y llywodraethu a rheoli fel y dangosir mewn adroddiadau a dderbyniwyd o Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth.<br><br>Cefnogi'r OPG yn ystod newidiadau sefydliadol gan gynnwys cynlluniau ymadael yn gynnar yn wirfoddol a symudiadau tuag at roi arweinyddiaeth swyddogoaethol ar waith ar draws tair ardal allweddol: cyllid, digidol a chyfathrebu.<br><br>Cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y pwyllgor, ei aelodaeth ac agenda. |

| | Y Tîm Rheoli Gweithredol | Y Pwyllgor Newid | Y Pwyllgor Archwilio a Risg |
|---|---|---|---|
| **Llwyddiannau ac effeithiolrwydd allweddol (parhad)** | Wedi rheol trosglwyddiad y swyddogaethau cyllid, digidol a chyfathrebu i mewn i'r model arwain swyddogaethol. | adnodd i reoli mudo data o'r systemau rheoli achos cyfredol i system newydd Sirius, gan gydnabod cymhlethdod y dasg.<br><br>Mae'r pwyllgor wedi comisiynu'r swyddfa rheoli newid i wneud adolygiad o'r prosiect adolygu dysgu a datblygu a'r llyfrgell ddysgu ddigidol i werthuso'r buddion a'r cynnydd arfaethedig. O ganlyniad, mae'r prosiect adolygu dysgu a datblygu wedi cael ei derfynu. Hefyd, mae prosiect y llyfrgell ddysgu ddigidol wedi adolygu ei blaenoriaethu a chadarnhau ei chynllun gwireddu buddion a'i chynllun rheoli risg er mwyn parhau.<br><br>Mae'r prosiect datblygu a dylunio sefydliadol wedi cael ei adolygu yn ystod ei oes gan fod y pwyllgor wedi pennu ei fod yn rhagori ar oddefiant ei gwmpas. Mae hyn wedi caniatáu i'r prosiect flaenoriaethu'r elfennau y mae am eu cyflwyno ac mae bellach wedi cael ei gau'n ffurfiol, ac mae'r camau gweithredu a oedd yn weddill nawr yn ffurfio rhan o strategaeth y cynllun pobl.<br><br>Fe roddodd y pwyllgor cymeradwyaeth i'r swyddfa rheoli newid beilota rhai prosiectau nad sy'n rhan digidol gan ddefnyddio methodoleg a thechnegau ystwyth i gyflwyno gwerth a buddion yn gynt nag y gallai technegau rheoli prosiect traddodiadol wneud. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r OPG wedi gweld buddion yn cael eu cyflwyno'n gynnar ac adnoddau'n cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol. | |

## Presenoldeb y bwrdd/pwyllgor

| | Bwrdd yr OPG | | Tîm Rheoli Gweithredol | | Pwyllgor Archwilio a Risg | | Y Pwyllgor Newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys |
| Alan Eccles, Prif Swyddog Gweithredol a Gwarcheidwad Cyhoeddus | 10 | 12 | 10 | 12 | 4 | 4 | 1 | 5 |
| Karen Morley, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | 11 | 12 | 12 | 12 | 4 | 4 | 3 | 5 |
| Iain Dougall, Pennaeth Gweithrediadau | 11 | 12 | 10 | 12 | | | 5 | 5 |
| Angela Johnson, Pennaeth Goruchwylio, Ymarfer a Chydymffurfio | 9 | 12 | 11 | 12 | | | 1 | 5 |
| Ria Baxendale, Pennaeth Goruchwylio ac Ymchwiliadau | 11 | 12 | 11 | 12 | | | 2 | 5 |
| Chris Jones, Pennaeth Strategaeth a Datblygiad Busnes | 12 | 12 | 9 | 12 | | | 4 | 5 |
| Dean Parker, Cyfarwyddwr Anweithredol; Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg | 10 | 12 | | | 4 | 4 | | |
| Janet Grossman, Cyfarwyddwr Anweithredol | 12 | 12 | | | | | 5 | 5 |
| Yr Athro Anthony Schapira, Cyfarwyddwr Anweithredol | 10 | 12 | | | 2 | 4 | | |
| Anne Fletcher, Aelod Annibynnol | | | | | 4 | 4 | | |
| Dr Elizabeth Gibby, Dirprwy Gyfarwyddwr yr MoJ, Strategaeth a Pholisi Arbenigol | 9 | 12 | | | | | | |
| Sally Jones, Pennaeth Cyfreithiol, Dirprwy Gyfarwyddwr | 6 | 12 | 6 | 12 | | | | |
| Steve Rider, Pennaeth Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (hyd at fis Medi 2016) | 6 | 6 | 5 | 5 | | | | |
| Helen Journeaux, Pennaeth Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (o fis Tachwedd 2016) | 6 | 6 | 4 | 7 | | | 1 | 2 |
| Jane Fallon, Pennaeth Digidol (o fis Tachwedd 2016) | | | | | | | 0 | 1 |
| Liz Eaton, Grŵp Polisi a Chyfiawnder | | | | | | | 4 | 5 |
| Jeannine Hoechx, Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth | | | | | | | 4 | 5 |

Mae'r Pennaeth Cyfreithiol a Phennaeth y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn mynychu'r bwrdd trwy wahoddiad.

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol/Gwarcheidwawd Cyhoeddus a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol yn mynychu ARC trwy wahoddiad.

## Cylch gorchwyl

Mae cylch gorchwyl (ToR) Bwrdd a phwyllgorau'r OPG yn cyd-fynd ag Arweiniad y Cyngor Adrodd Ariannol ar Effeithiolrwydd Byrddau (Mawrth 2011) a'r Safon Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig dros Gyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA)/y Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus Cyf (OPM), er mwyn sicrhau bod ei drefniadau llywodraethu wedi'u hadlewyrchu o fewn y ToRs. Mae'r ToRs yn sicrhau cysondeb ac eglurdeb o ran llywodraethu ledled y busnes, yn sicrhau bod llinellau clir o ran gwneud penderfyniadau ac yn cryfhau perchnogaeth ac atebolrwydd fframwaith llywodraethu cyffredinol yr OPG.

## Archwiliad mewnol

Fel Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr, rwyf wedi sefydlu a chynnal trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol o Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) o fewn yr OPG yn unol â'r amcanion a'r safonau ar gyfer archwilio mewnol a amlinellir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM).

Mae gan dîm y GIAA hawl i fynediad i'r OPG i gefnogi cyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol fel Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n cynnwys mynediad at yr holl lyfrau, cofnodion, data, asedau, personél ac adeiladau'r OPG yn unol â'r hyn sy'n ddymunol neu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni dyletswyddau'r OPG. Mae'r MoJ yn derbyn copïau o gynlluniau archwiliadau mewnol blynyddol yr OPG ac adroddiad blynyddol gennyf. Mae'r MoJ yn cael ei hysbysu o unrhyw dwyll neu anghysondeb o fewn y diffiniad a amlinellir gan Drysorlys EM.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyhoeddwyd 8 adroddiad am waith yn ymwneud â 2016/17. O'r rhain, derbyniodd 7 adroddiad raddau sylweddol gyda'r llall yn derbyn gradd gymedrol. Ni nodwyd unrhyw feysydd critigol o wendid mewn unrhyw un o'r archwiliadau.

Ar sail y gwaith gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a gwybodaeth o lywodraethu, rheoli risg a rheoliadau mewnol yr OPG:

- Darparodd yr archwiliad mewnol lefel sylweddol o sicrwydd. Mae'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli yn ddigonol ac yn effeithiol.


## Rheoli risg, rheoli a sicrwydd

Mae gan yr OPG ymagwedd sydd wedi ei hen sefydlu at reoli risg ar bob lefel ar draws y sefydliad. Defnyddir rheoli risg ar draws yr OPG fel offeryn galluogi i annog arloesi ac effeithiolrwydd. Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei hadolygu gan bob un o'r cyfarfodydd llywodraethu craidd (y tîm rheoli gweithredol, y bwrdd a'r pwyllgor archwilio a risg) bob chwarter, gan roi sicrwydd misol bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. Ceir rhagor o fanylion ar y risgiau a reolwyd yn 2016/17 ar dudalennau 46-47.

Mae'r risgiau sydd yn is na lefel corfforaethol yn cael eu cofnodi a'u rheoli ar lefel y gyfarwyddiaeth gan ddefnyddio cofrestri risg sefydledig. Mae risgiau rhaglenni a phrosiectau'n cael eu rheoli ar wahân gan ddefnyddio cofrestri risg ffurfiol a, ble fo angen, mae risgiau'n cael eu symud i fyny i'r gofrestr risgiau corfforaethol.


Mae cofrestr pob maes busnes yn cael ei hadolygu bob 6 mis gan y Swyddog Cyfrifyddu a'r pennaeth gwasanaethau corfforaethol gyda pherchnogion y risgiau er mwyn darparu sicrwydd pellach.

## Strwythur sicrwydd yr OPG




Mae'r OPG yn mabwysiadu ymagwedd o 'dair llinell o amddiffyniad' at sut rydym yn rheoli risgiau, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a galluogi sicrwydd effeithiol.

## Tair llinell o amddiffyniad



## Fframwaith sicrwydd risgiau



Chwant risg yr OPG yw ei bod yn ystyried ei hun i fod yn sefydliad arloesol sy'n edrych tuag at y dyfodol, ac sy'n fodlon cymryd a rheoli risgiau yn y meysydd canlynol:

- moderneiddio a thrawsnewid yr OPG i fuddio'r cwsmer trwy offer digidol
- cynyddu ymwybyddiaeth o'i wasanaethau i ddarparu delwedd gadarnhaol ac enw da
- taro cydbwysedd rhwng grymuso ac amddiffyn wrth annog cleientiaid i wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Mae'r OPG yn llai fodlon goddef risg yn y meysydd canlynol:

- gweithredu swyddogaeth a phwerau statudol y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn effeithiol
- darparu gweithdrefn archwilio yn seiliedig ar risg ar gyfer dirprwyon a sicrhau bod amddiffyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer oedolion mewn peryg gan adnabod, atal a stopio camdriniaeth ble fo'n bosib
- llywodraethu mewnol a systemau rheoli newid.

Ym mis Mehefin 2016, cynhaliwyd gweithdy risg gyda swyddogion gweithredol yr OPG ac aelodau anweithredol y pwyllgor archwilio a risg i drafod y risgiau ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn y dyfodol.

## Risgiau corfforaethol a reolwyr yn 2016/17

Ymhlith y risgiau a nodwyd roedd presenoldeb staff, twf y gweithlu, dargadw'r gweithlu, gwireddu buddion o'r trawsnewidiad digidol a strwythur ffioedd y dyfodol.

Y risgiau a nodwyd a oedd ar ddod oedd rhagweld galw, cynhyrchu incwm yn y dyfodol, rheoleiddio amddiffyn data a sicrhau eglurder ar lywodraethu yn dilyn cyflwyniad y moden arwain swyddogaethol.

Ymhlith y materion a godwyd yn ystod y cyfnod hwn oedd symud i'r Platfform Gweithredu Unigol, mudo hen ddata, cyflawni targedau cyflawni LPA a diffyg lefel staff a broffiliwyd.

Roedd y risgiau a materion hyn yn gynwysedig ar gofrestr risg yr OPG a chawsant eu hanfon at y meysydd busnes perthnasol i'w diweddaru. Roedd y gwaith diweddaru'n cynnwys gwerthuso symudiad, rheoli a gweithredu ar y risgiau.

Mae rhagor o fanylion ar y risgiau a godwyd yn ystod y cyfnod hwn yn y tabl drosodd.

| Prif risgiau | Cam gweithredu allweddol |
|---|---|
| **Sirius a chipio dogfennau a data (DDC)** | |
| Nid yw gweithrediadau'n gallu gwireddu'r buddion o roi Sirius ar waith a darparu gwasanaeth effeithiol, cywir o ansawdd uchel wrth gofrestru LPAs. Methu trawsnewid gwasanaethau cyfredol trwy'r cyflwyniad digidol ehangach | • Adolygu'r holl brosesau gweithredu i greu gweithdrefnau gweithredu safonol tra bod gwaith ar Sirius wedi cael ei blaenoriaethu er mwyn sicrhau bod gweithrediadau'n cael y datrysiadau sydd eu hangen ar frys yn gyntaf.<br>• Mae sefydlogrwydd y system o fewn cipio dogfennau a data (DCC) wedi gwella'n sylweddol, gan ganiatáu i weithrediadau glirio'r holl waith wrth gefn gyda phrosesau gwell i gipio ac adnabod data.<br>• Tîm pŵer atwrnai parhaus yn gweithredu'n llawn erbyn mis Chwefror 2017.<br>• Wedi hurio datblygwyr ac wedi cynhyrchu cynllun gweithredu busnes yn dynodi argraffiadau system bob 3 wythnos, tra bod datblygwyr wedi trwsio problemau.<br>• Glanhad Meris yn cael ei adolygu gan y Prif Swyddog Gweithredu, trwyddedau Meris ar gyfer y sawl sydd angen trwyddedau a blaenoriaeth i gwblhau gwalth diwedd blwyddyn. |
| **Slot deddfwriaethol** | |
| OPG yn methu â pharatoi ar gyfer/ methu ag ennill slot deddfwriaethol ar gyfer nifer o brosiectau gan gynnwys cael gwared â llofnodion gwlyb, a chyflwyno arbedion yn y costau. | • Timau'r OPG yn parhau i weithio gyda'r MoJ/Trysorlys a'r sector cyfreithiol i baratoi ar gyfer slot deddfwriaethol yn y dyfodol.<br>• Nid yw deddfwriaeth gwbl ddigidol yn gynwysedig yn y bil cyfredol.<br>• O ran ffioedd, nid fydd rhai o gynigion yr MoJ yn cael eu symud ymlaen ond bydd y pwerau o fewn y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael ei defnyddio wrth osod ffioedd PoA yr OPG i'w cyflwyno ar 1 Ebrill 2017.<br>• Bydd yr opsiynau'n cael eu hasesu er mwyn symud ymlaen gyda datrysiad digidol llawn o fewn y ddeddfwriaeth gyfredol. |
| **Twf staffio** | |
| Ni all yr OPG gynnal ei dadl o ran twf yng nghyd-destun ehangach yr MoJ/ digidol a rhaid cyfyngu ar dwf neu ostwng proffil ei gweithlu. | • Roedd gweithdy i adolygu rhagolygon llwyth gwaith, rhagdybiaethau gallu cynhyrchu ac adnoddau ar gyfer materion a fydd yn codi.<br>• Cytunwyd ar y proffil staff o fewn cyfnod yr Adolygiad Gwariant gyda phencadlys MoJ.<br>• Mae angen ymdrech parhaus i gynnal y sefyllfa ar berfformiad gweithredol.<br>• Mae'r proffiliau'n cael eu monitro'n gyson gydag ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael ag anghysondebau'n brydlon, bydd cynnydd yn cael ei adrodd yn ffurfiol i'r tîm rheoli gweithredol a Bwrdd yr OPG. |
| **Methiant y systemau rheoli hen achosion** | |
| Yn arwain at analluedd i reoli achosion o oruchwyliaeth a materion yn ymwneud â chyflwyno ceisiadau i'r llys am ymchwiadau. | • Gofynnodd rheolwyr gwasanaethau bod gweinyddion yn cael eu hystyried ar gyfer prosiect ail-adeiladu'r MoJ, nid oeddent o fewn y cwmpas felly mae'r canlyniad yn isel.<br>• Defnyddir goramser i ddal i fyny gyda gwaith ac mae gwiriadau'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod cofnodion blaenorol yn cael eu cadw'n gywir.<br>• Gallu lleol i ailgychwyn y system yn bosib os oes disgwyl amserau aros hwy er mwyn i beirianyddion a gontractiwyd gyrraedd.<br>• Mae cynlluniau wrth gefn tymor byr a hir dymor bellach yn eu lle ar gyfer timau goruchwylio. |
| **Cyfarwyddeb yr UE a'r Rheoliad Amddiffyn Data Cyffredinol (GDPR)** | |
| Nid yw'r OPG yn barod ar gyfer GDPR pan ddaw'n weithredol ym mis Mai 2018. | • Diweddarwyd asedau gwybodaeth i adolygu'n gynhwysfawr yn erbyn gofynion y GDPR newydd.<br>• Roedd 2 uwch reolwr yr OPG yn ymgymryd â chymwysterau sylfaenol ac ymarferwr GDPR yn ystod 2017.<br>• Cynhaliwyd gweithdai mapio data peilot ym mis Ionawr 2017 a nododd ardaloedd y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer gwaith cydymffurfio.<br>• Angen coladu mapiau taith cwsmeriaid i bennu 'llif data personol' trwy ffrydiau busnes craidd a hysbysu'r camau nesaf. |

| Prif faterion | Prif gamau gweithredu i'w datrys |
|---|---|
| **Staffio** | |
| Lefelau staffio'n cwympo'n is na'r proffil. Mae swyddi gweigion wedi cynyddu gyda'r amser i lenwi'r swyddi gweigion hynny hefyd wedi cynyddu. | • Cyflwynwyd achos gadarn i'r MoJ i gefnogi recriwtio a phroffiliau staffio.<br>• Cymeradwywyd cynllun pobl yr OPG gan y bwrdd a'i blaenoriaethu i'w gyflwyno.<br>• Archwiliwyd prentisiaethau er mwyn cynorthwyo recriwtio a dargadw staff. |
| **Platfform Gweithredu Unigol (SOP)** | |
| Newid i'r system gweithredu gan effeithio ar wasanaethau cwsmeriaid a thrafodion ariannol. | • Cynyddu proffil staffio yn y gangen gyllid dros gyfnod y newid a sicrhau bod y llyfr gwerthiant yn cael ei diweddaru.<br>• Mapiau prosesau wedi'u rhannu gyda thimau OPG digidol, SSCL a SOP.<br>• Wedi cyfathrebu negeseuon allweddol a'r hyfforddiant sydd ar gael i bob aelod o staff.<br>• Mwyafrif yr SOP yn gweithio wedi ei gyflwyno, fodd bynnag, ymddengys bod ymrwymiad â'r llyfr gwerthiant yn broblem. |

Ar ben hynny, fe reolwyd y risgiau canlynol hyd at eu datrys yn ystod y flwyddyn:

- Rheoli presenoldeb – fe wellodd nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd o 8.7 fel yr adroddwyd ym mis Mawrth 2016 i 7.9 diwrnod ar gyfartaledd erbyn mis Rhagfyr 2016. Bu mentrau mewnol a gweithdai yn cyflwyno'r polisi newydd gynorthwyo gyda'r gostyngiad. O ganlyniad, fe gyflawnwyd y targedau.
- Ystadau – daeth yr adeilad newydd yn Nottingham yn gwbl weithredol, fe gwblhawyd ail-drefniant o fannau desg yn Birmingham ynghyd ag estyniad pellach o lety gan olygu y gellid cau'r risg hon ym mis Hydref 2016.
- Slot deddfwriaethol – daeth cynlluniau i symud ymlaen gyda newidiadau deddfwriaethol i ben gan i ni beidio â gallu sicrhau slot deddfwriaethol o fewn yr amserlen seneddol.
- Sefydlogrwydd platfform ar gyfer trawsnewidiad digidol – optimeiddio gallu rhaglenni digidol, pensaer technegol ar gael i fis Chwefror 2017 i symud ymlaen gyda'r mater.
- Ffi pŵer atwrnai – derbyniwyd cymeradwyaeth Seneddol ym mis Mawrth 2017 i addasu'r ffi o'r 1 Ebrill 2017.

## Goruchwylio'r broses sicrwydd

Roedd gweithgarwch Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth yn 2016 a 2017 (ynghyd ag unrhyw archwiliadau dilynol) yn cynnwys yr archwiliadau canlynol yn seiliedig ar risg:

- archwiliadau strategol ar strategaeth ystadau; strategaeth cyfathrebu a cham 2 y trawsnewidiad digidol
- archwiliadau corfforaethol ar wybodaeth gwybodaeth
- archwiliadau ariannol ar y fframwaith rheoli ariannol (incwm ac adfer dyledion) a rheoli rhagweld galw
- archwiliad gweithredol ar reoli ymchwiliadau.

Mae'r adroddiadau terfynol ar yr 8 archwiliad a dderbyniwyd y cyfnod hwn yn dynodi bod y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli yn ddigonol ac yn effeithiol, rhoddwyd raddau sylweddol i 7 ac argymhellion cymedrol, gydag 1 adroddiad yn derbyn gradd cymedrol gan wneud 1 argymhelliad sylweddol yn unig. Mae cynnydd da ar reoli risg o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol pan dderbyniwyd canlyniadau cymedrol.

Gweithdrefn fewnol yw'r weithdrefn sicrwydd risg (RAP) i ddarparu sicrwydd a rhoi gwybod am eithriadau yn erbyn risg lefel isel o ddydd i ddydd (heb eu cynnwys yng nghofrestri risg yr ardaloedd busnes). Yn ystod cyflwyniad i Fwrdd yr OPG ym mis Tachwedd 2016, fe gytunwyd coladu adroddiadau chwarterol o'r broses hon trwy dystysgrif dangosfwrdd.

Yr adroddiadau eraill a wnaed i'r MoJ sy'n darparu sicrwydd yw'r adroddiad blynyddol ar fframwaith y polisi diogelwch, yr adroddiad blynyddol ar sicrwydd iechyd a diogelwch corfforaethol, adroddiadau chwarterol ar offeryn dilyniant busnes i adran ddiogelwch yr MoJ, adroddiadau chwarterol ar y cynllun gweithredu ar dwyll, metrig ac adroddiadau i grŵp cyllid yr MoJ, a cheisiadau data cyfunol i Swyddfa'r Cabinet/y Trysorlys.

## Gwrth-dwyll a llwgrwobrwyo

Mae gan yr OPG gynllun ymateb i dwyll sy'n tanategu Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo'r MoJ. Fel aelod o Weithgor Gwrth-dwyll yr MoJ, rydym yn gallu tynnu ar brofiad o ledled yr adran, os oes angen, a chefnogi gwaith tîm twyll, camgymeriadau, dyled a grantiau Swyddfa'r Cabinet.

Nid oedd adroddiadau o unrhyw ddigwyddiadau o dwyll allanol yn erbyn yr OPG yn ystod 2016/17.

Derbyniwyd nifer o gwynion am y ffioedd a godir gan drydydd partïon a oedd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chwsmeriaid yr OPG. Nid oedd y cwynion hyn cyfwerth ag unrhyw dwyll yn erbyn yr OPG; cynghorwyd cwsmeriaid i gysylltu â Safonau Masnach Lleol neu Action Fraud.

Bydd rhaglen ddiwygiedig o hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o dwyll yn cael ei chyflwyno yn ystod y flwyddyn fusnes nesaf a bydd y sesiynau arfaethedig hefyd yn sôn am agweddau o ddiogelwch.

## Adroddiadau chwythu'r chwiban

Soniwyd am gyfanswm o 5 achos trwy'r rhwydwaith chwythu'r chwiban; roedd mwyafrif yr achosion hyn yn ymwneud â honiadau o gam-drin y polisi amser hyblyg. Yn dilyn ymchwiliadau, ni ategwyd 2 o'r atgyfeiriadau hyn ac arweiniodd 3 achos at gamau gweithredu pellach dan weithdrefnau disgyblu. Cyhoeddwyd gohebiaeth fewnol yn atgoffa staff o'r polisi, eu hymddygiad a goblygiadau torri'r polisi. Dangosodd Arolwg Pobl yr OPG bod 69% o staff yn gwybod sut i fynegi pryder o dan god y Gwasanaeth Sifil. Ar ben hynny, roedd 63% o staff yn hyderus y byddai pryderon yn cael eu harchwilio'n briodol. Mae'r ddwy sgôr yn welliant ers arolwg 2015 ac yn darparu dynodiad da o aeddfedrwydd yr OPG yn yr ardal hon.

## Dilyniant busnes

Mae'r OPG wedi datblygu a chynnal cynlluniau rheoli digwyddiadau a dilyniant busnes i reoli'r risg ar darfu ar weithrediad a sicrhau ei bod yn ymateb yn effeithiol ac yn cynnal gweithrediad ac adferiad parhaus y busnes. Mae gan yr OPG ymarferwr dilyniant busnes cymwys i alluogi ymateb effeithiol i ddigwyddiadau sy'n tarfu ar weithrediad a system strwythuredig o ran dychwelyd i weithio fel arfer sy'n cynnwys ymarferion hyfforddiant i brofi tybiannau cynllunio.

Ceir manylion o doriadau neu amhariadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn isod.

- Ebrill 2016 – mân effaith – toriad trydanol am o leiaf 2 awr ar sawl llawr o adeilad Axis, Birmingham, defnyddiwyd desgiau eraill a oedd ar gael am gyfnod byr.
- Ebrill 2016 – effaith fawr – colli systemau TG ym mhob un o safleoedd yr OPG oherwydd esgeulustod o ran adnewyddu'r drwydded gyda BT. Cwblhawyd gwaith â llaw ac fe ddatryswyd y broblem yn sydyn.
- Awst 2016 – effaith ganolig – y gweinydd yn methu gweithio ar gyfer gwaith achos, gostyngiad yn y gwasanaeth gan arwain at waith wrth gefn ar gyfer rhai ardaloedd busnes am dros 10 niwrnod gwaith.

- Tachwedd 2016 – mân effaith – toriad trydan mawr yn gynnar gyda'r nos mewn sawl ardal ym Mirminghan. Roedd rhaid gwacau adeilad Axis. Adferwyr y pŵer a doedd dim sôn am broblemau yn weddill.
- Chwefror 2017 – effaith ganolig – methiant y system ffôn ledled yr MoJ, nid oedd hyn wedi effeithio ar bob aelod o staff ond roedd y gallu i ddychwelyd i wasanaeth arferiol yn amrywio am weddill y diwrnod hwnnw.

Ar hyn o bryd rydym yn ail-ddylunio'r broses o ddadansoddi effaith ar y busnes (BIA) ar y cyd â'n swyddfa rheoli newid a thimau busnes. Y nod yw gwella sut rydym yn adrodd ar weithgareddau critigol ac yn eu dadansoddi. Bydd hyn hefyd yn cynnwys asesiad o effaith ar ddiogelwch nad ydym wedi'u hystyried eisoes. Cwblhawyd arolwg o liniaduron er mwyn pennu'r niferoedd cyfredol er mwyn cefnogi cynlluniau wrth gefn a gallu yn ymwneud â hyn.

Cynhyrchwyd cynllun wrth gefn ar gyfer y gaeaf a'i rannu gyda Swyddfa Ysgrifennydd Parhaol yr MoJ. Mae adroddiadau o doriadau yn cael eu hanfon bob chwarter i gangen diogelwch yr MoJ. Ar hyn o bryd mae'r OPG yn ystyried opsiynau ar gyfer cytundeb o'r ddwy ochr gyda'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar y potensial o rannu cyfleusterau fel mesur wrth gefn ar gyfer swyddfeydd Birmingham a Nottingham.

Mae'r OPG yn parhau i gydlynu cyfarfodydd yr MoJ yn ardal Birmingham o arweinwyr dilyniant busnes a hefyd yn cefnogi Swyddfa Pasbort EM Birmingham gyda'u gofynion dilyniant busnes.

## Diogelu gwybodaeth a sicrwydd

Mae arweinydd gweithredol ar sicrwydd gwybodaeth (IAEL) a benodwyd gan yr OPG yn cyflawni rôl uwch berchennog risg gwybodaeth (SIRO) gyda chefnogaeth y Pennaeth gwybodaeth, llywodraethu a chyfleusterau. Mae ymagwedd yr OPG yn gyson gyda pholisi'r llywodraeth gan gynnwys proses diogelwch gwybodaeth, cofrestri asedau, datganiad chwant risg gwybodaeth a risgiau gwybodaeth perthnasol, sydd wedi'u hymgorffori i'r gofrestr risg gorfforaethol.

Nod ein proses ymateb ar ôl digwyddiadau, a gyflwynwyd yn hydref 2012, yw cipio ac ymateb i unrhyw ddigwyddiadau o golled gwybodaeth. Mae'r proses yn cael ei fonitro'n barhaus ac fe gynhaliwyd adolygiad yn ystod haf 2016.

Mae'r rheoliadau'n cynnwys:

- gweithdrefnau rheoli yn benodol yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth a chyfrifoldebau staff
- mynediad i bob aelod o staff dderbyn hyfforddiant ar ddiogelwch gwybodaeth gyda hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen
- tudalennau penodol ar y fewnrwyd i staff yn darparu cyngor ac arweiniad penodol ar amrediad o bethau i'w hystyried o ran sicrwydd a diogelwch gwybodaeth, gan gynnwys cyfarwyddyd ychwanegol ar sut i ddosbarthu gwybodaeth yn ddiogel a 'rolau a chyfrifoldebau' staff wrth ymdrin â gwybodaeth ar gleientiaid.
- mae rheolwyr gyda chyfrifoldebau penodol o ran diogelwch gwybodaeth wedi'u trwyddedu mewn egwyddorion rheoli diogelwch gwybodaeth (CISMP) neu'n ymarferwyr Diogelu Data cymwys
- mae asesiadau risg gwybodaeth ac effaith ar breifatrwydd (PIA) wedi cael eu cynnal mewn perthynas â'n holl systemau TG allweddol. Mae newidiadau prosesau busnes hefyd wedi cael eu sgrinio am breifatrwydd er mwyn asesu a oes angen PIA llawn,

## Digwyddiadau gwybodaeth (colled/cyfaddawd)

Mae'r OPG wedi barnu ei hun yn gyfrifol am 587 (2015/16: 559) colled o wybodaeth a/neu doriad o ddiogelwch gwybodaeth, gyda 29 yn unig o'u plith (2015/16: 39) yn cael eu barnu i fod yn 'niweidiol iawn'. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 5% mewn colledion, ond gostyngiad o 34% mewn colledion niweidiol iawn, yn erbyn cynnydd yn y llwyth gwaith – tua 20% o nifer y ceisiadau am bŵer atwrnai yr ydym yn ymdrin â hwy. Roedd mwyafrif y colledion o wybodaeth o ganlyniad i'r OPG yn camgyfeirio post, sy'n gyson gyda blynyddoedd blaenorol.

Nid oedd unrhyw golledion o wybodaeth yn 2016/17 yn ddigon arwyddocaol er mwyn gorfod cyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r proses gyfredol am adrodd colledion o wybodaeth yn addas i'r diben ond rydym wedi datblygu offeryn adrodd newydd yn unol â'n hymgyrch i wella'n gwaith yn barhaus. Bydd y broses o ran colledion o wybodaeth yn aros yr un fath yn fras, fodd bynnag, bydd yr offeryn yn cipio gwybodaeth fwy manwl o'i gymharu â'r mecanwaith adrodd cyfredol.

I gyd-fynd â'r offeryn adrodd newydd, mae rhestr newydd o 'fathau o golledion' wedi cael ei ddrafftio i'w chymeradwyo gan bwyllgor archwilio a risg yr OPG. Mae'r mathau newydd yn ei gwneud yn haws i gydweithwyr sy'n adrodd am doriadau i ddosbarthu'r math o wybodaeth a gollwyd. Bydd yr offeryn adrodd hefyd yn cynnwys mecanwaith i gydweithwyr yr OPG adrodd am ddigwyddiadau o ddiogelwch corfforol.

Mae pob aelod newydd o staff yn derbyn trosolwg o gydymffurfiaeth gwybodaeth a diogelwch fel rhan o'u cyflwyniad ac mae staff yr OPG yn cwblhau'r cwrs e-ddysgu 'Cyfrifol am Wybodaeth' sy'n hanfodol i bob aelod o staff.

## Iechyd a lles

Mae'r OPG yn cydnabod ei chyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant ei weithwyr a'r holl bobl sy'n defnyddio ei swyddfeydd. Mae'r OPG yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a phob rheoliadau a deddfwriaeth berthnasol arall yn ôl yr angen.

Mae'r OPG yn cydnabod, er mwyn rheoli iechyd a diogelwch (H&S) yn effeithiol, bod rhaid cael rhai elfennau allweddol yn eu lle. Yr elfennau hyn, fel yr amlinellir yn Rheoli ar gyfer iechyd a diogelwch (HSG65) yw polisi, trefnu, cynllunio, mesur perfformiad, archwilio ac adolygu.

Yn 2016/17, adolygwyd polisi Iechyd, Diogelwch a Thân yw OPG ac alinio gyda pholisi'r MoJ ar y materion hyn a adolygwyd ym mis Chwefror 2016. Ochr yn ochr â hyn, mae'r OPG wedi datblygu cynllun strategaeth yr MoJ dros y cyfnod er mwyn gwella cydymffurfiaeth H&S o fewn yr OPG ymhellach. Mae hwn yn cael ei fonitro gan y pwyllgor H&S ac hefyd yn cael ei groesgyfeirio yn erbyn model aeddfedrwydd H&S. Mae diweddariadau ar gynllun strategaeth yr MoJ a'r model arfaethedig H&S yn cael eu hadrodd i'r tîm rheolaeth gweithredol unwaith y chwarter.

Mae cofrestr risg H&S yr OPG yn cael ei chynnal a'i hysbysu gan asesiadau risg lleol, sy'n cynnwys y prif 5 fater o fewn yr OPG. Mae hyn yn cael ei hadolygu a'i fonitro ym mhwyllgor H&S yr OPG unwaith y chwarter. Mae'r OPG wedi parhau i gynnal asesiadau risg rheolaidd trwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, gan gynnwys pob aelod o staff o ran rheoliadau Cyfarpar Sgrin Arddangos. Rydym wedi cynnal 1,268 gwiriad sgrin arddangos eleni. Mae hyn ar hyn o bryd yn cynrychioli 98% o'r holl staff.


Mae ein perfformiad H&S yn cael ei monitro, ei adolygu a'i gyfathrebu trwy gynhyrchu a chyhoeddi data ar berfformiad. Mae'r data'n cael ei gyflwyno i'r pwyllgor H&S ac yn cael ei gynnwys yng ngherdyn sgôr perfformiad cytbwys y tîm bob mis. Mae rhaglen o arolygon lleol yn bodoli i fonitro a rheoli perfformiad gyda chyfranogiad cynrychiolwyr undebau llafur, er mwyn gwella aeddfedrwydd H&S yn gyffredinol ar draws yr holl safleoedd.

Mae'r ffigurau ar gyfer damweiniau blynyddol a gofnodwyd wedi cynyddu 8% ers 2015/16 gyda 26 damwain yn cael eu cofnodi yn 2016/17, o'i gymharu â 24 damwain yn 2015/16 a 27 damwain yn 2014/15. Mae hyn yn ystod cyfnod pan mae nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) wedi cynyddu yn y sefydliad gan 13% o 1,071 yn 2015/16 i 1,206 yn 2016/17.

## Swyddog Cyfrifyddu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd system yr OPG o reoli mewnol, gan gynnwys y fframwaith rheoli risg. Mae fy adolygiad yn cael ei hysbysu gan waith yr archwilwyr mewnol a rheolwyr gweithredol yr OPG. Maen nhw'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheol ac adroddiadau eraill. Yn eu hadroddiad blynyddol, mae ein harchwilwyr mewnol wedi rhoi sicrwydd cyffredinol bod gan yr OPG lefel 'sylweddol' o sicrwydd. Rwyf wedi cael fy nghynghori ar ganlyniad fy adolygiad o'r bwrdd a'r pwyllgor archwilio a risg. Rwy'n fodlon bod yna gynllun i fynd i'r afael â gwendidau yn y system o reoli mewnol, a sicrhau gwelliant parhaus y system.

Rwyt hefyd yn fodlon bod yr holl risgiau materol wedi cael eu hadnabod, a bod y risgiau hynny'n cael eu rheoli'n gywir.



**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2017

# Adroddiad thâl a staff

## Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygiad Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn gofyn bod penodiadau i'r Gwasanaeth Sifil yn cael eu gwneud ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau pan gellir gwneud penodiad mewn modd arall.

Oni bai ei bod yn nodi isod, mae gan y swyddogion y sonnir amdanynt yn yr adroddiad hyn benodiadau agored. Byddai terfyniad cynnar, heblaw am ar gyfer camymddwyn, yn golygu bod unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Penodwyd cyfarwyddwyr anweithredol ar gontract tymor penodol 3 blynedd.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil ar www.civilservicecommission.gov.uk

## Polisi tâl

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan Brif Weinidog y DU yn dilyn cyngor annibynnol ar y Corff Adolygu Uwch Gyflogau.

Mae cyflogau aelodau'r bwrdd gweithredol yn cael eu pennu gan Ysgrifennydd Gwladol yr MoJ, yn unol â'r rheolau a amlinellir ym mhennod 7.1 Atodiad A cod rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Wrth gyrraedd ei hargymhellion, mae'r bwrdd adolygu wedi ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, dargadw, cymell a, ble fo'n berthnasol, hyrwyddo pobl gyda'r galluoedd a chymwysterau priodol i ymarfer eu gwahanol gyfrifoldebau
- amrywiaethau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio, dargadw a, ble fo'n berthnasol, dyrchafu staff
- polisïau'r llywodraeth i wella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyflawni'r targedau allbwn wrth gyflwyno gwasanaethau adrannol
- y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel yr amlinellir yn nherfynau gwariant adrannol y llywodraeth
- targed chwyddiant y llywodraeth.

Mae'r corff adolygu yn cymryd i ystyriaeth y dystiolaeth mae'n ei derbyn am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys:

- cyflog crynswth
- goramser
- hawliau a gedwir o ran pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain
- lwfansau recriwtio a dargadw
- lwfansau swyddfa preifat
- unrhyw lwfansau eraill i'r graddau i mae'n destun trethiant y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wnaed gan yr MoJ ar ran OPG ac mae felly wedi'i gofnodi yn y cyfrifon hyn.

## Buddion mewn da

Mae gwerth ariannol buddion mewn da yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarparwyd gan yr adran ac a gafodd eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel cyflog trethadwy.

## Bonysau

Mae bonysau'n seiliedig ar lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac yn cael eu gwneud fel rhan o'r proses arfarnu. Mae bonysau'n ymwneud â pherfformiad yn y flwyddyn y maen nhw'n dod yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau a adroddwyd yn ystod 2016/17 yn ymwneud â pherfformiad yn 2015/16 ac mae'r bonysau cymharol ar gyfer 2015/16 yn ymwneud â pherfformiad yn 2014/15.

## Hawliau cyflog a phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion tâl a phensiwn aelodau bwrdd yr OPG.

## Tâl

| Aelodau | 2016/17 Cyflog £000 | 2016/17 Taliadau bonws £000 | 2016/17 Buddion mewn da (i'r £100 agosaf) | 2016/17 Buddion pensiwn £000 | 2016/17 Cyfanswm £000 | 2015/16 Cyflog £000 | 2015/16 Taliadau bonws £000 | 2015/16 Buddion mewn da (i'r £100 agosaf) | 2015/16 Buddion pensiwn £000 | 2015/16 Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Alan Eccles CBE, Prif Weithredwr a Gwarcheidwad Cyhoeddus | 110-115 | – | – | 2 | 115-120 | 110-115 | – | – | 54 | 165-170 |
| Karen Morley, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | 55-60 | 0-5 | – | 20 | 75-80 | 55-60 | – | – | 25 | 80-85 |
| Angela Johnson, Pennaeth Goruchwylio, Ymarfer a Chydymffurfio | 30-35 | – | – | 3 | 30-35 | 50-55 | 0-5 | – | 20 | 70-75 |
| Iain Dougall, Pennaeth Gweithrediadau | 65-70 | 0-5 | – | 20 | 85-90 | 65-70 | – | – | 26 | 90-95 |
| Chris Jones, Pennaeth Strategaeth a Datblygiad Busnes | 60-65 | 0-5 | – | 22 | 80-85 | 60-65 | – | – | 27 | 85-90 |
| Ria Baxendale, Pennaeth Goruchwylio ac Ymchwiliadau | 60-65 | – | – | 21 | 80-85 | 0-5 (55-60 cyfwerth â blwyddyn lawn) | dd/b | dd/b | 2 | 5-10 |
| Elizabeth Gibby, Dirprwy Gyfarwyddwr yr MoJ. Mynediad at Strategaeth Gyfiawnder a Pholisi Arbenigol | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b |
| Dean Parker | 5-10 | – | – | – | | 0-5 (5-10 cyfwerth â blwyddyn lawn) | – | – | – | 0-5 |
| Yr Athro Anthony Schapira | 5-10 | – | – | – | | 5-10 | – | – | – | 5-10 |
| Janet Grossman | 5-10 | – | – | – | | 5-10 | – | – | – | 5-10 |
| **Band y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf, cyfanswm y tâl (£000)** | **110-115** | | | | | **110-115** | | | | |
| **Cyfanswm tâl yr OPG ar gyfartaledd (£)** | **19,746** | | | | | **20,036** | | | | |
| **Cymhareb** | **5.7** | | | | | **5.6** | | | | |

Bu Angela Johnson ymddeol yn rhannol o'r 1 Ionawr 2016. Derbyniodd Ria Baxendale gyfrifoldeb dros oruchwylio ac ymchwiliadau o'r 1 Mawrth 2016. Elizabeth Gibby yw cynrychiolydd dynodedig yr MoJ ar y bwrdd. Gan hynny, nid yw ei chyflog yn unol ag unrhyw rôl sylweddol gyda'r OPG, felly nid oes angen ei datgelu.

Mae'r wybodaeth yn dabl uchod wedi cael ei harchwilio.

## Datgeliad cyflog teg[1]

Mae gofyn i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn ei sefydliad a thâl gweithlu'r sefydliad ar gyfartaledd.

Roedd cyfanswm tâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn yr OPG ym mlwydd ariannol 2016/17 yn y band £110k-115k (2015/16: £110k-115k). Roedd hyn 5.7 gwaith (2015/16: 5.6 gwaith) cyflog y gwethllu ar gyfartaledd, sef £19,746 (2015/16: £20,035).

Yn 2016/17, derbyniodd 6 aelod o'r gweithlu (2015/16: 6 aelod o'r gweithlu) tâl yn uwch na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf. Roedd taliadau'n amrywio o £16,000 i £163,000. Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog heb ei gyfuno yn ymwneud â pherfformiad a buddion mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod (CETV) pensiynau.

## Iawndal ar gyfer colli swydd[1]

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau iawndal yn 2016/17 (2015/16: dim) am ymddeoliad cynnar neu golli swydd.

## Budd-daliadau pensiwn

| Aelodau | Cronnwyd ar oedran pensiwn ar 31/3/17 a'r cyfandaliad perthnasol £000 | Cynnydd go iawn yn y pensiwn a'r cyfandaliad ar oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/3/17 £000 | CETV ar 31/3/16 £000 | Cynnydd go iawn mewn CETV £000 | Cyfraniad cyflogwr i'r cyfrif pensiwn partneriaeth £100 agosaf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Alan Eccles CBE, Prif Weithredwr a Gwarcheidwad Cyhoeddus | 70-75 | 0-2.5 | 1,310 | 1,307 | 2 | – |
| Karen Morley, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | 20-25 a chyfandaliad o 60-65 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0 | 403 | 378 | 8 | – |
| Angela Johnson, Pennaeth Ymarfer a Chydymffurfiaeth | 25-30 | 0-2.5 | 524 | 521 | 3 | – |
| Iain Dougall, Pennaeth Gweithrediadau | 15-20 | 0-2.5 | 273 | 244 | 15 | – |
| Chris Jones, Pennaeth Strategaeth a Datblygiad Busnes | 10-15 | 0-2.5 | 149 | 135 | 5 | – |
| Ria Baxendale, Pennaeth Goruchwylio ac Ymchwiliadau | 10-15 | 0-2.5 | 121 | 108 | 5 | – |

Mae'r wybodaeth yn dabl uchod wedi cael ei harchwilio.

Ar 16 Mawrth 2016, fe gyhoeddodd Canghellor y Trysorlys newid yng nghyfradd gostyngol y Cyfraniadau Blwydd-daliadau wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad Blaenorol (SCAPE) o 3% i 2.8%. Mae'r gyfradd hon yn effeithio ar gyfrifo ffigurau CETV yn yr adroddiad hwn.

## Pensiynau'r gwasanaeth sifil

Mae buddion pensiynau'n cael eu darparu trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, fe gyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision

1 Mae'r wybodaeth yn yr adran hon wedi cael ei harchwilio

Sifil ac eraill neu alffa, sy'n darparu buddion yn seiliedig ar gyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yn cyfateb ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (os yn 65 neu'n uwch).

O'r dyddiad hwnnw, mae pob gwas sifil newydd yn aelod o alffa, ynghyd â mwyafrif y sawl eisoes mewn gwasanaeth. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i'r PCSPS: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu uwch bremiwm) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail yr holl yrfa (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu cyllido gyda chost y buddion yn cael eu talu gan ariannu a glustnodir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae'r pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau clasurol, premiwm, uwch bremiwm, nuvos ac alffa yn cael eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth ar gynyddu pensiynau.

Fe arhosodd aelodau cyfredol PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y sawl a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd 5 mis o'u hoedran pensiwn arferion ar 1 Ebrill 2012 yn symud i alffa rhywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i alffa yn cael eu 'bancio', gyda'r sawl ar fuddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan maen nhw'n gadael alffa. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alffa – fel bo'n briodol. Ble mae gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alffa, y ffigur a ddyfynnir yw'r gwerth eu buddion yn y 2 gynllun ar y cyd). Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r drefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogwr yn berthnasol i'r cyflog ac yn amrywio rhwng 3% a 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau clasurol (ac aelodau alffa a oedd yn aelodau clasurol yn syth cyn ymuno ag alffa) a rhwng 4.6% a 8.05% ar gyfer aelodau premiwm, uwch bremiwm, nuvos a holl aelodau aeraill alffa.

Mae buddion yn y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Ar ben hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â 3 blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer premiwm, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, does dim cyfandaliad awtomatig. Mae uwch bremiwm yn sylfaenol yn hybrid gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn fras fel y cynllun clasurol a'r buddion am wasanaeth ers Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y cynllun premiwm.

Yn nuvos, mae aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod eu haelodaeth mewn cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn gydag enillion aelodau wedi'i gredydu gyda 2.3% o'u enillion pensiynadwy ym mlwyddyn hwnnw'r cynllun ac mae'r pensiwn a gronnir yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth ar gynnydd pensiynau. Mae buddion mewn alffa yn adeiladu mewn modd tebyg i nuvos, ond y gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn budd-ddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os ydynt yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu'r un faint hyd at 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu am y gost o sicrwydd budd-dal risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn wedi'i gronni a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w derbyn pan maen nhw'n cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith wedi gorffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn, neu'n hŷn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau clasurol, premiwm ac uwch bremiwm, 65 ar gyfer aelodau nuvos a 65 neu oedran pensiwn y wladwriaeth, p'un bynnag sydd uwch ar gyfer aelodau alffa. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alffa – fel bo'n briodol. Ble mae gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alffa, y ffigur a ddyfynnir yw'r gwerth eu buddion yn y 2 gynllun ar y cyd, ond nodir y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol).

Gellir dod o hyd i fanylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw'r gwerth gyfalafu a aseswyd gan actwari o'r budd-daliadau a gronnwyd yn y cynllun pensiwn gan aelod ar adeg penodol mewn amser. Y budd-daliadau y rhoddir gwerth iddynt yw budd-daliadau cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn achlysurol partner sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw'r taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu budd-daliadau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan mae'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan yn y cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn uwch rôl y mae'n rhaid datgelu yn ei chylch.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi eu trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-daliadau pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu budd-daliadau pensiwn ychwanegol eu hunain. Mae CETVs yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib i fudd-daliadau yn sgil y Dreth Lwfans Oes, y gallai fod yn daladwy pan gymerir budd-daliadau pensiwn.

## Cynnydd go iawn mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod hwnnw.

## Adroddiad staff

| | | | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| **Costau staff** | **Cyfanswm** | **£000 Staff a gyflogir yn barhaol** | **Eraill** | **£000 Cyfanswm** |
| Cyflogau | 29,073 | 23,434 | 5,639 | 27,191 |
| ERNIC | 1,911 | 1,911 | – | 1,320 |
| Costau pensiwn arall | 4,188 | 4,188 | – | 3,988 |
| **Cyfanswm y costau net** | **35,172** | **29,533** | **5,639** | **32,499** |

Mae'r wybodaeth yn dabl uchod wedi cael ei harchwilio.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – o'r enw alffa – yn gynlluniau budd-daliadau diffiniedig aml-gyflogwr heb eu hariannu ond nid yw OPG yn gallu adnabod ei chyfran o'r asedau ac atebolrwydd sylfaenol. Fe roddodd actwari'r cynllun bris ar y cynllun ar 31 Mawrth 2016. Gallwch ddod o hyd i fanylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil yn: https://www.gov.uk/government/publications/cabinet-office-civil-superannuation-accounts-2015-to-2016.

Ar gyfer 2016/17, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £4,121,000 yn daladwy i'r PCSPS (2015/16 £3,916,000) ar 1 o 4 cyfradd yn yr amrediad o enillion pensiynadwy (20.0% i 24.5%), yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob 4 blynedd fel arfer yn dilyn gwerthusiad llawn o'r cynllun. Gosodir y cyfraddau cyfraniad i fodloni cost y budd-daliadau a gronnir yn ystod 2016/17 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol a nid y budd-daliadau a delir yn ystod y cyfnod i bensiynwyr cyfredol.

Mae gweithwyr yn gallu dewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Fe delir cyfraniadau cyflogwyr o £67,000 (2015/16 £72,000) i un neu ragor o'r panel o ddarparwyr pensiwn budd-ddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn seiliedig ar oedran ac yn amrywio o 8% i 14.74% o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn ychwanegu at gyfraniadau gweithwyr gan gyfrannu hyd at 3% o enillion pensiynadwy.

## Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | | | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | **Cyfanswm** | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** |
| Cyflogir yn uniongyrchol | 1,027 | 1,027 | – | 984 |
| Eraill | 179 | – | 179 | 87 |
| Cyfanswm | 1,206 | 1,027 | 179 | 1,071 |

Mae'r wybodaeth yn dabl uchod wedi cael ei harchwilio.

## Cyfansoddiad y staff

| | Gwrywaidd | Benywaidd |
|---|---|---|
| Aelodau o'r Bwrdd | 3 | 3 |
| SCS1 | 0 | 1 |
| Cyflogeion yr OPG (ac eithrio SCS) | 567 | 768 |

Mae'r tabl cyfansoddiad y staff uchod yn dangos nifer y staff mewn swydd ar 31 Mawrth 2017. Mae aelodau'r bwrdd yn cynnwys un SCS2 gwrywaidd (heb ei gynnwys yn rhes SCS).

## Absenoldeb salwch

- Y nifer o ddiwrnodau gwaith a gollwyr (AWDL) ar gyfartaledd eleni oedd 7.9 diwrnod i fis Rhagfyr 2016. Oherwydd cyfyngiadau adrodd, fe gymerir y ffigwr hwn fel y ffigwr ar gyfer y flwyddyn gyfan.

## Polisïau staff a weithredwyd yn ystod y flwyddyn

Mae'r OPG yn cydymffurfio â pholisi anabledd yr MoJ mewn perthynas â recriwtio, hyfforddiant a datblygiad staff ag anableddau. Rydym yn recriwtio, hyfforddi a datblygu pobl yn seiliedig ar eu sgiliau, cymhwyster a gallu i wneud y swydd.

Fel rhan o'r MoJ, rydym yn gweithredu yn unol ag amrediad o bolisïau, gweithdrefnau ac arferion adnoddau dynol, sy'n cynnwys:

- oriau hyblyg
- bwlio ac aflonyddwch
- cyfryngu
- recriwtio a dethol
- cydraddoldeb ac amrywiaeth
- rheoli presenoldeb (mae gennym nifer o staff gydag anabledd ble mae addasiadau rhesymol wedi cael eu cytuno er mwyn eu galluogi i gwblhau eu dyletswyddau)
- rheoli perfformiad
- hyfforddiant.

## Gwariant ar ymgynghori

Ni gyflogodd yr OPG unrhyw ymgynghorwyr yn ystod 2016/17.

## Ymrwymiadau i ffwrdd o'r gyflogres

| Crynodeb o ymrwymiadau i ffwrdd o'r gyflogres yn 2016/17 | Aelodau o'r gweithlu |
|---|---|
| Llai na blwyddyn | 24 |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | 12 |
| Cyfanswm | 36 |

Mae'r holl benodiadau uchod wedi bod yn destun asesiad seiliedig ar risg yn ymwneud â thalu'r dreth gywir.

## Adrodd am gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a darparwyr eraill – pecynnau yma-dael

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Pensiynau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrifo'n llawn yn y flwyddyn y caiff y pecyn ymadael ei gadarnhau. Ble mae'r adran llywodraethol wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, mae'r costau ychwanegol yn cael eu talu gan yr adran a nid gan Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Yn 2015/16, roedd yr MoJ yn atebol am Gynllun Ymadael yn Gynnar yn Wirfoddol yn ymwneud â'r MoJ oherwydd roeddent yn atebol am gostau diswyddo ac ymadael eraill y Cynllun hwn ar ein rhan. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu nifer y pecynnau ymadael yn ymwneud â'r Cynllun a ddatgelwyd o fewn tabl 'Cynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a darparwyd eraill – pecyn ymadael' ar dudalen 59 o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr MoJ 2015/16. Bu'r gweithwyr hyn adael yr asiantaeth yn 2016/17.

Talwyd 8 pecyn ymadael. gwerth cyfanswm o £347,221, yn 2016/17 (2015/16: Dim).

| **Band cost y pecyn ymadael** | **Diswyddiadau** | | **Ymadawiadau a gytunwyd** | | **Pecynnau fesul band cost** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Band Cost** | **Nifer** | **Band Cost** | **Nifer** | **Band Cost** |
| £10,000 | 0 | £0 | 0 | | 0 | |
| £10,000-£25,000 | 0 | £0 | 3 | £65,871 | 3 | £65,871 |
| £25,000-£50,000 | 0 | £0 | 2 | £62,382 | 2 | £62,382 |
| £50,000-£100,000 | 0 | £0 | 3 | £218,968 | 3 | £218,968 |
| £100,000-£150,000 | 0 | £0 | 0 | £0 | 0 | £0 |
| £150,000-£200,000 | 0 | £0 | 0 | £0 | 0 | £0 |
| £200,000-£250,000 | 0 | £0 | 0 | £0 | 0 | £0 |
| £250,000-£300,000 | 0 | £0 | 0 | £0 | 0 | £0 |
| | | | | | | |
| Nifer y pecynnau ymadael fesul math | 0 | £0 | 8 | £347,221 | 8 | £347,221 |
| **Cyfanswm cost yr adnoddau/£** | | **£0** | | **£347,221** | | **£347,221** |

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio.



**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2017

# Adroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol

## Datganiad o gyflenwad seneddol

Ariennir yr OPG gan yr MoJ, o'i chyflenwad seneddol, a gan incwm a ddaw o ffioedd a chostau gan gwsmeriaid allanol.

Yn yr un modd ag adrannau eraill y llywodraeth, rhaid i ariannu ar gyfer y dyfodol gael ei gymeradwyo gan ein hadran nawdd, yr MoJ a Senedd y DU. Mae cymeradwyaeth eisoes wedi cael ei roi ar gyfer 2017/18 a does dim rheswm i gwestiynu ariannu'r OPG yn y dyfodol. Mae datganiadau ariannol felly wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol at ddibenion adrodd a rhoi pris ar asedau.

## Rheoleidd-dra gwariant

Mae'r Prif Swyddog Gyfrifyddu i'r MoJ wedi dynodi Prif Weithredwr yr OPG yn Swyddog Cyfrifyddu'r asiantaeth. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros addasrwydd a rheoleidd-dra'r ariannu cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdanynt, a gadw cofnodion go iawn ac am ddiogelu asedau'r OPG, wedi'u hamlinellu yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Does dim materion rheoleidd-dra i'w hadrodd. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio.

## Ffioedd a chostau

Mae'n ofyniad ar yr asiantaeth, yn unol â 'Rheoli Arian Cyhoeddus', i ddatgelu manylion ar gyfer y meysydd yr ymgymerwyd â gweithgareddau ynddynt yn ystod y flwyddyn ariannol, ble godir ffioedd a chostau.

Mae Gweinidogion a Thrysorlys EM wedi cytuno ar strategaeth ffioedd ar gyfer yr OPG yn cynnwys adennill 100% o gostau. Adlewyrchwyd y strategaeth hon yn y ddau gyfrwng statudol a'i roi ar waith o'r 1 Hydref 2007.

Darperir cymhorthdal fel y cynlluniwyd er mwyn sicrhau na fod cleientiaid yn cael eu gwadu mynediad at wasanaethau trwy analluedd i fforddio'r ffioedd gofynnol.

| | 2016/17 £000 | 2015/16 £000 |
|---|---|---|
| Incwm gweithredol | (74,865) | (65,857) |
| Ffioedd a ddilëwyd | (10,290) | (6,762) |
| Cyfanswm yr incwm | (85,155) | (72,619) |
| Cyfanswm gwariant | 57,715 | 53,321 |
| Diffyg/(gwarged) | (27,440) | (19,298) |
| Adennill costau (%) | 148% | 136% |

Mae'r wybodaeth yn dabl uchod wedi cael ei harchwilio.

Fe gyflawnwyd a rhagori ar y nod ariannol a gytunwyd gan Drysorlys EM, sef i'r OPG gyflawni adferiad costau llawn (ac eithrio eithriadau a dileu ffioedd), gan gyflawni cynnydd o 148% ers 2015/16. Mae ein dadansoddiad yn cadarnhau bod yr adferiad da wedi cael ei gynhyrchu'n gyfan gwbl gan ffioedd a godwyd i gofrestru pwerau atwrnai arhosol a pharhaus. Nid chafodd y gost o weinyddu goruchwyliaeth dirprwyon ei hadfer yn llawn yn ystod y flwyddyn.

Mae nifer mwy o bobl wedi bod yn cofrestru am bwerau atwrnai arhosol yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae niferoedd uwch, ynghyd ag effeithiolrwydd uwch wrth brosesu ceisiadau, wedi arwain at ffioedd yn cael eu codi uwch ben y gost o gyflwyno'r gwasanaeth, heb fod yr MoJ wedi arfer y pŵer a ddarparwyd gan ddeddfwriaeth i'n caniatáu i wneud hyn.

O'r 1 Ebrill, rydym wedi gostwng y ffioedd i wneud cais am bŵer atwrnai arhosol a phŵer atwrnai barhaus. Ochr yn ochr â'r gostyngiad mewn ffioedd, bydd yr MoJ hefyd yn cyflwyno cynllun i adennill cyfran o'r ffi i gwsmeriaid a allai fod wedi talu mwy nag y dylent o fewn y 4 blynedd diwethaf. Bydd manylion llawn y cynllun yn cael eu cyhoeddi maes o law ond rydym yn ymrwymedig i gymryd camau o'r fath yn ôl yr angen er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn ymwybodol o'r ad-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, a'u bod yn eu derbyn.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r MoJ a'i huned strategaeth incwm newydd a fydd yn goruchwylio'r safonau a'r rheoliadau a osodir ar gyfer pob ffrwd incwm. Rydym hefyd wedi gwneud nifer o welliannau i sut rydym yn rhagweld galw a chostau cysylltiedig er mwyn ein galluogi i seilio cynigion ffioedd ar dystiolaeth gadarn ac er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir gan Drysorlys EM.

## Colledion a thaliadau arbennig

Mae'r wybodaeth yn yr adran hon wedi cael ei harchwilio.

### Ffioedd a ddilëwyd

Roedd 117,764 achos ble ddilëwyd ffioedd neu ddefnyddiwyd eithriadau. Cyfanswm y gwerth oedd £9,450,000 (2015/16: 76,253 achos – £6,762,000 fel y disgrifir yn nodyn 2).

### Colli arian parod

Roedd 2 achos o golli arian parod gwerth cyfanswm o £2,000 (2015/16: 1 achos – colli £14).

### Taliadau arbennig ac ildiadau ffioedd diamod

Roedd 156 taliad arbennig gyda chyfanswm o £22,000 (2015/16: 205 taliad arbennig, gyda chyfanswm o £10,000) yn ymwneud ag iawndal a setliadau cysurol

Roedd 6,852 ildiad ffioedd gyda chyfanswm o £840,000 (2015/16: 3,042 achos, gyda chyfanswm o £386,000). Mae ildiad ffioedd yn cael ei ganiatáu naill ai:

- yn unol â'r cyfrwng statudol pan nad yw'r rhoddwr/cleient yn gymwys am eithriad neu ddilead ond yn nyfarniad y Gwarcheidwad Cyhoeddus, y byddai talu'r ffi yn achosi caledi.
- i gydnabod gweinyddiaeth wael.

## Rhwymedigaeth ddigwyddiadol o bell


Yn unol ag IAS 37, mae'r asiantaeth yn datgelu goblygiadau posib o ran rhwymedigaeth ddigwyddiadol ar gyfer y dyfodol yn codi o ddigwyddiadau y daeth goblygiadau ohonynt yn y gorffennol, ble mae presenoldeb goblygiadau o'r fath yn parhau'n ansicr yn dibynnu ar ganlyniad digwyddiadau yn y dyfodol y tu allan i reolaeth yr asiantaeth, oni bai bod eu tebygolrwydd yn cael eu hystyried i fod yn rhai o bell. Mae gwarantau, indemniadau ac ymgymeriadau nad sy'n gontractau gwarantiadau ariannol o dan IAS 39 yn cael eu trin fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

Ar ben rhwymedigaeth ddigwyddiadol a ddatgelwyd yn unol ag IAS 37, mae'r asiantaeth hefyd yn datgelu at ddibenion adrodd ac atebolrwydd seneddol rhai rhwymedigaeth ddigwyddiadol ble mae'r tebygolrwydd o drosglwyddo buddion economaidd yn annhebygol.

Ble mae gwerth arian yr amser yn faterol, fe nodir rhwymedigaeth ddigwyddiadol mewn symiau gostyngol. Nid oes gostyngiad ar gyfer rhwymedigaeth ddigwyddiadol sydd ei angen ar gyfer adrodd seneddol. Does dim rhwymedigaeth ddigwyddiadol o bell. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio.

## Rhoddion a roddwyd

Ni roddwyd unrhyw roddion. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio.



**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2017

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ar Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, Newidiadau i Ecwiti'r Trethdalwyr, a'r nodiadau perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r polisïau cyfrifo yr amlinellir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r gwybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a Staff a'r Datgeliadau Rhwymedigaeth Seneddol y disgrifir yn yr adroddiadau hynny fel rhai sydd wedi cael eu harchwilio.

## Cyfrifoldebau perthnasol y Bwrdd, y Swyddog Cyfrifydd a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Fe gynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn gofyn fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau'r Bwrdd Moesegol ar Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

## Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatganiad materol, pe gafodd ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: a yw'r polisïau cyfrifo'n addas i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ac a ydynt wedi cael eu gweithredu'n gyson a'u datgelu mewn modd addas; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifo sylweddol a wnaethpwyd gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a'r wybodaeth sydd heb fod yn ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon i adnabod unrhyw anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i adnabod unrhyw wybodaeth sydd yn ôl pob golwg yn anghywir yn faterol, neu'n anghyson yn faterol, gyda'r wybodaeth a gefais yn ystod perfformio'r archwiliad. Os daw unrhyw gam-ddatganiadau materol neu anghysondebau at fy sylw, rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Mae'n ofynnol arnaf i gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu rhoi ar waith at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu rhoi ar waith at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi barn wir a theg o gyflwr materion Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar 31 Mawrth 2017 ac o'r gwarged gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r Ddeddf.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff a'r datgeliadau Rhwymedigaethau Seneddol i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson gyda'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt trwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi, os yn fy marn i:

- nad oedd cofnodion cyfrifo digonol wedi cael eu cadw neu os nad oedd dychweliadau digonol wedi cael eu derbyn ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad oedd fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nad oedd y datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff a'r datgeliadau Rhwymedigaethau Seneddol i'w harchwilio ddim yn cyd-fynd â'r cofnodion neu ddychweliadau cyfrifo; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw Datganiad y Llywodraeth yn adlewyrchu cydymffurfiaeth ag arweiniad Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2017

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol

| Datganiad o wariant net cynhwysfawr | | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|---|
| **ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017** | **Nodyn** | **£000** | **£000** |
| Rhalgen: | 7 | | |
| Costau staff | 3 | 35,172 | 32,499 |
| Gwariant arall | 4/5 | 22,543 | 20,822 |
| Incwm | 2/6 | (74,865) | (65,857) |
| Gwarged gweithredu net | | **(17,150)** | **(12,536)** |

| Gwariant net cynhwysfawr arall | | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|---|
| **ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017** | **Nodyn** | **£000** | **£000** |
| (Elw) / colled net ar ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | 8 | (88) | 147 |
| Elw net ar ailbrisio asedau anghyffwrdd | 8a | (354) | – |
| Cyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr | | **(17,592)** | **(12,389)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 71 i 87 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

| | | 31 Mawrth 2017 | | 31 Mawrth 2016 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Datganiad o safle ariannol 31 Mawrth 2017** | **Nodyn** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Asedau di-gyfredol** | | | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 8 | | 3,538 | | 4,218 |
| Asedau anghyffwrddadwy | 8a | | 6,312 | | 5,792 |
| **Cyfanswm yr asedau di-gyfredol** | | | **9,850** | | **10,010** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Eitemau masnachol ac eraill a dderbyniwyd | 9 | 50,297 | | 46,100 | |
| Arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod | 10 | 12,432 | | 5,879 | |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | | **62,729** | | **51,979** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | | **72,579** | | **61,989** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Eitemau masnachol ac eraill a dalwyd | 11 | (37,250) | | (8,013) | |
| Darpariaethau | 12 | (27) | | (230) | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(37,277)** | | **(8,243)** |
| **Cyfanswm yr asedau minws y rhwymedigaethau cyfredol** | | | **35,302** | | **53,746** |
| **Rhwymedigaethau di-gyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | 12 | | (826) | | (119) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau di-gyfredol** | | | **(826)** | | **(119)** |
| **Cyfanswm yr asedau minws cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **34,476** | | **53,627** |
| **Ecwiti y trethdalwyr** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | | 33,990 | | 53,385 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | | 486 | | 242 |
| **Cyfanswm ecwiti y trethdalwyr** | | | **34,476** | | **53,627** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 71 i 87 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.



**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2017

| Datganiad yr OPG o lif arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 | Nodyn | 2016/17 £000 | 2015/16 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 17,150 | 12,536 |
| Costau nad sy'n rhai arian parod | 5 | 8,367 | 6,053 |
| Costau gweithredu eraill nad sy'n rhai arian parod | 4 | – | 1,204 |
| Costau eraill nad sy'n rhai arian parod | | *516 | 11 |
| | | **26,033** | **19,804** |
| Cynnydd mewn eitemau masnachol ac eraill a dderbyniwyd | | (4,617) | (10,971) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn eitemau masnachol ac eraill a dalwyd | | 30,800 | 3,434 |
| Defnydd o ddarpariaethau a setlwyd gan OPG | 12 | (17) | – |
| **Llif arian i mewn o weithgareddau gweithredu** | | **52,199** | **12,267** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | | (2,168) | (146) |
| Prynu asedau anghyffyrddadwy | | (778) | (1,848) |
| **Llif arian allan o weithgareddau buddsoddi** | | **(2,946)** | **(1,994)** |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Trosglwyddiad MoJ | | (42,700) | (5,750) |
| **Arian parod net allan o ariannu** | | **(42,700)** | **(5,750)** |
| **Cynnydd net mewn arian parod** | 10 | **6,553** | **4,523** |
| **Arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod ar gychwyn y cyfnod** | 10 | **5,879** | **1,356** |
| **Arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 10 | **12,432** | **5,879** |

* Mae hyn yn ymwneud ag eitemau incwm dybledig a balans banc yn y flwyddyn flaenorol a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod cynnar o ddefnyddio'r system llyfrau cyfrifon newydd.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 71 i 87 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

| Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | | **53,385** | **242** |
| **Elw/(colled) net ar ailbrisiad:** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | | – | 88 |
| Asedau anghyffwrddadwy | | – | 354 |
| **Costau nad sy'n rhai arian parod** | | | |
| Tâl yr archwilydd | 5 | 52 | – |
| Elfen dybiannol yr ailbrisiad adrannol | 5 | 5,282 | – |
| Symudiad cronfeydd wrth gefn MoJ | | (42,700) | – |
| Trosglwyddiad yr ailbrisiad | | 198 | (198) |
| Setliad rhwng adrannau o'r balans | | 623 | – |
| **Gwarged net ar gyfer y flwyddyn (SoCNE)** | | **17,150** | **–** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | **33,990** | **486** |

| Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | | **41,940** | **389** |
| **Elw/(colled) net ar ailbrisiad:** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | | – | (147) |
| **Costau nad sy'n rhai arian parod** | | | |
| Tâl yr archwilydd | 5 | 52 | – |
| Costau a setlwyd gan yr MoJ | 4 | 1,204 | – |
| Elfen dybiannol yr ailbrisiad adrannol | 5 | 3,392 | – |
| Symudiad cronfeydd wrth gefn MoJ | | (5,750) | – |
| Eraill | | 11 | – |
| **Gwarged net ar gyfer y flwyddyn (SoCNE)** | | **12,536** | **–** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | | **53,385** | **242** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 71 i 87 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y cyfrifon

Ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifo

### 1.1. Sail y paratoad

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2016/17 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifo sy'n llunio FReM yn dilyn safonau adroddiadau ariannol rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu eu dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Ble mae'r FReM yn rhoi dewis o bolisi cyfrifo, mae'r polisi cyfrifo a oedd yn cael ei barnu i fod mwyaf addas i amgylchiadau penodol yr asiantaeth er mwyn rhoi barn wir a theg, wedi cael ei dewis. Mae polisïau cyfrifo'r asiantaeth wedi cael eu rhoi ar waith yn gyson wrth fynd i'r afael ag eitemau a ystyrir i fod yn faterol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu Tŷ'r Cwmnïau a'r safonau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo a Thrysorlys EM, cyhyd â bod y gofynion hynny'n briodol.

Nid yw'r datganiad o wariant net cynhwysfawr wedi'i rannu rhwng gwariant net gweinyddol a rhaglenni oherwydd bod 100% o wariant net yr OPG yn cael ei dosbarthu fel gwariant rhaglenni, yn seiliedig ar y gwaith a wneir gan yr OPG, sef gwasanaethau rheng flaen yn bennaf. Mae'r dosbarthiad hwn wedi cael ei gytuno gyda Thrysorlys EM.

Mae'r OPG wedi gwneud asesiad o'r newidiadau arfaethedig yn yr FReM ar gyfer 2016/17, ac unrhyw safonau cyfrifo newydd yn y cyhoeddiad nad sydd mewn grym eto, ac wedi pennu y byddai dim effaith faterol ar y cyfnod cyfredol, ar gyfnod blaenorl neu ar gyfnod yn y dyfodol.

### 1.2. Busnes gweithredol

Mae'r asiantaeth yn cael ei ariannu gan yr MoJ, o'i Chyflenwad Seneddol, ac gan incwm a ddaw o ffioedd a chostau o gwsmeriaid allanol (gweler nodyn 2). Yn yr un modd ag asiantaethau eraill y llywodraeth, rhaid i gyllid at y dyfodol gael ei gymeradwyo gan ein hadran nawdd ac gan Senedd y DU.

Mae cymeradwyaeth eisoes wedi cael ei roi ar gyfer 2017/18 ac mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol at ddibenion adroddiadau ariannol a rhoi pris ar asedau.

### 1.3. Confensiwn cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar sail croniadau, dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i gymryd yr ailbrisiad o asedau di-gyfredol i ystyriaeth.

## 1.4. Cydnabod incwm

### Incwm gweithredol

Mae incwm gweithredol yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r OPG. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd a chostau am wasanaethau a ddarperir ar sail cost llawn i gwsmeriaid allanol, net y ffioedd a ddilëwyd (gweler nodyn 1.5) a net y TAW.

Mae Deddf Galluedd Meddwl 2005 yn caniatáu codi ffioedd mewn perthynas â chyflwyno gweithrediadau mewn perthynas â swyddogaethau a wneir gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae lefelau'r costau wedi'u cynnwys mewn dau Gyfrwng Statudol, Pwerau Atwrnai Arhosol, Pwerau Atwrnai Parhaus a Rheoliadau Gwarcheidwad Cyhoeddus 2007 a Rheoliadau Gwarcheidwad Cyhoeddus (ffioedd ac ati) 2007.

Mae'r strwythur ffioedd a oedd yn effeithiol ar gyfer 2016/17 wedi bod yn ei le ers ei addasu ar 1 Hydref 2011 gan Reoliadau Gwarcheidwad Cyhoeddus (ffioedd, ac ati) (Addasiad) 2011 a ddiwygiodd ac addasu Rheoliadau Gwarcheidwad Cyhoeddus (ffioedd, ac ati) 2007.

### Ffioedd goruchwylio a dirprwyo'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Mae'r rheoliadau'n disodli'r amrediad o ffioedd a oedd yn daladwy gan dderbynwyr a benodwyd gan y llys gydag un ffi sefydlu, yn daladwy pan gaiff y dirprwy ei asesu yn gychwynnol am oruchwyliaeth; ac un ffi gweinyddu blynyddol. Mae achosion yn cael eu rhoi mewn i 1 o 2 fath o oruchwyliaeth ac yn ennill ffioedd blynyddol yn unol â'r lefel a ddyrannwyd.

Mae mwyafrif yr achosion yn cwympo yn y categori o lefel gyffredinol o oruchwyliaeth. Mae incwm a ddaw trwy ffioedd goruchwylio yn cael ei gyfrifo ar sail pro rata os:

- oes mwy nag un math o oruchwyliaeth wedi cael ei weithredu o fewn blwyddyn; neu
- os yw goruchwyliaeth wedi bod yn ei le am llai na blwyddyn; neu
- os yw'r person â diffyg galluedd, neu'r dirprwy, yn marw. Mae ffioedd yn daladwy hyd at ddyddiad y marwolaeth.

### Ffioedd cofrestru EPA a LPA

Mae incwm yn cael ei gydnabod wrth wneud y cais. Mae'r ffi cofrestru yn daladwy gyda'r cais. Mae ffi cofrestru ar wahân yn daladwy ar gyfer LPAs eiddo a materion ariannol a LPAs iechyd a llesiant pan mae pob cais yn cael ei wneud.

## 1.5. Eithrio a dileu ffioedd

Mae'r ddau gyfrwng yn darparu systemau eithrio a dileu ffioedd. Mae eithriadau'n berthnasol wedi derbyn budd-dal prawf modd cymhwysol nad oedd wedi derbyn gwobr iawndal dros £16,000, sydd wedi cael ei hanwybyddu at ddibenion cymhwyso ar gyfer y budd-daliadau hyn. Mae meini prawf yr OPG yn defnyddio polisi sy'n gyson ag asiantaethau eraill y llywodraeth o ran anwybyddu'r gwobrau hyn. Mae'r cyfryngau hyn hefyd yn darparu ar gyfer hepgor neu ostwng ffioedd, ble, oherwydd amgylchiadau eithriadol yr achos, byddai'r taliad yn achosi caledi diangen.

Mae'r OPG yn gyfrifol am awdurdodi eithriadau rhag dalu ffioedd ac am gymeradwyo ceisiadau i hepgor ffioedd am resymau eithriadol.

Gellir gwneud cais i eithrio neu ddileu ffi gyda'r ffurflen gais wreiddiol neu ei gyflwyno o fewn 6 mis o ymgeisio. Mae incwm yn cael ei gydnabod wrth dderbyn cais dilys.

Yn yr achosion hynny ble nad oes cais am eithriad neu ddileu yn cael wneud gyda'r cais LPA gwreiddiol, mae amod bod rhaid derbyn cais eithrio neu ddileu wedi'i gwblhau o fewn 6 mis o godi'r anfoneb

Ble mae ffi yn cael ei dalu, a bod eithriad neu ddilead yn cael ei gytuno maes o law, mae ad-daliad yn cael ei gyhoeddi.

Mae eithriadau a dileadau yn cael eu cydnabod fel gostyngiad mewn incwm wedi derbyn ffurflenni dilys a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn. Mae darpariaeth yn cael ei gydnabod yn seiliedig ar asesiad manwl o'r graddau y mae eithriad a dilead y ffi wedi cael ei gymeradwyo yn y flwyddyn yn dilyn cydnabod yr incwm, Mae hyn yn cynrychioli swm a ragwelwyd o ran eithrio a dileu y gellir eu derbyn yn y flwyddyn ganlynol (nodyn 9). Dangosir incwm net eithriadau a dileadau ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr, ac yn fwy manwl ar sail crynswth yn nodyn 2.

## 1.6. Buddion cyflogeion

### Croniadau gwyliau cyflogeion

Mae croniad yn cael ei wneud am wyliau ac oriau hyblyg nad yw cyflogai wedi eu cymryd.

### Costau ymadael yn gynnar

Mae gofyn i'r OPG dalu costau ychwanegol y buddion mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar, oni bai bod yr ymddeoliad yn cael ei gymeradwyo am resymau meddygol. Darperir y gost gyfan yn llawn pan mae'r rhaglen ymadael yn gynnar wedi cael ei chyhoeddi ac mae'n rhwymo'r OPG.

### Pensiyn

Mae darpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), a ddisgrifir yn yr adroddiad tâl a staff, yn berthnasol i gyn gyflogeion a chyflogeion cyfredol. Nid yw'r cynlluniau budd-daliadu diffiniedig yn cael eu hariannu. Mae'r asiantaeth yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol yn ystod y cyfnod y mae'n buddio o wasanaethau'r gweithwyr, trwy dalu PCSPS o'r symiau a gyfrifir ar sail cronnus. Mae'r rhwymedigaeth i dalu budd-daliadau yn y dyfodol yn dâl i'r PCSPS. Mae'r OPG yn cyfri'r cynlluniau fel y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig oherwydd bod dim gwybodaeth ddigonol ar gael i'w cyfri fel cynlluniau budd-daliadau diffiniedig. Mae'r asiantaeth felly'n cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn ariannol.

## 1.7. Prydles

Mae prydlesi'r OPG yn cael eu hystyried fel prydlesi gweithredol ac mae'r rhent yn cael ei chynnwys ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Yn unol ag egwyddorion IAS 17 (Prydlesi) a'r arweiniad atodol a nodir yn SIC 15 (Gweithredu mentrau â phrydlesi), mae'r OPG wedi lledaenu gwerth y cyfnod di-rent i ddefnyddio lle yn Adeilad Axis dros y cyfnod cychwynnol o 10 mlynedd.

## 1.8. Costau nad sy'n rhai arian parod

Mae costau nad sy'n rhai arian parod yn gynwysedig yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr er mwyn adlewyrchu cost lawn gwasanaethau'r asiantaeth, yn unol â'r FReM a Rheoli Arian Cyhoeddus. Mae'r costau hyn yn cynnwys:

### Costau cefnogaeth pencadlys yr MoJ

Cyfrifiadau methodoleg yr MoJ o ran eitemau y gellir ailgodi tâl amdanynt yw'r sail ddogfennol a ddefnyddir mewn modd tryloyw a chyson i dosrannu gorbenion gan gynnwys Adnoddau Dynol a TG i holl adrannau'r MoJ ac asiantaethau ar sail costau nad sy'n rhai arian parod.

### Tâl yr archwilydd allanol

Y gost nad sy'n gost arian parod ar gyfer archwiliad statudol y cyfrifon a gynhelir gan y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol (NAO).

## 1.9. Dyledion drwg

Mae dyledion drwg yn cael eu dileu pan maen nhw'n cael eu hadnabod. Mae darpariaeth ar gyfer dyledion a amheuir yn cael ei wneud yn seiliedig ar adolygiad penodol o'r achosion unigol. sy'n cael eu dal mewn rhwyd o falans yr eitemau masnachol y derbynnir ac sydd yna'n cael eu cyflwyno ar sail net.

## 1.10. Eiddo, peiriannau ac offer

### Cydnabyddiaeth

Mae eitemau o eiddo, peiriannau neu offer, gan gynnwys gwariant dilynol ar asedau cyfredol, yn cael eu cydnabod i gychwyn ar gost pan mae'n debygol y bydd buddion economaidd y dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r ased yn llifo i'r OPG a gellir mesur cost ys ased yn ddibynadwy. Mae pob gwaith atgyweirio a chynnal a chadw arall yn cael ei godi i'r datganiad net cynhwysfawr yn ystod y cyfnod ariannol y maen nhw'n dod ynddi.

### Trothwy cyfalafu – asedau unigol

Trothwy cyfalafu'r OPG ar gyfer asedau unigol yw £10,000 (yn cynnwys TAW).

### Trothwy cyfalafu – asedau wedi'u grwpio

Ble mae pryniant sylweddol o asedau unigol, sydd ar eu pennau eu hunain yn is na'r trothwy cyfalafu, yn codi mewn cysylltiad ag un prosiect, maen nhw'n cael eu trin fel ased wedi'i grwpio. Mae asedau wedi'u grwpio fel arfer yn cynnwys:

- system integredig o offer amrywiol wedi'u dylunio i gyflwyno datrysiad penodol, er enghraifft, prosiect adnewyddu offer TG
- caffaeliad materol sylweddol o ddodrefn neu TG ar un safle neu
- raglenni TG ac adnewyddu dodrefn, ble mae'r gwariant arfaethedig yn uwch na'r trothwy cyfalafu.

### Dull prisio

Mae asedau cyffyrddadwy a gedwir ar gyfer eu potensial gwasanaeth yn cael eu cyfri ar eu gwerth cyfredol o ddefnydd presennol.

Maen nhw'n gynwysedig ar y gost o brynu ac yn cael eu hail-nodi ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio atodiadau priodol (monitor busnes MM22) a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### Ailbrisiad

Pan mae ased sy'n cario gwerth yn cynyddu o ganlyniad i ailbrisio, mae unrhyw warged ailbrisio yn cael ei gredydu i'r datganiad o wariant net cynhwysfawr arall ac yn cael ei gronni'n uniongyrchol yn ecwiti'r trethdalwr o dan y pennawd cronfa ailbrisio wrth gefn.

Un eithriad yw unrhyw elw ar ailbrisio sy'n gwrthdroi gostyngiad ailbrisio ar yr un ased a oedd yn flaenorol yn cael ei gydnabod fel traul. Mae elw o'r fath yn gyntaf yn cael eu credydu o fewn cost gweithredu net y datganiad o wariant net cynhwysfawr i'r graddau y mae'r elw'n gwrthdroi colled a oedd yn flaenorol yn cael ei gydnabod o fewn cost gweithredu net yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr.

Mae gostyngiad ailbrisio yn cael ei godi yn erbyn y cronfa ailbrisio wrth gefn i'r graddau nad yw'n uwch na'r swm a gedwir yn y gronfa wrth gefn mewn perthynas â'r un ased. Mae unrhyw ostyngiad gweddill yna'n cael ei adnabod o fewn y gost weithredu net yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr.

### Dibrisiant

Mae dibrisiant yn cael ei godi ar sail llinell syth ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerthoedd yr asedau, minws y gwerth gweddill a amcangyfrifir yn gyson dros eu hoes defnyddiol a amcangyfrifir. Mae oes defnyddiol asedau neu gategorïau asedau yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac mae unrhyw newidiadau'n cael eu trafod gyda'r awdurdodau perthnasol er mwyn sicrhau bod y goblygiadau cyllido wedi cael eu hystyried yn iawn. Pan mae newid yn cael ei gytuno i oes ased, mae'r ased yn cael ei dibrisio ar sail llinell syth dros yr oes a asesir sy'n weddill. Mae dibrisiant yn cychwyn y mis ar ôl caffael yr ased nad sy'n gyfredol.

Os yw eitem o eiddo, peiriant neu offer yn cynnwys 2 gydran sylweddol neu fwy, gydag oes defnyddiol gwahanol iawn, yna mae pob cydran yn cael ei thrin ar wahân at ddibenion dibrisiant ac yn cael eu dibrisio dros ei hoes unigol ddefnyddiol.

Mae oes ddefnyddiol ased a amcangyfrifir o fewn yr amrediadau canlynol:

- gwelliannau prydlesol – y cyfnod sy'n weddill ar y brydles
- dodrefn a ffitiadau – 10 mlynedd
- peiriannau ac offer – 5 i 7 mlynedd
- technoleg gwybodaeth – 3 i 7 mlynedd.

### Asedau dan ystyriaeth

Mae asedau dan ystyriaeth yn cael eu prisio ar gost hanesyddol o fewn eiddo, peiriannau ac offer ac nid yw asedau anghyffarwddadwy yn cael eu dibrisio neu eu dileu. Mae ased yn stopio cael ei dosbarthu fel ased dan ystyriaeth pan mae'n barod i'w defnyddio. Yna mae'r gwerth mae'n ei gario yn cael ei dynnu o'r asedau dan ystyriaeth ac yn cael ei drosglwyddo i'r categori ased perthnasol. Yna, mae dibrisiant neu ddilead yn cael ei godi ar ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu a nodir.

### Gwaredu ar asedau nad sy'n gyfredol

Mae elw a cholledion wrth gael gwared ag asedau nad sy'n gyfredol yn cael eu pennu trwy gymharu'r elw gyda'r swm y maen nhw'n eu cario ac yn cael eu cydnabod yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr. Pan mae asedau wedi'u hailbrisio yn cael eu gwerthu, mae'r symiau a oedd wedi'u cynnwys yn y gronfa ailbrisio wrth gefn yn cael eu trosglwyddo i'r cronfa gyffredinol.

## 1.11. Asedau anghyffwrddadwy

Mae asedau anghyffyrddadwy yn cynnwys meddalwedd a ddatblygwyd yn fewnol at ddefnydd mewnol (gan gynnwys asedau dan ystyriaeth) a thrwyddedau meddalwedd a brynwyd.

Mae costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddyluniad a phrofi cynnyrch meddalwedd ac unigryw a reolir gan yr OPG yn cael eu cydnabod fel asedau anghyffyrddadwy os bodlonir y meini prawf canlynol:

- mae'n ddichonadwy yn dechnegol i gwblhau'r cynnydd meddalwedd er mwyn iddo fod ar gael i'w defnyddio
- mae'r OPG yn bwriadu cwblhau'r cynnyrch meddalwedd a'i defnyddio
- mae'n bosib defnyddio'r cynnyrch meddalwedd
- mae'n bosib dangos sut bydd y cynnyrch meddalwedd yn cynhyrchu'r potensial ar gyfer gwasanaeth debygol yn y dyfodol
- mae adnoddau technegol, ariannol ac adnoddau eraill ar gael i gwblhau'r datblygiad a defnyddio'r cynnyrch meddalwedd
- mae modd dibynadwy o fesur y gwariant y gellir ei briodoli i'r cynnyrch meddalwedd yn ystod ei datblygiad.

Mae gwariant datblygiad eraill nad sy'n bodloni'r meini prawf hyn yn cael eu cydnabod fel traul a aethpwyd iddo. Mae costau ymgynghorwyr allanol a ymrwymwyd ar brosiectau'n cael eu cyfalafu ble fo'n briodol. Nid yw costau datblygu a nodwyd yn flaenorol fel traul yn cael eu cydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae trwyddedau meddalwedd a brynwyd yn cael eu cydnabod pan mae'n debygol y bydd y potensial am wasanaeth yn y dyfodol yn llifo i'r OPG a bod modd dibynadwy o fesur cost y trwyddedau. Mae trwyddedau o'r fath yn cael eu mesur am eu pris yn gychwynnol.

Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol, mae asedau anghyffyrddadwy'n cael eu cynnwys yn y cyfrifon ar y gwerth cyfredol yn nefnydd cyfredol. Gan bod dim marchnad weithredol yn bodoli ar gyfer asedau anghyffyrddadwy'r OPG, mae'r gwerth cyfredol yn cael ei asesu fel y gost o amnewid minws unrhyw golledion amhariad (cost amnewid wedi'i dibrisio).

Mae asedau anghyffyrddadwy'n cael eu dileu gan ddefnyddio'r dull llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol arfaethedig. Mae oes ddefnyddiol meddalwedd a ddatblygir yn fewnol yn amrywio o 2 i 7 mlynedd.

Mae trwyddedau meddalwedd a brynir yn cael eu dileu dros gyfnod y drwydded.

## 1.12. Trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau anghyffyrddadwy

Trothwy cyfalafu'r OPG ar gyfer prosiectau meddalwedd yw £10,000 (yn cynnwys TAW).

## 1.13. Amhariad

Mae amhariad yn adlewyrchu lleihad parhaol yng ngwerth ased o ganlyniad o ddefnydd o fudd economaidd neu botensial busnes. Ar 31 Mawrth, bob blwyddyn, mae'r OPG yn asesu pob ased nad sy'n gyfredol am arwyddion o amhariad. Mae'r asedau dan sylw'n cael eu profi am amhariad trwy gymharu gwerth cyfredol yr asedau hynny gyda'u symiau adferadwy. Pan mae swm adferadwy ased yn llai na'i gwerth cyfredol, mae gwerth cyfredol yr ased yn cael ei leihau i'w swm adferadwy.

Swm adferadwy ased a gedwir am ei botensial gwasanaeth yw'r gwerth cyfredol yn nefnydd presennol. At ddibenion y sector cyhoeddus, mae'r FReM yn diffinio 'gwerth mewn defnydd' ased nad sy'n cynhyrchu arian fel gwerth cyfredol gweddill potensial gwasanaeth yr ased, y gellir tybio i fod o leiaf yn gyfartal i'r gost o amnewid y potensial gwasanaeth hwnnw.

Mae unrhyw golled oherwydd amhariad yn cael ei chydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Os oedd yr ased a amharwyd wedi cael ei ailbrisio yn flaenorol, mae unrhyw swm sy'n weddill ar y gronfa ailbrisio wrth gefn (hyd at lefel y golled oherwydd amhariad) yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Ar 31 Mawrth, bob blwyddyn, mae'r OPG yn asesu a oes unrhyw arwydd bod unrhyw golledion oherwydd amhariad a nodwyd mewn cyfnod blaenorol naill ai ddim yn bodoli bellach neu wedi gostwng. Os oes unrhyw arwydd o'r fath yn bodoli, mae'r symiau y gellir eu hadennill o'r asedau dan sylw yn cael eu hailasesu. Mae gwrthdroad colled amhariad yna'n cael ei gydnabod, yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr, os oes newid wedi bod yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm y gellir ei adennill o'r ased ers cynnal y prawf amhariad diwethaf. Mae swm unrhyw wrthdroad yn gyfyngedig i gynyddu gwerth cyfredol yr ased perthnasol i'r gwerth cyfredol a fyddai wedi cael ei gydnabod pe na fyddai'r amhariad gwreiddiol wedi digwydd (hynny yw, ar ô cymryd i ystyriaeth y dibrisiant arferol a fydd wedi cael ei godi pe na fyddai amhariad wedi digwydd).

## 1.14. Treth ar werth (TAW)

Nid oes gan yr asiantaeth gofrestriad TAW unigol gyda Chyllid a Thollau EM ond daw o dan gofrestriad yr MoJ, sy'n cynghori'r asiantaeth ar unrhyw fewnbwn TAW y gellir adennill.

Mae TAW na ellir ei adennill yn cael ei chodi i'r categori gwariant perthnasol neu'n cael ei chynnwys yng nghost pryniannau wedi'u cyfalafu yr asedau cyffyrddadwy sefydlog. Ble mae TAW yn cael ei chodi neu ble mae mewnbwn TAW yn adferadwy, mae'r symiau a nodir ar ffurf net y TAW.

## 1.15. Darpariaethau

Mae'r asiantaeth yn darparu ar gyfer rhwymedigaeth cyfreithiol neu adeiladol, sydd o amser neu swm ansicr ar ddyddiad Datganiad y Sefyllfa Ariannol ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth.

## 1.16. Adroddiadau cylchrannol

Mae adroddiadau cylchrannol yn cael eu gwneud fel rhan o'r cyfrifol rheolaeth misol yn seiliedig ar bob cyfarwyddiaeth, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio fel rhan o'r cyfrifon ariannol blynyddol. Gan fod gan OPG, yn elfennol, 1 gweithgaredd gweithredu ac un segment gweithredu, ni fyddai dadansoddiad gan y gyfarwyddiaeth yn darparu dadansoddiad ystyrlon o'r math a fwriedir gan IFRS 8.

## 1.17. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Yn unol ag IAS 37, mae'r asiantaeth yn datgelu goblygiadau posib o ran rhwymedigaeth ddigwyddiadol ar gyfer y dyfodol yn codi o ddigwyddiadau y daeth goblygiadau ohonynt yn y gorffennol, ble mae presenoldeb goblygiadau o'r fath yn parhau'n ansicr yn dibynnu ar ganlyniad digwyddiadau yn y dyfodol y tu allan i reolaeth yr asiantaeth, oni bai bod eu tebygolrwydd yn cael eu hystyried i fod yn rhai o bell. Mae gwarantau, indemniadau ac ymgymeriadau nad sy'n gontractau gwarantiadau ariannol o dan IAS 39 yn cael eu trin fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

Ar ben rhwymedigaeth ddigwyddiadol a ddatgelwyd yn unol ag IAS 37, mae'r asiantaeth hefyd yn datgelu at ddibenion adrodd ac atebolrwydd seneddol rhai rhwymedigaeth ddigwyddiadol ble mae'r tebygolrwydd o drosglwyddo buddion economaidd yn annhebygol.

Ble mae gwerth arian yr amser yn faterol, fe nodir rhwymedigaeth ddigwyddiadol mewn symiau gostyngol. Nid oes gostyngiad ar gyfer rhwymedigaeth ddigwyddiadol sydd ei angen ar gyfer adrodd seneddol.

## 1.18. Setlo balansau rhwng-grwpiau gan ddefnyddio'r gronfa gyffredinol

Mae gan yr OPG 2 brif ddosbarth o drafodion gyda'i rhiant-adran, y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ).

a. Mae'r MoJ yn setlo ychydig o'r gwariant y mae'r OPG yn mynd iddo ar ran yr asiantaeth (gweler nodiadau 4 a 5). Mae hyn yn rhoi achosi balans rhwng-grwpiau sydd er budd yr MoJ (nodyn 11).

b. Gan fod yr OPG yn cynhyrchu llif arian net, mae'r rhain yn cael eu hildio i'r MoJ o bryd i'w gilydd. Mae'r ildiadau arian hyn yn darparu balans rhwng y cwmnïau er bydd yr MoJ (nodyn 9).

Bob blwyddyn, mae'r OPG a'r MoJ yna'n ystyried y sefyllfa rhwng y cwmnïau ac yn cytuno a fyddai'n briodol gwneud addasiad parhaol i sefyllfa ariannol yr OPG. Mae unrhyw addasiadau o'r fath yn cynnwys ariannu trafodion gyda phlaid rheoli'r OPG, nid ydynt yn achosi unrhyw gofnodion yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr ac maen nhw'n cael eu cydnabod yn uniongyrchol yn y gronfa gyffredinol trwy'r datganiad o ecwiti'r trethdalwyr (SoCiTE). Gall yr addasiadau hyn gymryd un o ddwy ffurf.

- Ble mae'r balans rhwng-grwpiau sy'n ddyledus o'r MoJ yn uwch na chyfanswm y costau y mae'r MoJ yn disgwyl eu setlo ar ran yr OPG yn y flwyddyn i ddod, mae'r OPG yn cytuno i ganslo elfen 'ormodedd' y balans, gan achosi lleihau parhaol i ecwiti'r OPG trwy hynny. Mae'r addasiadau hyn yn cael eu credydu'n uniongyrchol i'r SoCiTE ac hefyd yn llunio eitem gymodi yn y datganiad o lif arian (SoCF), gan na fod y gostyngiad yn y swm rhwng-grwpiau derbyniadwy yn cyd-fynd â newid yn yr arian. Mae'r swm rhwng-grwpiau derbyniadwy sy'n weddill ar ôl cwblhau'r trafodyn hwn yn cyfri fel blaendal yn erbyn gwasanaethau i'w derbyn o'r pencadlys yn y flwyddyn i ddod.
- Ble fo angen, mae'r MoJ hefyd yn gallu darparu ariannu nad sydd ar ffurf arian, megis cynnydd parhaol yn ecwiti'r OPG, trwy gytuno i ganslo balansau rhwng cwmnïau er budd yr MoJ. Mae'r trafodion hyn yn cael eu disgrifio fel 'ariannu arall yr MoJ nad sydd ar ffurf arian parod' yn y SoCF a'r SoCiTE.

| 2. Incwm | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|
| **Incwm gweithredol** | **£000** | **£000** |
| **Incwm ffioedd yr OPG** | | |
| Atwrneiaeth arhosol (LPA) | (69,716) | (58,341) |
| Atwrneiaeth barhaus | (1,734) | (1,241) |
| Goruchwyliaeth | (12,368) | (11,487) |
| Penodi dirprwy | (1,337) | (1,550) |
| | **(85,155)** | **(72,619)** |
| **Eithriadau a dileadau** | | |
| Atwrneiaeth arhosol (LPA) | 7,053 | 4,695 |
| Atwrneiaeth barhaus | 69 | 143 |
| Goruchwyliaeth | 2,061 | 1,640 |
| Penodi dirprwy | 267 | 284 |
| Dileu ffioedd yn ôl disgresiwn | 840 | – |
| | **10,290** | **6,762** |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | **(74,865)** | **(65,857)** |

| 3. Costau staff | 2016/17 | | | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | | | £000 |
| **Costau staff** | **Cyfanswm** | **Staff a gyflogir yn barhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** |
| Cyflogau | 29,073 | 23,434 | 5,639 | 27,191 |
| ERNIC | 1,911 | 1,911 | – | 1,320 |
| Costau pensiwn arall | 4,188 | 4,188 | – | 3,988 |
| **Cyfanswm y costau net** | **35,172** | **29,533** | **5,639** | **32,499** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – o'r enw "alffa" yn gynlluniau budd-daliadau diffiniedig aml-gylfogwr heb eu hariannu ond nid yw'r OPG yn gallu adnabod ei gyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Fe roddodd actwari'r cynllun bris ar y cynllun ar 31 Mawrth 2016. Gallwch gael manylion yng adnoddau cyfrifon Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil yn: **https://www.gov.uk/government/publications/cabinet-office-civil-superannuation-accounts-2015-to-2016**.

Ar gyfer 2016/17, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £4,121,000 yn daladwy i PCSPS (2015/16 £3,916,000) ar 1 o 4 gyfradd yn yr amrediad 20.0% i 24.5% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob 4 blynedd fel arfer yn dilyn gwerthusiad llawn o'r cynllun. Gosodir y cyfraddau cyfraniad i fodloni cost y budd-daliadau a gronnir yn ystod 2016/17 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol a nid y budd-daliadau a delir yn ystod y cyfnod i bensiynwyr cyfredol.

Mae gweithwyr yn gallu dewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyd o £67,000 (2015/16: £72,000) i 1 neu ragor o'r panel o 3 darparwr pensiwn budd-ddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn seiliedig ar oedran ac yn amrywio o 8% i 14.74% o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn ychwanegu at gyfraniadau gweithwyr gan gyfrannu hyd at 3% o enillion pensiynadwy.

| 4. Costau gweithredu eraill | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Colledion arian a thaliadau ex gratia | 27 | 11 |
| Nwyddau traul | 391 | 287 |
| Cynnal a chadw | 1,073 | *1,039 |
| Costau rhedeg cyfrifiaduron | 3,732 | 3,830 |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 374 | 420 |
| Cludiad | 3,111 | 2,508 |
| Cyfraddau | 503 | *490 |
| Llety | 1,321 | *1,147 |
| Cyfleustodau | 225 | *49 |
| Gwasanaethau ymwelwyr (asesu anghenion cleientiaid) | 1,622 | 1,628 |
| Costau rhedeg eraill | 1,797 | *3,360 |
| **Cyfanswm y costau rhedeg eraill** | **14,176** | ***14,769** |

* O'r symiau uchod, ni setlwyd unrhyw rai (2015/16 £1,204,000) gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac nid oes ganddynt unrhyw effaith arian parod ar yr OPG. Mae seren wrth y categorïau yr effeithir arnynt. Yn 2016.17, cafod y symiau eu setlo'n uniongyrchol gan yr OPG.

| 5. Costau nad sy'n rhai arian parod | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Costau cefnogi pencadlys yr MoJ | 5,282 | 3,392 |
| Dibrisiant – Eiddo, peiriannau ac offer | 497 | 325 |
| Dilead – Asedau anghyffyrddadwy | 1,488 | 1,101 |
| Tâl yr archwilydd allanol | 52 | 52 |
| Colled ar gael gwared ag eiddio, peiriannau ac offer | – | 290 |
| Dibrisiad disgynnol o asedau yn is na gwerth y dibrisiad | – | 603 |
| Cynnydd mewn darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus | – | 217 |
| **Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau:** | | |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 699 | – |
| Darpariaethau a ddilëwyd | (178) | – |
| Cynnydd mewn amhariad eitemau masnachol a dderbyniwyd | 420 | – |
| Dyledion drwg a ddilëwyd | 107 | 73 |
| | **8,367** | **6,053** |

## 6. Ffioedd a chostau

Mae'n ofyniad ar yr asiantaeth, yn unol â 'Rheoli Arian Cyhoeddus', i ddatgelu manylion ar gyfer y meysydd yr ymgymerwyd â gweithgareddau ynddynt yn ystod y flwyddyn ariannol, ble godir ffioedd a chostau.

Darperir cymhorthdal fel y cynlluniwyd er mwyn sicrhau na fod cleientiaid yn cael eu gwadu mynediad at wasanaethau trwy analluedd i fforddio'r ffioedd gofynnol.

| | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm gweithredol | (74,865) | (65,857) |
| Ffioedd a ddilëwyd | (10,290) | (6,762) |
| **Cyfanswm yr incwm** | **(85,155)** | **(72,619)** |
| **Cyfanswm gwariant** | **57,715** | **53,321** |
| **Diffyg/(gwarged)** | **(27,440)** | **(19,298)** |
| **Adennill costau (%)** | **148%** | **136%** |

Fe gyflawnwyd a rhagori ar yr amcan ariannol a gytunwyd gyda Thrysorlys EM, i'r OPG gyflawni adferiad cost llawn (ac eithrio eithriadau a dileadau ffioedd), gan gyflawni 148%, cynnydd o 12% ar 2015/16. Mae rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad ar atebolrwydd ac archwiliad Seneddol ar dudalennau 61-63.

## 7. Dadansoddiad fesul gweinyddiaeth a rhaglen

Mae incwm a gwariant yr OPG yn cael ei gofnodi fel 100% rhaglen, yn seiliedig ar asesiad o'r gwaith a gynhelir gan yr OPG, sef gwasanaethau rheng flaen yn bennaf – mae'r cofnod hwn wedi cael ei gytuno gyda Thrysorlys EM.

**8. Eiddo, peiriannau ac offer**

| | Gwelliannau prydlesol | Dodrefn a ffitiadau | Peiriannau ac offer | Technoleg gwybodaeth | Asedau dan ystyriaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werthusiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 497 | 475 | 846 | 1,631 | 2,610 | **6,059** |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 120 | 402 | **522** |
| Ail-ddosbarthiadau | 1,348 | 554 | – | 317 | (3,012) | **(793)** |
| Gwarediadau | – | – | (725) | (181) | – | **(906)** |
| Ailbrisiad | (92) | – | 1 | 103 | – | **12** |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **1,753** | **1,029** | **122** | **1,990** | **–** | **4,894** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | – | (20) | (818) | (1,003) | – | **(1,841)** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | (125) | (59) | (18) | (295) | – | **(497)** |
| Gwarediadau | – | – | 726 | 180 | – | **906** |
| Ailbrisiad | 125 | – | (1) | (48) | – | **76** |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **–** | **(79)** | **(111)** | **(1,166)** | **–** | **(1,356)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017** | **1,753** | **950** | **11** | **824** | **–** | **3,538** |
| **Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2016** | **497** | **455** | **28** | **628** | **2,610** | **4,218** |

Mae'r OPG yn berchen yn llwyr ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer uchod.

| | Gwelliannau prydlesol | Dodrefn a ffitiadau | Peiriannau ac offer | Technoleg gwybodaeth | Asedau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werthusiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | 891 | 203 | 676 | 1,103 | – | **2,873** |
| Ychwanegiadau | – | – | – | – | 2,224 | **2,224** |
| Ail-ddosbarthiad** | – | 475 | 253 | 574 | 386 | **1,688** |
| Gwarediadau | (9) | (205) | (86) | (71) | – | **(371)** |
| Ailbrisiad | (385) | 2 | 3 | 25 | – | **(355)** |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **497** | **475** | **846** | **1,631** | ***2,610** | **6,059** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | (335) | (72) | (622) | (779) | – | **(1,808)** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | (29) | (27) | (76) | (193) | – | **(325)** |
| Gwarediadau | 5 | 93 | 74 | 58 | – | **230** |
| Ailbrisiad | 359 | (14) | (194) | (89) | – | **62** |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **–** | **(20)** | **(818)** | **(1,003)** | **–** | **(1,841)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016** | **497** | **455** | **28** | **628** | **2,610** | **4,218** |
| **Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2015** | **556** | **131** | **54** | **324** | **–** | **1,065** |

Mae'r OPG yn berchen yn llwyr ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer uchod.

* Mae'r balans cloi o £2,610k yn cynnwys Technoleg Gwybodaeth (£1,121k), gwelliannau prydlesol (£934k) a dodrefn (£555k) dan ystyriaeth.

** Cyfeiriwch ar droednodyn nodyn 8a.

## 8a. Asedau anghyffwrddadwy

| | Trwyddedau meddalwedd | Meddalwedd a gynhyrchwyd yn fewnol | Asedau dan ystyriaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werthusiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 135 | 11,685 | 699 | 12,519 |
| Ychwanegiadau | – | – | 861 | 861 |
| Ail-ddosbarthiad | – | 951 | (158) | 793 |
| Gwarediadau | – | (665) | – | (665) |
| Ailbrisiad | 8 | 701 | – | 709 |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **143** | **12,672** | **1,402** | **14,217** |
| **Dileadau** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | (130) | (6,597) | – | (6,727) |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | (5) | (1,483) | – | (1,488) |
| Gwarediadau | – | 665 | – | 665 |
| Ailbrisiad | (8) | (347) | – | (355) |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **(143)** | **(7,762)** | **–** | **(7,905)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017** | **–** | **4,910** | **1,402** | **6,312** |
| **Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2016** | **5** | **5,088** | **699** | **5,792** |

Mae'r OPG yn berchen yn llwyr ar yr asedau anghyffyrddadwy a ddatgelwyd uchod.

| 8a. Asedau anghyffwrddadwy | Trwyddedau meddalwedd | Meddalwedd a gynhyrchwyd yn fewnol | Asedau dan ystyriaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werthusiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | 414 | 7,082 | *7,186 | **14,682** |
| Ychwanegiadau | – | – | 1,205 | **1,205** |
| Ail-ddosbarthiad | – | 5,282 | (6,970) | **(1,688)** |
| Gwarediadau | (281) | (799) | (147) | **(1,227)** |
| Ailbrisiad | 2 | 120 | (575) | **(453)** |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **135** | **11,685** | ****699** | **12,519** |
| **Dileadau** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | (384) | (6,316) | – | **(6,700)** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | (21) | (1,080) | – | **(1,101)** |
| Gwarediadau | 279 | 799 | – | **1,078** |
| Ailbrisiad | (4) | – | – | **(4)** |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **(130)** | **(6,597)** | **–** | **(6,727)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016** | **5** | **5,088** | **699** | **5,792** |
| **Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2015** | **30** | **766** | **7,186** | **7,982** |

Mae'r OPG yn berchen yn llwyr ar yr asedau anghyffyrddadwy a ddatgelwyd uchod.

* O falans cychwynol o £7,186k, mae £5,498k yn ymwneud ag asedau anghyffyrddadwy ac mae £1,688k yn ymwneud ag eiddo, peiriannau ac offer.

Mae'r ail-ddosbarthiad hwn o asedau anghyffyrddadwy i eiddo, peiriannau ac offer oherwydd bod y balansau cychwynnol yn cynnwys prosiectau TG nad sy'n feddalwedd sydd wedi'i gynhyrchu'n fewnol yn gyfan gwbl ond yn cael eu diffinio fel caledwedd megis sganwyr cipio dogfennau a data.

Mae mudiad y system cyfrifo, a fydd yn weithredol am flwyddyn gyfan yn 2016/17, yn cynnig y swyddogaeth i gofnodi codi prosiect fel rhan o'r dosbarthiad cyfrifyddu – mae hyn yn cynnig y gwelliant wrth adrodd er mwyn osgoi'r un sefyllfa'n codi eto.

** Mae'r balans cloi o £699k yn cynnwys prosiectau a fydd yn cael eu dosbarthu o dan meddalwedd a gynhyrchwyd yn fewnol, pan fydd y gwaith datblygu wedi'i gwblhau.

| 9. Eitemau masnachol ac eraill a dderbyniwyd | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **Symiau a fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **£000** | **£000** |
| **Balansau gyda chyrff llywodraethol canolog eraill** | | |
| Swm sy'n ddyledus o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder | 35,632 | 35,015 |
| TAW adferadwy | 436 | 279 |
| | **36,068** | **35,294** |
| **Balansau gyda chyff allanol i'r llywodraeth** | | |
| Blaendaliadau | 862 | 218 |
| Eitemau staff derbyniadwy | 234 | 40 |
| Eitemau masnachol derbyniadwy | 1,893 | 9,809 |
| Incwm a gronnwyd | 11,240 | 739 |
| | **14,229** | **10,806** |
| **Cyfanswm yr eitemau a dderbyniwyd** | **50,297** | **46,100** |

Mae'r OPG yn ildio arian a ddefnyddir i leihau'r balans rhwng y cwmnïau gyda'r MoJ a'r swm uchod yw'r arian a disgwylir ei defnyddio o fewn 12 mis ar wariant yr OPG a setlwyd gan yr MoJ (gweler nodyn 1.18).

Mae eitemau masnachol a dderbyniwyd yn cael eu dangos fel net o ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus o £843,000 (2015/16: £423,000) a darpariaeth ar gyfer dileadau o £602,000 (2015/16: £602,000).

Mae'r cyfrifiad ar gyfer darpariaeth dyledion amheus, eleni, wedi'i gofnodi yn yr eitemau masnachol derbyniadwy a'r incwm a gronnwyd oherwydd amseriad yr ymarferol bilio goruchwylio blynyddol.

| 10. Arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Balans ar 1 Ebrill 2016 | 5,879 | 1,356 |
| Llif arian net i mewn | 6,553 | 4,523 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **12,432** | **5,879** |
| **Cedwir y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn:** | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | **12,432** | **5,879** |

| **11. Eitemau masnachol ac eraill a dalwyd** | **31 Mawrth 2017** | **31 Mawrth 2016** |
|---|---|---|
| **Symiau a fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **£000** | **£000** |
| **Swm sy'n ddyledus i gyrff canolog llywodraethol eraill** | | |
| Swm sy'n ddyledus i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder | 30,507 | 1,918 |
| Symiau sy'n ddyledus i adrannau eraill y llywodraeth | 1,093 | – |
| | **31,600** | **1,918** |
| **Balansau gyda chyff allanol i'r llywodraeth** | | |
| Croniadau | 5,647 | 5,840 |
| Eitemau masnachol dyledus | 3 | 255 |
| | **5,650** | **6,095** |
| **Cyfanswm yr eitemau dyledus** | **37,250** | **8,013** |

| **12. Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a chostau** | **Ymddeoliad cynnar** | **Eraill** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2016** | **157** | **192** | **349** |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | – | 699 | **699** |
| Darpariaethau a ddilëwyd | (47) | (131) | **(178)** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod | (17) | – | **(17)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **93** | **760** | **853** |
| **Dadansoddiad o amseru disgwyliedig y llif arian** | | | |
| Ddim yn hwyrach na blwyddyn | 27 | – | **27** |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 66 | 140 | **206** |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | 620 | **620** |
| | **93** | **760** | **853** |

## Costau ymadael yn gynnar

Mae'r asiantaeth yn talu costau ychwanegol y budd-daliadau y tu hwnt i fudd-daliadau arferol PCSPS mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar trwy dalu'r swm gofynnol yn flynyddol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng y dyddiad ymadael yn gynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Mae'r asiantaeth yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan ddaw'r rhaglen ymddeoliad cynnar yn orfodol ar yr asiantaeth trwy sefydlu darpariaeth ar gyfer taliadau a amcangyfrifir.

## Eraill

Creodd yr asiantaeth ddarpariaeth adfeiliadau o £620,000, yn deillio o feddiant yr eiddo swyddfa brydlesol yn Nottingham.

## 13. Rhwymedigaeth dan brydlesi gweithredol

Rhoddir cyfanswm isafswm taliadau prydlesi'r dyfodol dan brydlesi gweithredol yn y cyfnod nad oes modd eu canslo yn y tabl isod, gyda'r dadansoddiad yn unol â'r cyfnod ble mae dyddiad dyledus y taliad yn cwympo.

| Dadansoddiad o amseru disgwyliedig y llif arian | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | Tir ac adeiladau | Tir ac adeiladau |
| | £000 | £000 |
| Ddim yn hwyrach na blwyddyn | 1,313 | 1,173 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 3,656 | 4,331 |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | 20 |
| **Cyfanswm** | **4,969** | **5,524** |

## 14. Trafodion parti perthnasol

Mae'r asiantaeth yn asiantaeth weithredol o'r MoJ. Mae'r MoJ yn cael ei hystyried fel parti perthnasol. Yn ystod y cyfnod, mae'r asiantaeth wedi cael nifer o drafodion materol gyda'r MoJ. Yn benodol, mae costau staff yr asiantaeth (a chyfrifo am flaendaliadau ac adennill cyflogau) yn cael eu rheoli gan yr MoJ.

Ar ben hynny, mae Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth hefyd yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r asiantaeth. Mae'r MoJ yn rheoli'r trefniadau prydlesol hyn a'r costau llety perthynol o feddiant yr OPG o'i swyddfeydd.

Cyfrifon methodoleg da-dalu'r MoJ yw'r sail a ddogfennir yn dryloyw ac yn gyson i ddosrannu gorbenion gan gynnwys Adnoddau Dynol a TG i holl adrannau ac asiantaethau'r MoJ ar sail dybiannol.

Mae'r asiantaeth hefyd wedi cael trafodion gydag adrannau ac endidau eraill y llywodraeth.

Nid oes unrhyw un o aelodau'r bwrdd, staff rheoli allweddol neu bartïon perthnasol eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion materiol gyda'r asiantaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 15. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Mae digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yn cael eu hystyried hyd at a gan gynnwys y dyddiad o awdurdodi'r cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Cynhaliwyd etholiad cyffredinol ar 8 Mehefin 2017. Mae hwn yn ddigwyddiad di-newidiol a does dim effaith arwyddocaol ar y datganiadau ariannol hyn.

## 16. Cyfryngau ariannol

Gan fod gofynion arian yr OPG yn cael eu bodloni trwy'r broses o amcangyfrifo, mae cyfryngau ariannol yn chwarae rôl mwy gyfyngedig wrth greu a rheoli risg nag sy'n berthnasol i gorff nad sydd yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif y cyfryngau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau nad sy'n rhai ariannol yn unol â phryniant a gofynion defnydd disgwyliedig yr asiantaeth ac mae'r asiantaeth felly'n destun credyd a hylifedd isel a risg isel ar y farchnad. Nodir yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol yn seiliedig ar y gost o'u dileu.

# Atodiadau

## Cofnod ariannol pum mlynedd

| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Incwm gweithredol** | | | | | |
| Atwrneiaeth arhosol | 27,094 | 31,580 | 39,776 | 53,646 | 61,823 |
| Atwrneiaeth barhaus | 2,048 | 1,791 | 1,570 | 1,098 | 1,665 |
| Goruchwyliaeth* | 8,061 | 9,255 | 10,065 | 11,113 | 11,377 |
| | **37,203** | **42,626** | **51,411** | **65,857** | **74,865** |
| **Ffioedd a ddilëwyd** | | | | | |
| Atwrneiaeth arhosol | 3,330 | 3,453 | 3,564 | 4,695 | 7,053 |
| Atwrneiaeth barhaus | 174 | 123 | 87 | 143 | 69 |
| Goruchwyliaeth* | 3,510 | 2,676 | 2,481 | 1,924 | 2,328 |
| Dileu ffioedd yn ôl disgresiwn | – | – | – | – | 840 |
| | **7,014** | **6,252** | **6,132** | **6,762** | **10,290** |
| Cyfanswm yr incwm | 44,217 | 48,878 | 57,543 | 72,619 | 85,155 |
| Cyfanswm gwariant | 27,918 | 31,895 | 40,293 | 53,321 | 57,715 |
| (Diffyg)/gwariant | 16,299 | 16,983 | 17,250 | 19,298 | 27,440 |
| Adennill costau | 158% | 153% | 143% | 136% | 148% |

* yn cynnwys Penodi Dirprwy

| Nifer y ffioedd[1] | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd LPA | 241,214 | 294,946 | 395,309 | 475,037 | 638,493 |
| Ffioedd EPA | 17,968 | 16,034 | 15,037 | 11,482 | 15,115 |
| Ffioedd copi swyddfa | 4,196 | 1,416 | 1,819 | 1,606 | 1,823 |
| Ffioedd penodi dirprwy | 11,801 | 14,017 | 14,938 | 15,432 | 14,884 |
| Ffioedd goruchwylio cyffredinol | 43,176 | 43,695 | 42,466 | 43,873 | 38,587 |
| Ffioedd goruchwylio isaf | 13,751 | 16,929 | 20,915 | 21,636 | 25,946 |

| Nifer y dileadau | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd LPA | 36,217 | 39,281 | 43,949 | 58,706 | 98,476 |
| Ffioedd EPA | 1,923 | 1,298 | 1,005 | 829 | 970 |
| Ffioedd penodi dirprwy | 3,263 | 3,682 | 3,403 | 2,809 | 3,083 |
| Ffioedd goruchwylio cyffredinol | 16,090 | 17,814 | 18,703 | 13,452 | 7,041 |
| Ffioedd goruchwylio isaf | 627 | 673 | 750 | 457 | 8,194 |

| Dulliau talu - niferoedd | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Siec | 168,496 | 237,339 | 308,245 | 320,028 | 537,725 |
| Cerdyn Credyd | 11,755 | 17,726 | 49,971 | 107,404 | 139,218 |
| Cerdyn Debyd | 11,402 | 9,528 | 8,559 | 12,282 | 13,818 |
| **Cyfanswm** | **191,653** | **264,593** | **366,775** | **439,714** | **690,761** |

1 Y ffactorau sy'n effeithio ar y gwahaniaeth rhwng nifer y ffioedd a gofnodir ar dderbyn cais a PoAs a gofrestrir yw: yr amser rhwng derbyn a chofrestru; a'r ceisiadau nad sy'n cwblhau'r broses gofrestru.

ISBN 978-1-4741-4407-0